# CYNGOR SIR ARBENNIG YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2014 (10.00 o'r gloch)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned),<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dysgu Gydol Oes),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro,<br>Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd Dros Dro,<br>Rheolwr Trawsnewid Asedau Corfforaethol (CS),<br>Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau TGCh (NS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff M Evans, T Ll Hughes, Raymond Jones, Richard O Jones. |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r arfer pan mae eitem yn un masnachol sensitif neu'n effeithio ar staff, yw dilyn proses i ystyried a ddylai'r materion hynny gael eu trafod mewn cyfarfod agored neu gyfarfod caeëdig. Yn yr achos arbennig hwn, penderfynodd y Swyddogion y dylai'r mater hwn gael ei drafod yn breifat ond y gallai rhannau perthnasol o'r Prosiect Gweithio'n Gallach gael eu rhyddhau i'r parth cyhoeddus. Dywedodd ymhellach bod Swyddogion yn ystyried na ddylai'r Prosiect Gweithio'n Gallach gael ei drafod yn llawn mewn cyfarfod cyhoeddus oherwydd bod gwybodaeth wedi ei chynnwys sy'n fasnachol sensitif h.y. gwerth asedau'r Cyngor cyn iddynt gael eu rhoi ar y farchnad agored.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod y Prawf Budd Cyhoeddus oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn nodi'r rhesymau dros gynnal y drafodaeth yn gyhoeddus neu'n breifat. Wedi pwyso a mesur, daethpwyd i'r casgliad yn y Prawf Budd Cyhoeddus y dylid cynnal y drafodaeth mewn sesiwn breifat yn y lle cyntaf fel y gallai'r Aelodau gyfnewid eu safbwyntiau'n rhydd ac yn ddidwyll. Y pryderon cyfreithiol penodol oedd bod yna wybodaeth oedd yn fasnachol sensitif yn yr adroddiad. Roedd y wybodaeth yn disgyn i 3 chategori:-

- Gwerthu asedau i helpu i ariannu'r Prosiect hwn sy'n nodi mewn manylder beth yw'r derbyniadau a ddisgwylir.
- Gwybodaeth fanwl am y gwaith caffael sydd ei angen er mwyn cyflawni'r Prosiect h.y. cyflenwadau a gwasanaethau y bydd angen i'r Cyngor eu prynu.
- Cyfeiriadau at safbwyntiau Swyddogion ynglŷn â nodweddion penodol rhai contractwyr a enwir.

Felly roedd y cyngor cyfreithiol yn parhau, sef y dylid cynnal y drafodaeth mewn fforwm preifat. Fodd bynnag, fe ddywedodd y Swyddog Monitro os oedd y Cyngor yn bwriadu peidio â dilyn y cyngor hwnnw fel roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi bwriadu ei wneud yn y gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, nododd y dylai'r Cyngor gyfyngu'r risg fel a ganlyn:-

- Osgoi cyfeirio at y wybodaeth fasnachol sensitif yn y drafodaeth gan y Cyngor;
- Rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro, pe bai'r Cyngor yn penderfynu cynnal y drafodaeth yn gyhoeddus, i ryddhau'r papurau ac i olygu'r wybodaeth fasnachol sensitif yn dilyn y cyfarfod. Mae yna 12 set o olygiadau yn y ddogfen.

Nododd Arweinydd y Cyngor y cyngor manwl a gafwyd gan y Swyddog Monitro a chynigiodd pe na bai'r wybodaeth fasnachol sensitif yn cael ei thrafod yn gyhoeddus, y dylai'r adroddiad ar y Prosiect Gweithio'n Gallach gael ei drafod yn gyhoeddus ac i olygu'r wybodaeth fasnachol sensitif o fewn yr adroddiad wedi hynny. Eiliodd y Cynghorydd Alwyn Rowlands y cynnig.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2014 wedi cymeradwyo'r Prosiect Gweithio'n Gallach ac i'r mater wedi hynny gael ei 'Alw i Mewn' i'w drafod ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac roedd y Pwyllgor hwnnw wedi gofyn i'r mater gael ei drafod yn gyhoeddus. Gohiriwyd y cyfarfod hwnnw ac yn dilyn y penderfyniad hwnnw, mae'r mater bellach wedi dod gerbron y Cyngor llawn. Dywedodd ymhellach y dylai'r sesiwn friffio ar y Prosiect Gweithio'n Gallach fod wedi cael ei chynnal cyn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2014 er mwyn caniatáu cynnal trafodaethau..

**PENDERFYNODD yr Aelodau yn unfrydol y dylid trafod y mater yn gyhoeddus ond gyda rhannau wedi'u golygu fel a nodwyd gan y Swyddog Monitro.**

## 3. PROSIECT GWEITHIO'N GALLACH

Roedd cais am gyfarfod Arbennig o'r Cyngor wedi ei wneud gan y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, John Griffith, Trevor Ll. Hughes, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws, Carwyn E. Jones, R. Meirion Jones, Alun W. Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees a Nicola Roberts yn unol ag Adran 4.1.3.1 y Cyfansoddiad, er mwyn ailystyried y penderfyniad a wnaeth y Pwyllgor Gwaith ar 20 Hydref, 2014 mewn perthynas â'r Prosiect Gweithio'n Gallach ac i ystyried y mater yn gyhoeddus. Roedd copi o'r rhesymau am y cais ynghlwm yn Rhaglen y cyfarfod.

Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Gwestiwn ynghylch y ffaith bod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu cymeradwyo'r Prosiect Gweithio'n Gallach ar 20 Hydref, 2014 yn amodol ar ryddhau adnoddau cyfalaf a refeniw. Cyfeiriodd at Gyfansoddiad y Cyngor 4.3.2.3 - Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r gyllideb a chwestiynodd a oedd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith o fewn rheoliadau'r Cyngor oherwydd bod Atodiad 6 yr adroddiad yn nodi y byddai'r Prosiect yn cael ei weithredu ar unwaith ym mis Rhagfyr. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â sut y byddai'r Prosiect hwn yn cael ei ariannu.

Dywedodd y Swyddog Monitro na all y Pwyllgor Gwaith ond gwneud penderfyniadau gwario lle mae'r cyllid ar gyfer y gwariant hwnnw eisoes wedi'i ddyrannu. Gan fod y Prosiect yn un aml-haenog, efallai bod peth o'r cyllid eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Efallai na fydd rhai elfennau o'r y Prosiect angen cyllid e.e. gwerthu asedau; materion i'r Pwyllgor Gwaith fydd y rhain. Bydd unrhyw beth arall yn benderfyniad i'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Y Swyddog Adran 151 Dros Dro ei bod yn bosib nad oedd unrhyw weithgaredd sydd wedi digwydd o fewn y flwyddyn hon yng nghyswllt Gweithio'n Gallach angen unrhyw gyllideb h.y. amser Swyddogion neu arian o gyllidebau adrannol oedd eisoes wedi ei neilltuo. Fodd bynnag, os bydd angen unrhyw arian yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae gan y Cyngor arian wrth gefn wedi'i neilltuo a gellir ei ddefnyddio drwy'r prosesau cywir i ryddhau cyllid. Dywedodd ymhellach nad oes unrhyw ddarpariaeth gyfalaf yn ei lle ar hyn o bryd ar gyfer y Prosiect hwn ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cydnabod hynny drwy gytuno ag egwyddor y Prosiect yn unig. Dywedodd y Swyddog ei fod yn credu bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Hydref, 2014 wedi gwneud penderfyniad cyfreithlon o dan y ddarpariaeth gyfansoddiadol.

Rhoddodd Cadeirydd y Cyngor wahoddiad i'r Cynghorydd Bob Parry OBE, fel Arweinydd yr Wrthblaid i siarad gerbron y cyfarfod. Mynegodd y Cynghorydd Parry mai prif bryderon Grŵp yr Wrthblaid i'r Prosiect Gweithio'n Gallach oedd y gwariant yng nghyswllt y Prosiect. Mae'r Prosiect yn ddibynnol ar werthu asedau'r Cyngor ar y farchnad agored a'u bod yn cael eu gwerthu'n gyflym. Dywedodd ymhellach ei fod yn gwerthfawrogi bod elfennau o'r Prosiect Gweithio'n Gallach yn dderbyniol ond nododd yn benodol na fyddai gwario dros £1m ar y Pencadlys yn dderbyniol i breswylwyr yr Ynys a'r adeg pan fo'r Awdurdod yn ystyried cynyddu'r Dreth Gyngor. Roedd y mater o ad-drefnu llywodraeth leol hefyd yn ffactor yr oedd angen ei ystyried.

Y prif faterion a leisiwyd gan Grŵp yr Wrthblaid oedd:-

- Diswyddiadau posibl mewn swyddi gweinyddol;
- Roedd gwario dros £1.5m ar Bencadlys y Cyngor Sir yn annerbyniol;
- Mae angen gwella TGCh er mwyn moderneiddio'r Awdurdod gyda mwy o adnoddau yn cael eu rhoi i mewn i'r gyllideb TGCh o'r Prosiect Gweithio'n Gallach;
- Roedd angen ymchwilio'n llawn i'r arbedion effeithlonrwydd ynni yn y Pencadlys h.y. goleuo LED, paneli heulol;
- Roedd y Prosiect yn dibynnu ar werthu asedau'r Cyngor a'u gwerthu'n fuan;
- Materion parcio a iechyd a diogelwch gyda mwy o staff yn gweithio yn y Pencadlys.

Rhoddodd y Deilydd Portffolio (Trawsnewid) y cefndir manwl i'r Prosiect Gweithio'n Gallach gan sôn am y sesiwn friffio a gynhaliwyd â staff. Mae'r Prosiect Gweithio'n gallach yn cael ei ddarparu fel ystod o arbedion fel oedd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad. Mae angen gwella Technoleg Gwybodaeth er mwyn annog a hyrwyddo gweithio'n hyblyg o fewn yr awdurdod. Yn seiliedig ar gyngor a gafwyd gan y Swyddog Adran 151, mae'n annhebygol y ceir arbedion drwy fabwysiadu agwedd dameidiog. Mae nifer o agweddau o fewn yr adroddiad yn syniadau a roddwyd gerbron gan staff ac fe all y rheolwyr yn awr weithio i foderneiddio cyfleusterau, y ddarpariaeth o wasanaethau ac arferion gweithio o fewn y Cyngor. Bydd derbyniadau cyfalaf yn cael eu defnyddio i gyfrannu at fuddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt y Prosiect gyda hynny'n arwain at welliannau o fewn yr awdurdod. Bydd yr arbedion £730k y flwyddyn yn deillio o'r Prosiect hwn. Pwysleisiodd y Deilydd Portffolio mai Prosiect 'buddsoddi i arbed' yw'r Prosiect hwn.

Cyfeiriodd at y mater o ddiswyddiadau posibl mewn swyddi gweinyddol fel a nodwyd gan Grŵp yr Wrthblaid. Eglurodd ei fod yn cael ei ragweld y byddai'r swyddi hyn yn cael eu colli drwy broses naturiol h.y. diswyddiadau gwirfoddol ac ymddeoliadau.
Dywedodd Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid y dylid adolygu'r penderfyniad ynglŷn â'r Prosiect Gweithio'n gallach ac y dylai symud ymlaen mewn camau. Cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodion yn unol â darpariaethau rhan 4.1.18.5 y Cyfansoddiad.

Roedd y bleidlais wedi'i chofnodi fel a ganlyn:-

**Y dylid adolygu'r penderfyniad ar y Prosiect Gweithio'n Gallach ac ystyried symud ymlaen gyda'r Prosiect trwy broses cam wrth gam:-**

Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, John Griffith, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws, Carwyn E. Jones, R. Meirion Jones, Alun W. Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts. **CYFANSWM 11**

**Yn erbyn y cynnig:-**

Cynghorwyr Jim Evans, R.A. Dew, D.R. Hughes, K.P. Hughes, T.V. Hughes, W.T. Hughes, A.M. Jones, G.O. Jones, H.E. Jones, J. Arwel Roberts, Alwyn Rowlands, D.R. Thomas, Ieuan Williams. **CYFANSWM 13**

**Atal pleidlais:** **DIM**

**PENDERFYNWYD gwrthod y cynnig a datganodd y Cadeirydd nad oedd y cynnig wedi ei basio.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

**NODWCH, OS GWELWCH YN DDA, ER FOD Y DDOGFEN HON WEDI'I MARCIO FEL UN "EITHRIEDIG", MAE'R WYBODAETH YN CAEL EI DATGELU, ER EI GOLYGU, YN DILYN PENDERFYNIAD Y CYNGOR LLAWN.**

**PLEASE NOTE, WHEREAS THIS DOCUMENT IS MARKED "EXEMPT", THE INFORMATION IS DISCLOSED, ALBEIT IN A REDACTED FORM, FOLLOWING A DECISION OF THE FULL COUNCIL.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith Anffurfiol (6ed Hydref, 2014)<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (15 Hydref, 2014)<br>Pwyllgor Gwaith (20ain Hydref, 2014) |
| **Dyddiad:** | 29 Medi, 2014 |
| **Pwnc:** | Achos Busnes Llawn Prosiect Gweithio'n Ddoethach |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng Alwyn Rowlands |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Bethan Jones (Dirprwy Prif Weithredwraig)<br>*(Swydd PG Trawsnewid Corfforaethol yn wag ar adeg ysgrifennu)* |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Danielle Edwards (Rheolwr Rhaglen Corfforaethol)<br>Est. 2151<br>DanielleEdwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Mae'r adroddiad hwn yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno:**

- **i'r prosiect Gweithio'n Ddoethach weithredu fel yr amlinellir yn yr adroddiad yn amodol ar ddyrannu adnoddau cyfalaf a refeniw; a**
- **cymeradwyo a chyfarwyddo gwerthu'r asedau a fydd yn cael eu gwagio ac sydd o fewn sgôp y prosiect *(h.y. Parc Mownt, Rovacabin, Tŷ Penyrorsedd, Canolfan Hyfforddiant Môn,)* cyn gynted ag y bo modd,**

**a bod angen i'r Rheolydd Rhaglen adrodd yn ôl bob 6 mis ar gynnydd.**

**1. Cyflwyniad**

Dros y blynyddoedd nesaf bydd Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn wynebu penderfyniadau ariannol anodd, gyda chyllidebau sy'n lleihau'n barhaus ynghyd â galw cyhoeddus cynyddol yn rhoi pwysau ar y sefydliad i fabwysiadu ethos o weddnewid. Mae newid yn anochel, yn wir mae'n angenrheidiol er mwyn goroesi ac ni all CSYM fforddio cael ei adael ar ôl. Mae'r Awdurdod yn prysur baratoi ar gyfer y gweddnewidiad hwn, gan ddangos ymrwymiad cryf i ddod yn sefydliad mwy modern, effeithiol a fforddiadwy yn y pen draw.

Mae'r *Cynllun Gweddnewid* yn amlinellu'r angen i'r Awdurdod gael cynllun glir yn ei le ynghylch y ffordd y mae'n bwriadu gweddnewid y diwylliant mewnol ac arferion gweithio; gweddnewid ei wasanaethau, y modd y'u darperir a gan bwy; ac yn y pen draw sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor i'r dyfodol. Mae'r modd y byddwn yn gwneud hyn a ffurf hyn er budd y cyhoedd wedi ei egluro drwy amcanion ein *Cynllun Corfforaethol*. Er mwyn cyflawni'r



EITHRIEDIG

amcanion hyn, rhaid i'n Hawdurdod gychwyn ar y gwaith meddwl a gweithio'n 'ddoethach'.

**2. Achos Strategol**

Mae Gweithio'n Ddoethach yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o fentrau allweddol eraill y sefydliad, a byddai nifer ohonynt yn anodd i'w cyflawni heb ei weithredu.

- Cynllun Corfforaethol
- Strategaeth Effeithlonrwydd
- Cynllun Rheoli Asedau
- Strategaeth TGCh
- Parhad Busnes
- Effeithlonrwydd Ynni

Mae yna yrwyr cymhellol y gellir ymdrin â nhw a buddion i'w cyflawni drwy Weithio'n Gallach. Y 5 gyrrwr ydy:

- *Cau Adeiladau* - Rhaid i'r Awdurdod symleiddio ei bortffolio o asedau er mwyn delio â chostau cynnal a chadw parhaus ac addasrwydd adeiladau fel swyddfeydd.
- *Swyddfeydd Cyfyngedig* - Dengys arolwg a gwblhwyd yn 2012 bod tua 600 o weithfannau'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn adeilad y prif swyddfeydd yn Llangefni. Gwyddom o'r achos hwn fod angen adleoli 200 o staff ychwanegol o eiddo a ddefnyddir ar hyn o bryd fel swyddfeydd ond heb fod yn 'addas i'r diben' o ran gosodiad a dyluniad, a'u cyflwr yn gyffredinol.
- *Tanfuddsoddi mewn Seilwaith TGCh gan arwain at Systemau sydd wedi Dyddio* - Mae angen cryfhau'r rhwydweithiau a'r seilwaith er mwyn sicrhau eu bod yn ddibynadwy ac yn ddigon cadarn i fodloni'r gofynion newydd. Mewn rhai achosion nid yw'r systemau; wedi eu sefydlu'n llwyr neu'n llwyddiannus, y defnydd ohonynt yn isel, neu ddim yn ddigon cadarn i'n cefnogi ni wrth i ni yrru ymlaen o fewn amgylchedd mwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Adroddwyd ar rai o'r anawsterau gyda'n systemau gan ein Harchwilwyr Mewnol a'r ICO, gan ddangos ein bod yn wan mewn rhai meysydd ac mewn perygl o gael cosbau ariannol sylweddol a chael enw drwg.
- *Bodloni Targedau Effeithlonrwydd* - Rhaid i'r Awdurdod leihau ei wariant yn sylweddol, a gyda bwlch ariannu oddeutu £16 miliwn i'w lenwi dros y 3 blynedd nesaf, bydd angen i'r Cyngor wynebu newidiadau er mwyn delio â heriau'r dyfodol a pharhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf o hyn ymlaen.
- *Moderneiddio Arferion Gweithio* - Er mwyn ymdrin â'r gyrwyr uchod, rhaid ystyried pumed elfen ynghylch moderneiddio arferion gweithio. Mae'r elfen hon angen cryn dipyn o newid yn y diwylliant sefydliadol a chymerir amser i weithredu ac i sefydlu hynny.

**3. Achos Economaidd**

Mae'r hoff ddewis yn cynnig:

(i) Bod derbynfa prif adeilad swyddfeydd y Cyngor yn cael ei ail hailddylunio i greu un prif dderbynfa ar gyfer y sefydliad gyda gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid ar y pwynt cyswllt.



EITHRIEDIG

*Y dderbynfa yw un o'r cyfleoedd cyntaf i'r Awdurdod wneud argraff ar y cwsmer/ymwelydd, ac felly mae angen ei dylunio mewn modd sy'n groesawgar ac yn ymarferol, gan roi argraff gadarnhaol, gyson a pharhaol.*

(ii) Bod prif adeilad swyddfeydd y Cyngor yn cael ei ail-ddylunio i gefnogi'r Awdurdod wrth symleiddio ei asedau a mabwysiadu arferion gweithio callach.

*Y nod yw gweddnewid yr amgylchedd gweithio er mwyn galluogi mwy o staff i ddefnyddio prif Swyddfeydd y Cyngor a/neu leoliadau cymunedol fel eu prif leoliad gwaith. Bydd hyn angen dull mwy modern o ddarparu gwasanaeth, gan gwmpasu egwyddorion ehangach o weithio hyblyg a doethach.*

(iii) Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu gwell arferion gweithio er mwyn lleihau'r amser a dreulir yn cwblhau dyletswyddau gweinyddol.

*Er mwyn moderneiddio a dod yn fwy hyblyg fel sefydliad mae gofyn i staff gael eu grymuso i fod yn llawer mwy hunangynhaliol. Mae datblygiadau technegol yn darparu'r offer y mae ar fusnesau eu hangen i gyflawni eu gwaith wrth fynd o un lle i'r llall, yn aml y tasgau hynny a ystyrir yn draddodiadol yn waith swyddfa. Bydd yr offer TGCh hyn nid yn unig yn caniatau i'r gweithlu ddod yn fwy ystwyth, ond cânt effaith hefyd ar effeithlonrwydd drwy ganiatau cwblhau gwaith yn gyflymach ac yn y pwynt cyswllt. Yr hyn sydd wedi dod yn glir, trwy groesawu technoleg newydd a gweithio'n ddoethach, yw y gall gael effaith o ran lleihau'r tasgau gweinyddol a gyflawnir yn yr Awdurdod.*

Dengys y dystiolaeth, drwy weithredu'r cynigion uchod y gallwn lwyddo i gyflawni gwell canlyniadau ar gyfer ein staff, y sefydliad a'n pobl, gan gwrdd ag amcanion buddsoddi'r prosiect:

*Amcan Buddsoddi 1: Optimeiddio mynediad at wasanaeth*

- Bydd cwsmeriaid yn cael cyfarchiad cyson CSYM gan y staff yn yr unig brif dderbynfa
- Bydd cwsmeriaid yn cael ateb i'w ymholiad (syml) yn y pwynt cyswllt cyntaf – ymateb cyflymach a fydd yn eu bodloni'n well
- Bydd gan gwsmeriaid fynediad at wasanaethau drwy'r cyfrifiaduron cyhoeddus, gan annog y newid at hunan-wasanaethu a datblygu sgiliau i gael mynediad at wasanaethau o leoliadau sy'n gyfleus iddyn nhw
- Bydd cwsmeriaid yn cael cymorth gan swyddogion ar y pryd pan fydd angen cwblhau ffurflenni, hawliadau budd-daliadau a llogi cyfleusterau
- Bydd cwsmeriaid yn cael ymateb gwell a mwy cyson i'w galwadau ffôn

*Amcan Buddsoddi 2: Moderneiddio, dod yn gynaliadwy ac yn barod i newid*

- Bydd y sefydliad yn gwneud gwell defnydd o'r lle sydd ar gael o fewn y prif adeilad gan alluogi gwell cydweithrediad rhwng gwasanaethau
- Lles staff h.y. bydd hapusrwydd yn cynyddu yn sgil y teimlad o well hyblygrwydd yn y modd maent yn rheoli llwyth gwaith a'r sefydliad yn ymddiried ynddynt i wneud hynny'n effeithiol
- Bydd gwasanaethau'n fwy pwrpasol o ran strwythur ac yn dysgu darparu eu gwaith i'r eithaf ond gyda llai o adnoddau



EITHRIEDIG

- Bydd cwsmeriaid yn medru cael mynediad at wasanaeth yn rhwydd
- Bydd cwsmeriaid yn ymddiried yn yr Awdurdod i gadw data cwsmeriaid yn ddiogel

*Amcan Buddsoddi 3: Symleiddio ein portffolio asedau*
- Bydd y sefydliad yn medru cau adeiladau allanol anaddas
- Bydd staff wedi eu lleoli mewn adeiladau sy'n fodern ac yn addas/ yn ddigonol iddynt fedru cwblhau eu dyletswyddau i'r eithaf
- Bydd gwell cefnogaeth i'r rhaglen ehangach o symleiddio asedau ar gyfer yr Awdurdod e.e. Moderneiddio Ysgolion drwy ryddhau Ysgol y Graig
- Bydd gwasanaethau'n dod ynghyd i alluogi gwell cydweithio ar draws gwasanaethau, gan wella mynediad cyfannol i wasanaethau gan gwsmeriaid

*Amcan Buddsoddi 4: Cyflawni arbedion effeithlonrwydd*
- Bydd gan y sefydliad bortffolio asedau llai a fydd yn golygu llai o faich ar gyllidebau refeniw bob blwyddyn
- Bydd y sefydliad yn elwa wrth osgoi costau mewn perthynas â chostau rhedeg refeniw parhaus ar gyfer adeiladau lle tynnwyd y gyllideb hanesyddol o gyllidebau cyfredol y gwasanaethau
- Bydd y sefydliad yn gwneud gwell defnydd o staff gweinyddol o fewn yr Awdurdod gan gael gwared â rhai a adnabuwyd nad oes eu hangen yn y strwythur

*Amcan Buddsoddi 5: Gwella ein henw da a datblygu ein diwylliant*
- Bydd gan y sefydliad enw gwell ymysg llywodraethau lleol a chydnabyddir hynny ar lefel Genedlaethol
- Bydd y sefydliad yn denu ac yn cadw staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda
- Bydd y sefydliad a'r staff yn gweithio mewn diwylliant o ymddiriedaeth
- Bydd Gwasanaethau Cefnogol yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r agenda effeithlonrwydd
- Bydd y sefydliad yn cael ei gydnabod gan yr ICO fel un sy'n cydymffurfio mewn perthynas â data

Mae'r cynigion yn cyfrannu hefyd at ein nod o gyflawni'n dyletswyddau mewn perthynas â *llywodraethu gwybodaeth*, gan fodloni rhai o argymhellion allweddol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

### 4. Achos Ariannol

Mae'r achos ariannol yn ymarferol â'r sefyllfa cryno yn dangos dros y cyfnod o 2 flynedd y bydd y prosiect yn rhyddhau arbedion refeniw net o tua £729k bydd yn cyfrannu i'r targedau effeithlonrywdd ac yn cael eu priodoli i:

- Gostyngiad mewn staffio (£621,500)
- Effeithlonrwydd Ynni (£21,500)
- Costau rhedeg adeiladau (£171,000)

Bydd cost refeniw anghylchol y newid tua £440k yn y flwyddyn gyntaf a £136k yn yr ail flwyddyn, a daw'r arian o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer:

- Costau dileu swyddi a diffyg pensiwn (£472,500)
- Cefnogaeth TGCH am 2 flynedd i gefnogi datblygiad a gweithredu (£69,000)

- Cefnogaeth Datblygu Gweithlu am 1 mlynedd i gynorthwyo gwasanaethau yn y gostyngiad deg ac gyfartal o'u cyflenwad gweinyddol (£34,500)

Disgwylir derbyniadau cyfalaf yn seiliedig ar werth marchnad agored yr adeiladau o fewn cwmpas y prosiect hwn o £563k *(ac eithrio Hen Ysgol Y Graig a safleoedd cysylltiedig lle mae'r derbyniadau cyfalaf yn cael eu priodoli i Ysgol y Bont).* Er y dangosir ym mlwyddyn 1, ni ellir rhagweld pryd y bydd yr asedau yn gwerthu a felly bydd derbynebau yn cael eu cyflwyno i'r 'pot' cyfalaf corfforaethol fel y'i derbyniwyd.

Mae angen buddsoddiad cyfalaf o tua £1.1m i gyflenwi'r cynigion allweddol ar draws y 3 argymhellion i'w sicrhau drwy'r dyraniad cyfalaf corfforaethol, a fydd yn darparu:

- ymgymryd ag ailddatblygu'r brif dderbynfa (£77,000)
- ymgymryd ag ailddatblygu'r prif adeilad (£588,500)
- cymorth proffesiynol ar gyfer dylunio (£102,500)
- symud yr ystafelloedd hyfforddi i Neuadd y Sir (£33,000)
- goleuadau ynni effeithlon drwy'r adeilad (£151,000)
- costau TGCh cysylltiedig i: gryfhau'r rhwydwaith, darparu'r caledwedd, ynghyd â phwyntiau diwifr (£54,000)
- prynu datrysiad cyfathrebu unedig [redacted]
- Mynediad o bell [redacted]
- Lle i storio cofnodion electronig ychwanegol (£29,500)
- Cyfarpar clyweledol ar gyfer ystafelloedd cyfarfod (£5,000)
- System oriau hyblyg newydd (£21,000)
- Prynu meddalwedd adnabod llais (£2,000)

Mae'r prosiect yn nodi cyfleoedd pellach ar gyfer arbedion drwy'r gwaith sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â lleihau tasgau gweinyddol ac effeithlonrwydd ynni.

**5. Achos Masnachol**

Er mwyn rhoi Gweithio Ystwyth ar waith rhaid ymgymryd â gwariant sylweddol ar offer, addasu adeiladau, systemau gwybodaeth a seilwaith TG. Bu'r Swyddog Caffael yn chwarae rhan drwy'r prosiect yn darparu cyngor ac arweiniad ar yr amryw faterion caffael, yn archwilio fframweithiau presennol ynghyd â chontractau sydd ar gael i gefnogi'r broses brynu.

Wrth symud ymlaen, bydd y Swyddog Caffael yn cynorthwyo i ganfod bylchau lle bo angen cynnal cylch llawn y broses gaffael, ac amcangyfrif amserlen y broses hon, a fydd yn llywio'r Cynllun Prosiect ar gyfer rhoi meddalwedd newydd a newidiadau strwythurol ar waith.

Bydd yr amserlenni a'r union fanylion yn newid yn ôl argaeledd y cynnyrch sy'n cael ei gaffael ynghyd â gwerth y pryniad yn unol â pholisi CSYM a deddfwriaeth yr UE.

Bydd *Rheolwr y Rhaglen Gweithio'n Ddoethach* yn parhau i weithio â'r Swyddog Caffael i sicrhau bod uniondeb ac arfer dda yn cael eu dangos yn glir a'u bod yn cael gwerth am arian.

| **6. Achos Rheoli** |
|---|
| Mae cynlluniau a threfniadau llywodraethu clir ar gyfer rheoli'r gweithredu ac y newid wrth symud ymlaen.<br><br>Bydd gweithredu'n cwpasau'n fras cyflawni tri maes maes gwaith fel 'Prosiectau Gweithredu' bydd yn adrodd I'r Bwrdd Rhaglen (Gweithio'n Ddoethach):<br>▪ ailstrwythuro adeiladau a symud gwasanaethau<br>▪ meddalwedd TGCh newydd<br>▪ rheoli'r newid a datblygu'r gweithlu<br><br>Mae'r dull o reoli newid a chefnogi ein staff a rheolwyr yn glir a manwl, ac yn gosod cyfeiriad cadarn ar gyfer rheoli newid llywddiannus. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Rhoddwyd ystyriaeth i newid dim byd o gwbl ond gan na fyddai hynny'n cyflawni amcanion corfforaethol y sefydliad, ni chafodd ei ddewis fel opsiwn gwirioneddol.<br><br>Mae *Tabl 2* yn Adran 3.1 o'r achos yn gosod pob cynnig yn erbyn *Amcanion Buddsoddi* y prosiect i ddarparu tystiolaeth o ran eu gallu i wella canlyniadau ar gyfer ein cwsmeriaid, staff a'r sefydliad cyfan, a sut y byddant yn cyfrannu at gyflawni'n buddion anariannol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae angen buddsoddiad cyfalaf a refeniw i fel y gellir gwneud a rhyddhau arbedion refeniw.. Unwaith y bydd y safleoedd sy'n rhan o'r sgôp yn cael eu gwagio, byddwn yn edrych i fwrw ymlaen i'w gwerthu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae'r Prosiect yn ceisio buddsoddiad o gronfeydd wrth gefn y Cyngor drwy gyflwyno cais i gael ei ystyried fel rhan o'r broses buddsoddi cyfalaf sydd newydd ei fabwysiadu a thrwy ofyn am refeniw ychwanegol o gronfeydd wrth gefn fel menter 'cost o newid'. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim** | Mae'r UDA yn cefnogi argymhellion yr adroddiad hwn ac yn ystyried bod yr Achos Busnes Llawn |

| | | |
|---|---|---|
| | **Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | yn un cadarn *(cyflwynwyd ar 26 Medi 2014)*. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae'r Swyddog A151 yn cefnogi argymhellion yr adroddiad hwn ac yn ystyried bod yr Achos Busnes Llawn yn un cadarn *(cyflwynwyd ar 26 Medi 2014)*. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dylai'r adroddiad gael ei gyflwyno fel adroddiad rhan dau oherwydd y sensitifrwydd o gwmpas dyfodol swyddi gweinyddol. |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Arweinydd y Prosiect yw'r *Pennaeth Amgylcheddol a Thechnegol*, gyda'r *Pennaeth Proffesiwn ar gyfer AD a'r Rheolydd TGCh* (dros dro) hefyd yn rhan o'r Bwrdd Prosiect – maent oll wedi bod yn rhan o ddatblygu'r Achos Busnes Llawn. |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cyflwynir i'r Pwyllgor Sgriwtini ar 15 Hydref 2014. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Mae'r Cynghorydd Alwyn Rowlands, fel yr aelod portffolio, wedi bod yn aelod o'r *Bwrdd Prosiect Gweithio'n Ddoethach* ac yn parhau i fod. Mae'n cefnogi'r achos hwn. |
| **10** | **Staff & Undebau** | *Staff y Cyngor* – Rhoddwyd staff i gyfrannu at ddatblygu'r cynigion trwy ymgynghoriad ffurfiol a grwpiau cydrandeiliaid i staff rheng flaen..<br><br>*Undebau Llafur* – Wedi cael gwahoddiad i gyfrannu at ddatblygu'r cynigion trwy gyfarfodydd cyswllt ac ymgynghoriad ffurfiol. |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Mae'r Achos Busnes Llawn yn darparu tystiolaeth y bydd y cynigion yn cefnogi cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol – byddai'n anodd cyflawni rhai ohonynt heb weithredu'r prosiect hwn. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | Mae'r prosiect cyfredol wedi mabwysiadu methodoleg rheoli risg, gan nodi'r prif risgiau ac ymhelaethu ar gamau lliniarol i ostwng y risg.<br>*Gellir gweld y gofrestr risg gyfredol yn Atodiad 1 yr Achos Busnes Llawn.*<br><br>Wrth symud ymlaen i weithredu'r prosiect cydnabyddir y bydd tair risg uchel mewn perthynas â:<br>▪ *TGCh* - Y risg na fydd y datblygiad angenrheidiol yn y gwasanaeth TGCh yn digwydd i'r graddau gofynnol ar |

EITHRIEDIG

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfer gosod sylfaen ar gyfer y trawsnewid diwylliannol a thrawsnewid sylweddol o ran arferion gweithio<br>▪ *Cyllid* – Y risg na lwyddir i sicrhau arbedion ar amser neu i'r lefel a ddisgwylir<br>▪ *Ysbryd y Staff* – Y risg na fyddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n effeithiol gyda'r staff gan arwain at gyndynrwydd i newid. |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Achos Busnes Llawn Prosiect Gweithio'n Ddoethach (Hydref 2014) |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

EITHRIEDIG

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Prosiect Gweithio'n Ddoethach

*Achos Busnes Llawn*

Hydref 2014

EITHRIEDIG

Cyswllt y Ddogfen:

DanielleEdwards@ynysmon.gov.uk

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| | **Crynodeb Gweithredol** | **3** |
| **1.** | **Cyflwyniad** | **5** |
| 1.1 | Gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn | 5 |
| 1.2 | Diffinio Gweithio'n Ddoethach | 6 |
| 1.3 | Strwythur yr Achos Busnes Llawn | 6 |
| **2.** | **Yr Achos Strategol** | **7** |
| 2.1 | Alinio â Strategaethau a Mentrau Allweddol | 7 |
| 2.2 | Yr Achos am Newid | 11 |
| **3.** | **Yr Achos Economaidd** | **24** |
| 3.1 | Dangos Tystiolaeth Canlyniadau Gwelliant a Gwerth am Arian | 24 |
| 3.2 | Crynodeb o'r Hoff Opsiwn – Argymhelliad 1 | 27 |
| 3.3 | Crynodeb o'r Hoff Opsiwn – Argymhelliad 2 | 30 |
| 3.4 | Crynodeb o'r Hoff Opswin – Argymhelliad 3 | 39 |
| **4.** | **Yr Achos Ariannol** | **45** |
| 4.1 | Datganiad wedi ei Grynhoi | 45 |
| 4.2 | Y Posibiliadau ar gyfer Arbedion i'r Dyfodol | 46 |
| **5.** | **Yr Achos Masnachol** | **49** |
| 5.1 | Caffael | 49 |
| **6.** | **Yr Achos Rheoli** | **50** |
| 6.1 | Trefniadau ar gyfer Llywodraethu'r Rhaglen | 50 |
| 6.2 | Gwerthuso a Nodi Buddion wedi'r Prosiect | 51 |
| 6.3 | Rheoli Risg a Datrys Materion | 51 |
| 6.4 | Rheoli Newid | 52 |

| | | |
|---|---|---|
| Atodiad 1 | Cofrestr Risg Gweithio'n Ddoethach | 55 |
| Atodiad 2 | Dyluniadau ar gyfer y Newidiadau Arfaethedig | 60 |
| Atodiad 3 | Adroddiad Gweithlu'r Derbynfa | 64 |
| Atodiad 4 | Adroddiad Telephoni Corfforaethol | 71 |
| Atodiad 5 | Prosiect Gweithio'n Ddoethach – Ystyried Lleoliad Siambr y Cyngor | 76 |
| Atodiad 6 | Cynllun Gweithredu Cychwynnol Drafft | 78 |
| Atodiad 7 | Manylion Costau gyda Thybiaethau | 81 |
| Atodiad 8 | Awgrymiadau Da ar gyfer Rheoli Gweithwyr a Thimau Hyblyg | 85 |

EITHRIEDIG

# Crynodeb Gweithredol

**Crynodeb o'r Achos Strategol**
Mae Gweithio'n Ddoethach yn cydgysylltu â rhan fwyaf o fentrau allweddol eraill y sefydliad, a byddai nifer ohonynt yn anodd i'w cyflawni heb ei weithredu.

Mae yna yrwyr cymhellol y gellir ymdrin â nhw a buddion i'w cyflawni drwy Weithio'n Ddoethach a thrwy ei weithredu bydd hi'n haws cyflawni'n hamcanion corfforaethol. Er mwyn sicrhau llwyddiant, rhaid lliniaru risgiau a chynllunio'n ofalus.

**Crynodeb o'r Achos Economaidd**
Mae tri argymhelliad bras ynghlwm â'r hoff ddewis:

*Argymhelliad 1 -* Mae derbynfa prif adeilad swyddfeydd y cyngor yn cael ei ail hailddylunio i greu un prif dderbynfa ar gyfer y sefydliad gyda gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid ar y pwynt cyswllt.

*Argymhelliad 2 -* Bod prif adeilad swyddfeydd y cyngor yn cael ei ailddylunio i gefnogi'r Awdurdod wrth symleiddio ei asedau a mabwysiadu arferion gweithio doethach.

*Argymhelliad 3 -* Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu gwell arferion gweithio er mwyn lleihau'r amser a dreulir yn cwblhau dyletswyddau gweinyddol.

Drwy weithredu'r cynigion yn y tri argymhelliad, dengys y dystiolaeth y gallwn lwyddo i gyflawni gwell canlyniadau ar gyfer ein staff, y sefydliad a'n pobl, gan gwrdd ag amcanion buddsoddi'r prosiect:

- Amcan Buddsoddi 1: Optimeiddio mynediad at wasanaeth
- Amcan Buddsoddi 2: Moderneiddio, dod yn gynaliadwy ac yn barod i newid
- Amcan Buddsoddi 3: Symleiddio ein portffolio asedau
- Amcan Buddsoddi 4: Cyflawni arbedion effeithlonrwydd
- Amcan Buddsoddi 5: Gwella ein henw da a datblygu ein diwylliant

Mae'r cynigion yn cyfrannu hefyd at ein nod o gyflawni'n dyletswyddau mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth, gan fodloni rhai o argymhellion allweddol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Mae angen busoddiad cyfalaf, ynghyd â rhai costau trosiannol a refeniw i'w cyfnewid am fuddion ariannol (arbedion refeniw a chyfalaf) a buddion nad ydynt yn rhai ariannol.

**Crynodeb o'r Achos Ariannol**

Mae'r achos ariannol yn ymarferol â'r sefyllfa cryno yn dangos dros y cyfnod o 2 flynedd y bydd y prosiect yn rhyddhau arbedion refeniw net o tua £729k, a derbyniadau cyfalaf o oddeutu £563k (gwireddu wrth eu gwerthu).

EITHRIEDIG

**ATODIAD 1**

Mae'r gost refeniw anghylchol o newid tua £440k yn y flwyddyn gyntaf a £136k yn yr ail flwyddyn, a fydd yn cael ei sicrhau o'r cronfeydd wrth gefn, gyda buddsoddiad o tua £1.1 miliwn cyfalaf ei angen er mwyn sicrhau'r canlyniadau gwella ar gyfer y sefydliad (o ddyraniad cyfalaf).

Mae cyfleoedd pellach ar gyfer arbedion a adnabuwyd drwy'r gwaith a gwblhawyd mewn perthynas â lleihau tasgau gweinyddol ac effeithiolrwydd ynni.

**Crynodeb o'r Achos Masnachol**

Mae sicrwydd bod y prosiect wedi bod yn cydweithio â'r swyddfa caffael corfforaethol a bydd yn yn parhau i wneud hynny, er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r deddfau a'r rheoliadau priodol.

**Crynodeb o'r Achos Rheoli**

Mae cynlluniau a threfniadau llywodraethu amlwg ar gyfer rheoli'r gweithredu a'r newid wrth yrru ymlaen.

Bydd y gweithredu'n cwmpasu tri maes llafur yn fras gan gyflawni drwy 'Brosiectau Gweithredu' ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Rhaglennu (Gweithio'n Ddoethach):

- meithrin gwaith ailstrwythuro a symud gwasanaethau
- meddalwedd TGCh newydd
- rheoli'r gwaith o ddatblygu newid a'r gweithlu

Mae'r ymagwedd at reoli newid a chefnogi'n staff a'n rheolwyr yn amlwg wedi ei ystyried yn glir ac yn fanwl, gan osod arweiniad cryf ar gyfer rheoli newid yn llwyddiannus.

EITHRIEDIG

# 1. Cyflwyniad

Dros y blynyddoedd nesaf bydd Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn wynebu penderfyniadau ariannol anodd, gyda chyllidebau sy'n lleihau'n barhaus ynghyd â galw cyhoeddus cynyddol yn rhoi pwysau ar y sefydliad i fabwysiadu ethos o weddnewid. Mae newid yn anochel, yn wir mae'n angenrheidiol er mwyn goroesi ac ni all CSYM fforddio cael ei adael ar ôl. Mae'r Awdurdod yn prysur baratoi ar gyfer y gweddnewidiad hwn, gan ddangos ymrwymiad cryf i ddod yn sefydliad mwy modern, effeithiol a fforddiadwy yn y pen draw.

Mae'r *Cynllun Gweddnewid* yn amlinellu'r angen i'r Awdurdod gael cynllun glir yn ei le ynghylch y ffordd y mae'n bwriadu gweddnewid y diwylliant mewnol ac arferion gweithio; gweddnewid ei wasanaethau, y modd y'u darperir a gan bwy; ac yn y pen draw sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor i'r dyfodol. Mae'r modd y byddwn yn gwneud hyn a ffurf hyn er budd y cyhoedd wedi ei egluro drwy amcanion ein *Cynllun Corfforaethol*. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, rhaid i'n Hawdurdod gychwyn ar y gwaith meddwl a gweithio'n 'ddoethach'.

## 1.1 Gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn

Gweledigaeth CSYM yw i;

> *'ddatblygu gwasanaethau gwell, mwy modern, cynyddu effeithlonrwydd, lleihau costau hirdymor, gwella ysgogiad a chynyddu hyblygrwydd mewn gwaith. Mae hyn yn ategu dyheadau'r Cynllun Gweddnewid ar gyfer; gweddnewid diwylliant, ymarferion gwaith, a gwasanaethau a sicrhau hyfywedd ariannol i'r dyfodol'.*

Bydd cyflawni'r weledigaeth hon yn dibynnu ar feddwl yn ddyfeisgar a mabwysiadu syniadau cadarn ac uchelgeisiol, law yn llaw â buddsoddi yn yr amgylchedd gwaith ac mewn systemau gweithredu i sicrhau bod gweithio symudol, hyblyg ac o adref yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau.

Ym mis Mehefin 2013, cytunwyd bod angen sefydlu prosiect penodol er mwyn gyrru newidiadau mewn arferion gwaithio a diwylliant yn eu blaenau o fewn CSYM, gan greu'r **Prosiect Gweithio'n Ddoethach** o ganlyniad sy'n ceisio sicrhau y gall:

| | |
|---|---|
| *Defnyddwyr Gwasanaeth* | gael y gwasanaeth sydd arnynt eu hangen yn gynt ac o amryw o leoliadau cyfleus. |
| *Staff* | weithio'r oriau angenrheidiol ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n fwy cyfleus ar gyfer eu bywyd cartref gan ddenu gwerthfawrogiad ac ymddiriedaeth eu rheolwyr wrth wneud hynny. Bydd hyn yn rhoi teimlad o falchder ymysg y staff wrth weithio i sefydliad modern ac un sy'n dangos cynnydd. |
| *Aelodau Etholedig* | gysylltu â swyddogion yn rhwydd yn ôl yr angen o amryw o leoliadau gan sicrhau y gall etholwyr gysylltu â nhw yn haws ac yn sgil hynny gyfrannu at ddarparu gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian. |

EITHRIEDIG

| | |
|---|---|
| *Y Sefydliad* | ddod yn fwy darbodus, yn fwy ymatebol ac yn fwy effeithlon a gallu adnabod cyfraniadau staff yn well at y nodau corfforaethol, tra'n denu rhagor o bobl i weithio i Gyngor Sir Ynys Môn a pharhau i wneud hynny. Bellac, cydnabyddir hyn yn 'arfer dda' yng nghyd-destun llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. |

## 1.2 Diffinio Gweithio'n Ddoethach

Mae Gweithio'n Ddoethach yn cyfeirio at ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a wnaed yn bosib gan welliannau technolegol ac a wnaed yn hanfodol gan bwysau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae Gweithio'n Ddoethach yn golygu cymryd agwedd gynhwysfawr a strategol at foderneiddio arferion gweithio er mwyn cyflawni'n hamcanion corfforaethol. Drwy'r prosiect hwn rydym wedi mynd i'r afael â'r gwersi a ddysgwyd yn fewnol ac ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan ofyn i'n harweinwyr, rheolwyr a staff am eu barn ynghylch yr hyn sy'n gweithio orau i Fôn, a datblygu achos sy'n addas ar gyfer CSYM a'i bobl.

## 1.3 Strwythur yr Achos Busnes Llawn

Datblygwyd yr achos busnes yn unol â chanllaw presennol Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynnwys a strwythur adroddiadau ar achosion busnes (y 'model pum achos'). Yn unol â'r canllaw hwn mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

**Achos Strategol**: yn cynnig sicrwydd bod y synergedd a ffurf strategol y cynnig yn addas ar gyfer CSYM ac yn amlygu'r ddadl neu'r achos dros y newid – y 'pam'.

**Achos Economaidd**: yn ystyried a all Gweithio'n Ddoethach gynnig gwell canlyniadau ar gyfer staff, y sefydliad a phobl, ac yn cynnig gwerth am arian.

**Achos Ariannol**: yn amlinellu'r cyd-destun ariannol ehangach ac yn dangos y bydd argymhellion yr hoff ddewisiadau yn arwain at ganlyniad fforddiadwy y gellir ei ariannu, gyda thystiolaeth o fodel arbedion ac ariannol a gynigir sy'n gadarn.

**Achos Masnachol:** yn manylu ar y camau sydd gan y prosiect ac a ddefnyddir i'r dyfodol er mwyn sicrhau y bydd unrhyw wariant yn gael ei gaffael yn gystadleueol, yn unol â'r rheolau a'r rheoliadau priodol.

**Achos Rheoli**: yn amlinellu'r llywodraethu a'r dull o weithredu'r prosiect a fydd yn sicrhau y bydd argymhellion yr hoff ddewis yn medru cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Bydd yn sicrhau hefyd bod trefniadau priodol a chadarn ar waith ar gyfer rheoli newid, lliniaru risg a rheoli'r gwaith o wireddu buddion i'r dyfodol.

EITHRIEDIG

# 2. Yr Achos Strategol

## 2.1 Alinio â Strategaethau a Mentrau Allweddol

Mae Gweithio'n Ddoethach yn cydfynd â fframwaith nifer o strategaethau busnes a chyfrifoldebau corfforaethol eraill o fewn y sefydliad. Mae rhai ohonynt, er enghraifft ein *Strategaeth Effiethlonrwydd* yn ffurfio rhan o brif sbardunwyr Gweithio'n Ddoethach, a bydd rhai yn defnyddio Gweithio'n Ddoethach i ddarparu achos am newid yn unol ag anghenion gweithredol presennol ac i'r dyfodol.

Mae trefniadau llywodraethol drwy Swyddfa Rheoli Rhaglenni Corfforaethol (CPMO) mewn grym fel rhan o fframwaith o strategaethau, i sicrhau y gweithredir Gweithio'n Ddoethach yn unol ag amcanion cyfreithiol a sefydliadol.

### 2.1.1 Cynllun Gweddnewid Corffraethol a 6 Thema Allweddol

Yn 2012, cymeradwywyd *Cynllun Gweddnewid* ar gyfer Môn gan Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod. Mae'r Cynllun Gweddnewid yn egluro sut mae'r Awdurdod yn bwriadu gwella dros y tair blynedd nesaf. Y weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun yw:

*"erbyn 2016 y byddwn yn Gyngor proffesiynol a reolir yn dda, yn arloesol ac yn allblyg yn ein ffyrdd o weithio, yn ymroddgar wrth ddatblygu pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o safon a werthfawrogir gan ein pobl."*

Golyga hyn y bydd yr Awdurdod, erbyn 2016:

- wedi cynyddu balchder tuag at Ynys Môn, ei Aelodau etholedig, rheolwyr, staff, gwasanaethau a chyfleusterau;
- wedi sicrhau parch o fewn y teulu o lywodraethau lleol yng Nghymru, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol;
- ag aelodau, rheolwyr a staff sy'n gwneud gwahaniaeth ac yn datblygu yn eu galluogrwydd o ganlyniad;
- â dealltwriaeth o berfformiad ei wasanaethau a sut i'w rheoli'n bwrpasol, gan dargedu gwelliannau yn ôl yr angen;
- â meysydd o arloesedd, arfer dda a rhagoriaeth gwasanaethau y bydd sefydliadau eraill yn ceisio meincnodi eu hunain yn eu herbyn;
- yn creu cysylltiadau cynhyrchiol, tryloyw ac ymddiriedus gyda'i bartneriaid;
- yn bodloni ei archwilwyr o safbwynt arweiniad, llywodraethu a sefydliad.

Bydd gweithredu Gweithio'n Ddoethach ar draws ein sefydliad yn gyfraniad allweddol i'r *6 thema allweddo*l, yn neilltuol

> *Thema 2: Arloesol, Uchelgeisiol ac Allblyg* – byddwn yn sefydlu amgylchedd a diwylliant sy'n annog ac yn meithrin syniadau a datrysiadau arloesol a chreadigol,

EITHRIEDIG

gan edrych y tu hwnt i'r sefydliad i geisio datrysiadau uchelgeisiol er budd ein cwsmeriaid, ein pobl a'n cymunedau.

### 2.1.2 Cynllun Corfforaethol

Mabwysiadwyd y Cynllun Corfforaethol 2013-17 yn ffurfiol gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2013 ac mae'n datgan yn glir yr hyn y gobeithia'r Awdurdod ei gyflawni yn ystod y cyfnod o bedair blynedd sydd i'r cynllun. Mae'r Prosiect Gweithio'n Ddoethach wrth wraidd archwiliad llwyr o'r modd y mae'r Awdurdod yn darparu ei wasanaethau ar hyn o bryd a gellir ei gysylltu'n agos â dwy amcan o fewn y Cynllun Corfforaethol 2013-2017:

**Gweddnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**
Mae'r Cynllun Corfforaethol 2013-17 yn datgan, yn y dyfodol bydd *"yr holl gyfathrebu, mewnol ac allanol, yn cael ei alluogi'n electronig. Bydd dulliau wyneb yn wyneb a rhai eraill yn bodoli, ar gyfer y rhai fydd eu hangen. Drwy newid y systemau bydd staff yn cael eu rhyddhau i wneud eu gwaith o fewn ffiniau pendant a defnyddio prosesau sydd yn gadarn ond eto'n hyblyg."*

Er mwyn cyflawni hyn, mae amryw o elfennau sydd angen eu sicrhau ymlaen llaw:

- rhaid i staff fod â'r gallu i gael mynediad at systemau TGCh sydd arnynt eu hangen yn ddiogel o unrhyw leoliad;
- rhaid i gwsmeriaid a phobl gael y modd o gyfathrebu â gwasanaethau'r Cyngor sydd arnynt eu hangen drwy'r rhyngrwyd ar adeg ac yn rhywle sy'n gyfleus iddyn nhw; a
- rhaid cefnogi gwasanaethau wrth fabwysiadu defnydd ehangach o dechnoleg a galluogi darpariaeth fwy effeithiol ac effeithlon o'r gwasanaethau hynny.

Rhagwelir y bydd y meysydd llafur o fewn y Prosiect Gweithio'n Ddoethach yn ategu gwaith yr Awdurdod wrth gwrdd â'r anghenion hyn, gan hefyd:

- alluogi staff i weithio'n hyblyg o amryw o leoliadau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer;
- galluogi staff i symud a gweithio'n ddidrafferth rhwng rolau a gwasanaethau o ganlyniad i waith safoni offer a phrosesau;
- gwella'r gwaith o gyflawni gwasanaethau drwy integreiddio a chydgordio prosesau TGCh
- symleiddio portffolio asedau'r Awdurdod; a
- lleihau costau rhedeg gorbenion y Cyngor

**Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**
Mae'r Cynllun Corfforaethol 2013-17 yn datgan y byddwn *"yn gweithio fel 'Un Cyngor' wrth ddarparu gwasanaethau drwy gefnogi'r ddarpariaeth o weithlu modern a hyblyg sydd â'r gallu i gyflawni nodau'r Cyngor"*.

Un o nodweddion allweddol y Prosiect Gweithio'n Ddoethach yw rhoi seilwaith yn yn ei le sy'n galluogi'r staff i 'weithio o'r lleoliad y mae angen iddynt weithio ohono'. Drwy fabwysiadu'r meddylfryd hwn y gall yr Awdurdod ddechrau 'canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned', gan ddangos hyblygrwydd yn ei wasanaethau a fydd yn cael eu darparu er cyfleustra ac anghenion y cwsmer.

Bydd y cysyniad a gynigir o weithio'n ddoethach yn sicrhau rhagor o drefniadau a fydd yn galluogi staff i weithio'n fwy hyblyg, gyda staff yn cael eu rheoli gan ganlyniadau ac yn llai caeth i'r swyddfa, er mwyn iddynt fedru treulio rhagor o'u hamser mewn cyswllt uniongyrchol â chwsmeriaid.



EITHRIEDIG

### 2.1.3 Strategaeth Effeithlonrwydd

Mae pob sefydliad o'r sector cyhoeddus yn wynebu'r angen i wneud arbedion mawr. Mae gan Ynys Môn gyllideb o £126m ac amcangyfrifwn y bydd angen i ni arbed tua £16 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r prosiect Gweithio'n Ddoethach yn alinio â'r egwyddorion a roddir yn y Strategaeth Effeithlonrwydd, yn benodol:

- i sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio ar draws y cyngor cyfan yn cynnig gwerth da am yr arian a wariwn
    - Lleihau'r nifer o swyddfeydd ac adeiladau sydd gennym

- I leihau costau rheoli, democratiaeth a biwrocratiaeth i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau da.
    - Byddwn yn arbed 10%-20% mewn costau gweinyddol drwy gyflwyno dulliau electronig ar gyfer ein prosesau mewnol ac allanol. Er enghraifft, ffurflenni cais am swydd, archebion ac anfonebau, ffurflenni treuliau a salwch ac ati.
    - Byddwn yn annog y cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor drwy e-bost ac yn caniatáu mynediad at ein gwasanaethau drwy ein gwefan.
    - Nid fydd biwrocratiaeth nad yw'n ychwanegu gwerth i'n gwaith yn parhau a chyflwynir ffyrdd mwy pwrpasol yn hytrach.
    - Byddwn yn adolygu'r nifer o gyfarfodydd ffurfiol a gynhelir gennym a disgwyliwn i swyddogion ddefnyddio cyfrifiaduron yn hytrach na phapur, e-bost yn hytrach na llythyrau a fideo-gynadledda yn hytrach na theithio, gan annog Aelodau etholedig i wneud yr un modd.

### 2.1.4 Cynllun Rheoli Asedau

Mae diben y *Cynllun Rheoli Asedau* yn hanfodol er mwyn medru canolbwyntio'n strategol ar reoli'r portffolio eiddo sydd ynghlwm hefyd â'r amcanion corfforaethol a strategaethau gwariant cyfalaf y Cyngor.

Ei ddiben yw gosod y sail ar gyfer y modd y bydd penderfyniadau y Cyngor ynghylch eiddo'n cael eu gwneud ac i sicrhau bod adeiladau gwaith yn ddiogel, yn addas i'r diben a bod y defnydd gorau o asedau yn cael ei wneud a chostau'n cael eu lleihau er mwyn sicrhau portffolio eiddo sy'n gynaliadwy i'r dyfodol.

Tra bod portffolio'r Cyngor o asedau tir ac adeiladu yn un mawr ac amrywiol ac cael ei gydnabod fel adnodd gwerthfawr, mae hefyd yn faich sydd angen cryn ariannu refeniw a chyfalaf i'w reoli a'i gynnal. Mae'n amlwg i bawb fod asedau sy'n perfformio'n wael ac nad ydynt yn ategu'r ddarpariaeth o wasanaethau, yn amharu ar wasanaethau'r Cyngor i'w bobl.

Rhaid cysylltu'n asedau i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a rhaid cyfrannu at y broses o weddnewid a gwella gwasanaethau. Dyma'r prif sbardun ar gyfer unrhyw ddull strategol ar gyfer rheoli asedau gan fod darparu gwasanaethau wrth wraidd popeth a wnawn. I sicrhau bod gennym sail ased sy'n gynaliadwy ac yn ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol, rhaid i ni herio'r drefn ynghylch sut yr alinir ein asedau ar hyn o bryd yn erbyn darparu gwasanaethau a pha newidiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau y byddant o gymorth i'r gwaith o weddnewid darparu gwasanaethau wrth i ni yrru ymlaen.



ETHRIEDIG

Yn y dyfodol, bydd angen i'r Cyngor fod yn ymatebol ac yn hyblyg yn y modd y darperir gwasanaethau ganddo yn ystod cyfnod anodd o reoli arian a disgwyliadau a gofynion cynyddol uwch gan ein pobl. Bydd angen i ni ddarparu mwy gyda llai ac mae'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol yn rhagdybio sail ased eiddo lawer iawn yn llai ar gyfer bodloni'r gofynion hyn.

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r Prosiect Gweithio'n Ddoethach yn cyfrannu'n allweddol i'r agenda hon gan alluogi rhyddhau nifer o swyddfeydd allanol.

### 2.1.5 Strategaeth TGCh

Mae'r gwaith sy'n cael ei gwblhau drwy'r Prosiect Gweithio'n Ddoethach o gymorth wrth lunio'r Strategaeth TGCh. Trwy ddeall sut y byddwn yn gweithio i'r dyfodol y byddwn yn llwyddo i ddiffinio cyfeiriad ac anghenion TGCh CSYM.

Er mwyn medru cyflawni'n hamcanion corfforaethol cydnabyddir bod nifer o bethau i'w sicrhau ymlaen llaw:

- rhaid i staff gael y gallu i gael mynediad i'r systemau TGCh angenrheidiol o bell, ac yn ddiogel o amryw o leoliadau;
- rhaid galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda gwasanaethau perthnasol y Cyngor drwy'r rhyngrwyd ar adeg ac o fannau sy'n gyfleus iddyn nhw; a
- rhaid cefnogi gwasanaethau wrth fabwysiadu'r defnydd ehangach o dechnoleg er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau'n rhai mwy effeithlon ac effeithiol.

Rhagwelir y bydd y meysydd llafur o fewn y Prosiect Gweithio'n Ddoethach o gymorth i'r Awdurdod wrth gwrdd â'r gofynion ymlaen llaw hyn, tra hefyd yn:

- galluogi staff i weithio'n hyblyg o amryw o leoliadau a defnyddio gwahanol offer;
- galluogi staff i symud a gweithio'n hawdd rhwng rolau a gwasanaethau o ganlyniad i safoni offer a phrosesau;
- gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau drwy integreiddio ac chydgordio prosesau TGCh; a
- lleihau costau rhedeg gorbenion y Cyngor.

### 2.1.6 Parhad Busnes a Chynllunio at Argyfwng

Mae parhad busnes yn hanfodol wrth sicrhau nad yw digwyddiadau annisgwyl yn rhwystro gwaith arferol. Drwy sicrhau y gall staff gael mynediad at weinyddion mewnol a pharhau â'u gwaith beunyddiol o bell, gall yr Awdurdod gryfhau ei hun o safbwynt parhad busnes.

Bydd y gallu i weithio o bell o nifer o swyddfeydd ac o adref o gymorth i barhad busnes os digwydd unrhyw fygythiadau pandemig, tywydd, trafnidiaeth neu derfysgol. Mae gan rai aelodau o staff fynediad o bell at weinyddion mewnol, ond serch hynny, i sicrhau bod y gallu gennym i gwrdd â heriau annisgwyl i'r dyfodol, bydd angen i ni wneud yn siŵr bod yr adnodd hon ar gael yn ehangach.

### 2.1.7 Strategaeth Effeithlonrywdd Ynni

Bydd y Strategaeth ddatblygu'n egluro bwriadau'r Awdurdod wrth ymdrechu i fodloni targedau'r Sector Cyhoeddus yn Neddf Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru 2008

- i leihau allyriadau hyd at uchafswm o 0.83 o dunnelli metrig o garbon diocsid cyfatebol (MtCO2e), yn erbyn gwaelodlin o 1.13 MtCO2e, a

EITHRIEDIG

- 3% o ostyngiad mewn allyriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn

Mae CSYM wedi gosod targed lleol o 5% o ostyngiad yn y defnydd o ynni a dŵr.

Fel rhan o'r gwaith dichonoldeb hwn, comisynodd y Prosiect Gweithio'n Ddoethach ymgynghorwyr mecanyddol a thrydanol i gynnal archwiliad llawn o brif adeilad swyddfeydd y cyngor i adnabod sut y gallwn wneud gwell defnydd o'n cyfleustodau gydag unrhyw waith ail-ddylunio a allai arwain at arbedion a chyfrannu at y targedau lleol a chenedlaethol uchod.

## 2.2 Yr Achos am Newid

### 2.2.1 Gyrwyr *(Trefniadau Presennol)*

Mae 5 gyrrwr allweddol ar gyfer gweithredu Gweithio'n Ddoethach:

- Cau adeiladau;
- Cyfyngu ar leoliadau
- Diffyg buddsoddi mewn seilwaith TGCh sy'n arwain at ddefnyddio systemau sy'n rhy hen
- Bodloni targedau effeithlonrwydd;
- Moderneiddio arferion gweithio

*Cau Adeiladau*

Rhaid i'r Awdurdod symleiddio ei bortffolio o asedau er mwyn delio â chostau cynnal a chadw parhaus ac addasrwydd adeiladau fel swyddfeydd. Amlygwyd nifer o adeiladau fel rhai i'w cau yn y dyfodol agos, sydd angen cynllun clir ynghlych sut i adleoli staff o bob un, sef:

- *Parc Mount;*
- *Y Caban;*
- *Tŷ Penyrorsedd*
- *Canolfan Hyfforddiant Môn;*
- *Hen Ysgol y Graig a'r adeiladau cysylltiedig*
  - *Genesis*
  - *Cynnal*

Ar hyn o bryd mae'r swyddfeydd allanol hyn yn darparu ar gyfer tua 200 o staff a fydd angen eu hadleoli i brif swyddfeydd y Cyngor Sir yn Llangefni.

Yn ogystal â'r galw hwn, mae angen adleoli'r ystafelloedd hyfforddi yn *Nhŷ William Jones* ac i ystyried a oes opsiynau o fewn *Neuadd y Sir* yn hyn o beth.

Dengys tystiolaeth bod yr Awdurdod yn gwario tua £171k bob blwyddyn mewn costau rhedeg (*ar wahân i Neuadd y Sir a fydd yn parhau i gael ei defnyddio*) ac mae gan yr eiddo sy'n bosib eu gwaredu o fewn y prosiect hwn (*ac eithrio Hen Ysgol y Graig, Genesis ac adeiladau Cynnal oherwydd bydd unrhyw incwm yn gorfod cael ei roi yng nghyllidebau Ysgol y Bont newydd*) bris marchnad oddeutu [redacted]



EITHRIEDIG

**ATODIAD 1**

*Tabl.1 Adeiladau i'w gadael yn sgil y Prosiect Gweithio'n Ddoethach*

| Adeilad | Anawsterau Presennol | Gwasanaeth(au) a'r nifer o staff i'w Hadleoli. | Costau Rhedeg Blynyddol[1] | Amcangyfrif o'r Pris ar y Farchnad | Cyfyngiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Parc Mount | Nid yw'n addas fel swyddfeydd modern ac mae dyluniad yr adeilad yn cyfyngu ar y cyfle i wneud addasiadau sylweddol. Yn gyffredinol nid yw'r adeilad yn cydymffurfio â'r DDA[2] a bu diffyg buddsoddiad mewn cynnal a chadw dros gyfnod hir o amser. | 70 o staff o'r Gwasanaeth Addysg | 50,728 | [redacted] | |
| Y Caban (Cynllunio/ Rheoli Gwastraff) | Cafodd ei adeiladu i'w ddefnyddio hyd at 15 mlynedd yn unig. Bellach mae'r Caban yno ers 16 mlynedd a chafodd ei ymestyn nifer o flynyddoedd yn ôl yn sgil anghenion bryd hynny. Mae costau rhedeg a chynnal sy'n gysylltiedig â'r adeilad hwn yn dod yn feichus i'r Cyngor. Nid yw llawr uchaf y caban yn cydymffurfio â'r DDA. | Tua 70 o staff o'r gwasanaethau canlynol: Cynllunio, Rheoli Gwastraff, Tîm Ystadau Eiddo, Tîm Morol a'r Undeb Llafur. | 31,063 | [redacted] | |
| Tŷ Penyrorsedd | Mae dyluniad yr adeilad yn cyfyngu ar y cyfle i wneud addasiadau sylweddol er mwyn medru defnyddio'r adeilad yn effeithlon fel swyddfeydd. Mae'r lleoliad yn anghysbell ymhell o'r brif swyddfa. Nid yw rhannau o'r adeilad yn cydymffurfio â'r DDA. Ychydig iawn o barcio sydd ar gael i staff. | Y defnyddiwr mwyaf diweddar o Dŷ Penyrorsedd fu Uned Ddarparu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Tybir fod yr adeilasd yn addas ar gyfer tua 20 o staff. | 13,554 | [redacted] | |
| Canolfan Hyffordiant Môn | Oed a chyflwr yr adeilad, ynghyd ag ystyriaethau yn ymwneud â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos, | Tîm o rhyw 15 o staff TGCh y Cyngor. | 24,838 | [redacted] | Mae'r rheolau'r grant yn datgan ni chaniateir elwa'n ariannol wrth gael gwared |

[1] Cynnwys ysiwriant a treth busnes lle'n briodol
[2] Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | yn golygu na fyddai defnydd hirdymor gan y Cyngor Sir yn cael ei argymell a'r nod yw adleoli staff cyn gynted â phosib er mwyn i'r safle gael ei waredu a'i ailddatblygu. | | | | â'r safle – incwm net isel. |
| Hen Ysgol y Graig | Amlygwyd y safle fel un i'w waredu ar gyfer datblygiad masnachol ynghyd ag Ysgol y Bont ac adeiladau Cynnal sydd gerllaw. Dechreuwyd ar y gwaith marchnata ar gyfer cwmnïau sydd â diddordeb yn gynnar yn 2013, gyda'r nod o wagio'r eiddo yn llwyr erbyn dechrau 2014 er mwyn medru cael gwared â'r safle. Bydd staff sy'n gweithio yn yr adeilad ar hyn o bryd angen eu hadleoli yn ystod y cyfnod hwn hefyd. | Yn bennaf ar gyfer cadw cofnodion swyddfeydd modern, er mae nifer o dimau bach o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio yn yr adeilad; cyfanswm o rhyw 20 o staff. | 38,854 | [redacted] | Mae unrhyw incwm cyfalaf ynghlwm ag Ysgol Y Bont |
| ▪ Cynnal | | Tîm o 9 aelod o staff Cefnogi Teuluoedd o'r Adran Addysg | 6,649 | [redacted] | |
| ▪ Genesis | | Tîm o 8 aelod o staff Addysg Blynyddoedd Cynnar | Amherthnasol | [redacted] | |
| Tŷ William Jones | Nid yw CSYM yn berchen ar yr adeilad ac mae'n talu [redacted] bob blwyddyn mewn rhent ar hyn o bryd. Nid yw'r adeilad yn cydymffurfio â'r DDA gan nad oes mynediad i ddefnyddwyr anabl i'r Ystafelloedd Hyfforddi ar y llawr cyntaf ac nid oes cyfleusterau addas yn bodoli. | Dim staff, adleoli Ystafell Hyfforddi yn unig. | [redacted] *(costau les a chostau rhedeg)* | Amher. | Amherthnasol |
| Neuadd y Sir | Adeilad rhestredig sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio gan Gofrestryddion ar un ochr a Chyngor y Dref ar yr ochr arall, ac mae'r Heddlu a gwasanaeth y llysoedd wedi gadael eu rhan nhw o'r adeilad yn ddiweddar ar y Llawr | Bydd y Cofrestryddion sydd yno yn aros. Staff trafnidiaeth o'r Graig i'w symud i'r rhan a oedd yn hen Orsaf yr Heddlu ac i aros yno. Mae gan Adnoddau Dynol 4 | 17,000 | Amher. | |

EITHRIEDIG

[3] Pris Ased

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Isaf ac felly hefyd y Gwasanaeth Archifau. Mae'r rhan a adawyd gan yr Heddlu ar y lefel islawr gydag amryw o ystafelloedd bach nad ydynt yn addas fel swyddfeydd modern. Defnyddir y rhan hon gan Gyngor y Dref ac mae hen Siambr y Cyngor wedi dyddio'n sylweddol ac nid yw'n cydymffurfio â'r DDA. Mae'r llawr cyntaf mewn cyflwr gwael ac angen gwaith i atgyfnerthu'r llawr yn sgil blynyddoedd o orlwytho. Nid yw'n cydymffurfio â'r DDA ychwaith ac mae'n hen iawn a byddai angen gwario'n sylweddol arno i greu cyfleuster modern safonol. | o staff Gwerthuso Swyddi sydd yno sy'n debygol o fod wedi gorffen y broses honno ac felly ni fyddent angen eu hadleoli. | | | |

EITHRIEDIG

*Swyddfeydd Cyfyngedig*

Dengys arolwg a gwblhwyd yn 2012 bod tua 600 o weithfannau'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn adeilad y prif swyddfeydd yn Llangefni.

Gwyddom o 2.2.1 o'r achos hwn fod angen adleoli 200 o staff ychwanegol o eiddo a ddefnyddir ar hyn o bryd fel swyddfeydd ond heb fod yn 'addas i'r diben' o ran gosodiad a dyluniad, a'u cyflwr yn gyffredinol.

Rhaid ystyried opsiynau o ran sut i wneud y defnydd gorau o'r asedau sydd gan yr Awdurdod, gan sicrhau effaith gadarnhaol o safbwynt argaeledd a hygyrchedd y gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid. Bydd hyn yn golygu edrych ar ein dull presennol o weithio a gweld a all rhai o egwyddorion Gweithio'n Ddoethach gynnig rhagor o hyblygrwydd i'n hamgylchedd a datblygu ffyrdd o weithio'n agosach â'n cwsmeriaid e.e. gweithio o leoliadau eraill megis ysgolion, cyfleusterau gofal, adref.

*Tanfuddsoddi mewn Seilwaith TGCh gan arwain at Systemau sydd wedi Dyddio*

Mae gan seilwaith TG y Cyngor dechnoleg sy'n galluogi mynediad o bell, er gwyddom o brofiad y bydd angen cryfhau'r rhwydweithiau a'r seilwaith er mwyn sicrhau eu bod yn ddibynadwy ac yn ddigon cadarn i fodloni'r gofynion newydd.

Mewn rhai achosion nid yw'r systemau; wedi eu sefydlu'n llwyr neu'n llwyddiannus, y defnydd ohonynt yn isel, neu ddim yn ddigon cadarn i'n cefnogi ni wrth i ni yrru ymlaen o fewn amgylchedd mwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer (e.e. systemau allweddol fel *([redacted]) ar gyfer Adnoddau Dynol, ([redacted]) ar gyfer Cyllid, a Chofnodion Rheoli Fflecsi.* Adroddwyd ar rai o'r

anawsterau gyda'n systemau gan ein Harchwilwyr Mewnol a'r ICO, gan ddangos ein bod yn wan mewn rhai meysydd ac mewn perygl o gael cosbau ariannol sylweddol a chael enw drwg.

Cydnabyddir y bydd angen i'r gwaith o reoli cofnodion ddod yn nodwedd allweddol os yw trefniadau Gweithio'n Ddoethach am weithio'n effeithiol.

Os ydym am sicrhau cydymffurfiaeth data a datblygu sefydliad cynaliadwy modern, bydd angen i ni fuddsoddi mewn TGCh. Mae cyfle amlwg drwy ddatblygu dulliau o Weithio'n Ddoethach i ddeall yr hyn yr ydym ei angen o TGCh ar gyfer y dyfodol, ac i sicrhau bod ein systemau'n rhai cadarn, yn bodloni'n cyfrifoldebau a'n hymrwymiadau fel sefydliad, er budd ein staff a'n cwsmeriaid.

Er mwyn cyflawni'r gwelliannau hyn mewn TGCh, mae nifer o bethau sydd angen eu cyflawni ymlaen llaw:

- mae'n rhaid i'r staff gael y gallu i gael mynediad at y systemau TGCh sydd eu hangen arnynt o unrhyw leoliad;
- rhaid galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i fedru cyfathrebu â gwasanaethau'r Cyngor sydd eu hangen arnynt drwy'r rhyngrwyd ar amser ac adeg sy'n gyfleus iddyn nhw; a
- rhaid cefnogi gwasanaethau wrth fabwysiadu defnydd ehangach o dechnoleg er mwyn galluogi darpariaeth fwy effeithiol ac effeithlon o'u gwasanaethau.

Rhagwelir y bydd y ffrydiau gwaith o fewn y Prosiect Gweithio'n Ddoethach yn cefnogi'r Awdurdod wrth fodloni'r elfennau ymlaen llaw hyn, tra hefyd yn:

- galluogi staff i weithio'n hyblyg o nifer o leoliadau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer;
- galluogi staff i symud a gweithio'n rhwydd rhwng rolau a gwasanaethau o ganlyniad i offer a phrosesau sydd wedi'u safoni;
- gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau drwy integreiddio a chydgordio prosesau TGCh; a
- lleihau costau rhedeg gorbenion y Cyngor

*Bodloni Targedau Effeithlonrwydd*

Rhaid i'r Awdurdod leihau ei wariant yn sylweddol, a gyda bwlch ariannu oddeutu £16 miliwn i'w lenwi dros y 3 blynedd nesaf, bydd angen i'r Cyngor wynebu newidiadau er mwyn delio â heriau'r dyfodol a pharhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf o hyn ymlaen.

Mae'r gost gynyddol o gynnal a chadw adeiladau sy'n heneiddio a chostau tanwydd yn golygu bod angen ystyried a ydym yn gwneud y defnydd gorau o'n hasedau h.y. Prif Adeilad Swyddfeydd y Cyngor, Ysgolion, Llyfrgelloedd ac ati. Mae cost swyddfeydd yn amrywio ledled y DU, serch hynny daeth yn amlwg bod 45% i 50% o swyddfeydd yn wag ar unrhyw adeg[4] a bod gweithfan neilltuol i bob cyflogai bellach yn rhywbeth moethus a drud.

Awgryma ymchwil i'r gweithredu dulliau o Weithio'n Ddoethach mewn awdurdodau eraill bod cyfleoedd ar gael i wireddu buddion ariannol drwy waredu asedau a lleihau'r nifer o staff drwy weithio mewn ffyrdd gwell, a'r her yn hyn o beth yw adnabod a rhoi sicrwydd o'r arbedion refeniw a chyfalaf posib i CSYM yn gyfnewid am fuddsoddiad trosiannol. Bydd yr achos hwn yn archwilio'r hyfywedd hefyd o ryddhau'r arbedion posib hyn a thros pa gyfnod o amser.

---

[4] *Flexibility.co.uk*

*Moderneiddio Arferion Gweithio*
Er mwyn ymdrin â'r gyrwyr uchod, rhaid ystyried pumed elfen ynghylch moderneiddio arferion gweithio. Mae'r elfen hon angen cryn dipyn o newid yn y diwylliant sefydliadol a chymerir amser i weithredu ac i sefydlu hynny.

Ar hyn o bryd (ar y cyfan) mae polisïau sefydliadol, termau ac amodau angen cyflogeion i fynychu lleoliad neilltuol am nifer penodol o oriau swyddfa, o fewn cyfyngiadau y polisi fflecsi presennol. Mae adolygiad cyflogeion a chynllun datblygu ar waith gyda rheolwyr yn gosod amcanion, mesurau a thargedau perfformio.

Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn agos iawn at y gwasanaethau yn hytrach na bod gyda'i gilydd fel un tîm corfforaethol. Mae hyn yn anarferol mewn awdurdodau lleol wrth i ni ymdrechu i greu diwylliant o undod – pawb yn gweithio tuag at yr un nod. O'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad staff ar y dyluniadau cysyniadol o Weithio'n Ddoethach, gwelwyd bod 73% o'r staff o'r farn y dylai aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gael eu lleoli gyda'i gilydd.

Mae Penaethiaid Gwasanaeth wedi eu lleoli o fewn y gwasanaeth a reolir ganddynt oherwydd, fel y cyfryw, lleolir timau gyda'i gilydd, gyda rheolwyr mewn swyddfeydd personol yn agos at y timau hynny. Mae gan gyflogeion ddesgiau sefydlog nad ydynt yn cael eu defnyddio gan unrhyw aelod arall o'r tîm a phrin iawn yw'r dystiolaeth o bobl yn rhannu desgiau, hyd yn oed pan fydd gan gyflogeion fynediad at dechnoleg o bell ac yn gweithio i ffwrdd o'r brif swyddfa.

Mae gwelliannau mewn technoleg wedi galluogi i gyflogeion sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd i weithio'n wahanol, a cheir tystiolaeth bod tua 113 o gyflogeion ag offer i fedru cael mynediad at systemau swyddfa o bell, er mai ychydig iawn ohonynt sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd ac adborth o'r cyfnod ymgynghori bod yna ddiffyg ffydd yn y systemau TGCh a'r dull o reoli ar hyn o bryd i gefnogi'r dull hyblyg hwn o weithio.

Cyfathrebir o fewn y sefydliad drwy gyfarfodydd, ffôn ac e-bost. Mae anawsterau gyda chyfathrebu pan fydd pobl yn gweithio o bell gan nad ydynt yn medru defnyddio rhif ffôn eu desg o bell ac ar hyn o bryd nid yw'r dechnoleg ar gael iddynt fedru ymuno â chyfarfodydd o bell.

Er mwyn galluogi manteision Gweithio'n Ddoethach gael eu gwireddu bydd angen newid diwylliant bresennol y swyddfeydd, polisïau, trefniadau rheoli a chyfathrebu a bydd angen

- buddsoddi mewn rheoli newid, cefnogi cyflogeion i fabwysiadu dulliau modern o weithio er mwyn darparu gwasanaethau economaidd effeithlon i ddinasyddion a chynnal cydbwysedd da rhwng bywyd gwaith a bywyd personol;
- darparu polisïau a gweithdrefnau gweithredol i gefnogi Gweithio'n Ddoethach ac i sicrhau tegwch a chydraddoldeb i holl gyflogeion;
- cefnogaeth ar gyfer gweithio o bell a thechengau rheoli;
- darparu'r offer a'r cyfarpar angenrheidiol i gwblhau dyletswyddau'n effeithlon ac yn effeithiol, wrth weithio o bell neu'n symudol; a
- sefydlu sianelau a dulliau cyfathrebu effeithiol er mwyn i reolwyr, cyflogeion a dinasyddion gael mynediad atynt yn ôl yr angen.

### 2.2.2 Sgôp

Mae'r adeiladau canlynol o fewn y *sgôp*:

- Prif Adeilad y Cyngor



EITHRIEDIG

- Parc Mount
- Y Caban
- Hyfforddiant Môn
- Pen Yr Orsedd
- Hen Ysgol Y Graig
- Cynnal
- Genesis

Mae pob adeilad arall y tu hwnt i *sgôp* y prosiect hwn.

Wedi hyn, ystyrir unrhyw waredfiad o eiddo sy'n berchen i'r Awdurdod gan y *Grŵp Asedau Tir ac Adeiladol Corfforaethol (AARP yn ffurfiol)*, a neilltuir a dynodir arbedion/incwm i'r prosiect hwn.

Bydd y prosiect yn ystyried amodau a thelerau gweithio holl gyflogeion yr Awdurdod, ac eithrio **(nid ydynt yn y sgôp):**

- Holl staff mewn ysgolion
- Staff DLO
- Staff gofal cartref
- Staff Hamdden a Diwylliant (nad ydynt yn gweithio mewn swyddfa)
- Staff morol wedi eu lleoli ar yr arfordir
- Staff yn Pulveriser, canolfannau gwastraff, ac ati
- Staff eraill mewn safleoedd eraill ar wahân i Langefni nad ydynt yn gweithio mewn swyddfa e.e. atyniadau treftadaeth neu gefn gwlad.

### 2.2.3 Manteision

*Defnyddwyr Gwasanaeth*

- Gallant gael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, yn rhywle sy'n gyfleus iddyn nhw
- Gallant gael gwasanaethau'n gynt
- Gallant gael mynediad at wasanaethau sydd eu hangen ganddynt o un lleoliad

*Staff*

- Gallant weithio'r oriau ac o leoliadau sy'n fwy cyfleus â'u bywyd personol
- Gallant deimlo'n falch eu bod yn gweithio i sefydliad modern ac sy'n dangos cynnydd
- Gallant deimlo bod eu rheolwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn ymddiried ynddynt

*Aelodau Etholedig*

- Gallant gysylltu â swyddogion yn ôl yr angen a gweithio o ystod o leoliadau
- Maent ar gael yn fwy aml i'w hetholwyr

*Y Sefydliad*

- Yn sefydliad mwy miniog, yn fwy ymatebol ac yn fwy effeithlon
- Yn medru adnabod cyfraniadau staff at amcanion y sefydliad yn well
- Yn denu mwy o bobl i weithio i Gyngor Sir Ynys Môn ac aros yno
- Gwella enw da o fewn llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru



EITHRIEDIG

### 2.2.4 Risgiau

Mae rheoli risg yn rhan o'r broses o reoli'r prosiect Gweithio'n Ddoethach a chrynhoir rhestr o'r risgiau a'u sgoriau priodol isod. Mae camau gweithredu wedi eu hadnabod er mwyn lliniaru'r risgiau a datblygwyd cofrestr risg i'w monitro ac i liniaru drwy gydol cyfnod y prosiect hwn.

*Mae'r gofrestr risg lawn a'r camau gweithredu lliniar i'w gweld yn Atodiad 1.*

| Disgrifiad o'r Risg | Goblygiad | RAG Priodol |
|---|---|---|
| **R1** – Staff yn gyndyn o newid | ▪ Diffyg ymrwymiad a staff yn gyndyn o ymgysylltu a chyfrannu at y newid<br>▪ Nid yw staff yn mabwysiadu'r newidiadau i mewn i'w harferion gweithio yn unol â'r diwylliant newydd<br>▪ Effeithio ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ **Analluіwireddu manteision y prosiect yn llawn** | R |
| **R2** – Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn gyndyn o newid | ▪ Diffyg ymrwymiad a Phenaethiaid Gwasanaeth yn gyndyn o ymgysylltu a chyfrannu at y newid<br>▪ Diffyg cefnogaeth gan Reolwyr i newid y dull o reoli, ac ar gyfer staff sy'n newid eu harferion gweithio yn unol â'r diwylliant newydd<br>▪ Effaith ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ **Analluіwireddu manteision y prosiect yn llawn** | R |
| **R3** – Blaenoriaethau corfforaethol yn gwrthdaro gyda chefnogaeth wleidyddol isel o ganlyniad | ▪ Dim cefnogaeth ar gyfer yr opsiwn dewisol<br>▪ Nid yw'r prosiect yn llwyddo i gyrraedd y pwynt gweithredu<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ **Amcanion y prosiect heb eu cwblhau**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib**<br>▪ **Analluіwireddu manteision y prosiect** | A |
| **R4** – Nid yw'r Achos Busnes Llawn yn cael ei gyflawni mewn da bryd | ▪ Nid yw'r prosiect yn llwyddo i gyrraedd y pwynt gweithredu<br>▪ Effeithio ar allu'r prosiect hwn i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Hyder corfforaethol mewn capasiti i wireddu'r prosiect wedi ei golli<br>▪ **Y dull corfforaethol o ddyrannu a rheoli asedau wedi ei gyfyngu**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib yn y flwyddyn ariannol nesaf** | A |
| **R5** – Mae arafwch y prosiect yn atal unrhyw arloesedd a gwelliant parhaus ar lefel Gwasanaeth | ▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ Cyfleoedd i gynyddu gweddnewidiad ar lefel gwasanaeth wedi ei golli<br>▪ Diffyg parodrwydd ac ymrwymiad gan staff a rheolwyr i ymgysylltu â'r newid a chyfrannu ato<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff | G |
| **R6** – Mae arloesedd a gwelliant parhaus ar lefel Gwasanaeth yn gwrthdaro â chyfeiriad/nodau strategol y prosiect | ▪ Mae'r Awdurdod yn canfod ei hun mewn sefyllfa o ddiffyg buddsoddiad yn dilyn gweithredu newidiadau ar hap ar lefel gwasanaeth<br>▪ Yn effeithio ar allu'r prosiect hwn i gyflawni ar mewn da bryd oherwydd yr angen i adfer materion o ddiffyg buddsoddiad | G |
| **R7** – Mae'r prosiectau cyd-ddibynnol yn mynd y tu hwnt i'w hamserlenni mwn meysydd sy'n angenrheidiol er mwyn gwireddu'r prosiect hwn | ▪ Yn effeithio ar allu'r prosiect hwn i gyflawni'r Achos Busnes Llawn mewn da bryd<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ **Y dull corfforaethol o ddyrannu a rheoli asedau wedi ei gyfyngu**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib yn y flwyddyn ariannol nesaf** | A |
| **R8** – Mae diffyg cynllunio ac ymgynghori effeithiol mewn perthynas â newid amodau gwaith neu ddiswyddiadau/adleoli (o ganlyniad i newid mewn arferion gweithio) | ▪ Diffyg parodrwydd ac ymrwymiad gan staff a rheolwyr i ymgysylltu â'r newid a chyfrannu ato<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Pwysau ychwanegol ar gyllidebau oherwydd costau trosiannol ynghlwm â diswyddo/adleoli<br>▪ Arbenigedd a phrofiad wedi ei golli o'r gweithlu yn sgil ofn yr anhysbys<br>▪ Materion o ddiogelwch personol lle ni ystyriwyd Iechyd a Diogelwch yn gywir | A |

EITHRIO

| | | |
|---|---|---|
| **R9** – Mae'r diffyg capasiti, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cefnogol, yn effeithio ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd | ▪ Nid yw'r prosiect yn llwyddo i gyrraedd y pwynt gweithredu<br>▪ Yn effeithio ar allu'r prosiect hwn i gyflawni'r Achos Busnes Llawn mewn da bryd<br>▪ **Y dull corfforaethol o ddyrannu a rheoli asedau wedi ei gyfyngu**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib yn y flwyddyn ariannol nesaf** | **A** |
| **R10** – Nid oes digon o adnoddau ar gael i gefnogi'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â'r gweddnewidiad hwn | ▪ Nid yw'r prosiect yn llwyddo i gyrraedd y pwynt gweithredu<br>▪ Effaith ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Hyder corfforaethol mewn capasiti i wireddu'r prosiect wedi ei golli<br>▪ Ni ellir cwrdd â materion o effeithlonrwydd yn llawn<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ **Amcanion y prosiect heb eu cwblhau**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib Anallu i wireddu manteision y prosiect yn llawn** | **R** |
| **R11** – Mae gormod o flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd o fewn yr Awdurdod | ▪ Adnoddau annigonol i gefnogi gweithredu'r opsiwn dewisol<br>▪ Effeithio ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ **Y dull corfforaethol o ddyrannu a rheoli asedau wedi ei gyfyngu**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib yn y flwyddyn ariannol nesaf** | **A** |
| **R12** – Mae'n effeithio ar ansawdd a darpariaeth Gwasanaeth yn ystod ac ar ôl gweithredu'r opsiwn dewisol | ▪ Argraff negyddol am yr Awdurdod gan y cyhoedd – niwed i enw da<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu | **A** |
| **R13** – Nid yw'r prosiect yn ymgysylltu'n llwyr â'i randdeiliaid allweddol | ▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Diffyg parodrwydd ac ymrwymiad gan staff a rheolwyr i ymgysylltu â'r newid a chyfrannu ato<br>▪ Diffyg cefnogaeth gan Reolwyr i newid y dull o reoli, ac ar gyfer staff sy'n newid eu harferion gweithio yn unol â'r diwylliant newydd | **A** |

Wrth symud i'r cyfnod o weithredu, cydnabyddir bydd tri risg uchel yn dod i'r amlwg mewn perthynas â:

- *TGCh* - Nid yw'r datblygiad sy'n ofynnol mewn TGCh yn cael ei wireddu i'r graddau sy'n ofynnol i fod yn sail ar y gwaith sylweddol a thrawsnewid diwylliannol hyn
- *Cyllid* - Nid yw'r arbedion yn cael eu rhyddhau ar amser neu at y swm a ddisgwylir
- *Morâl Staff* - Y risg nad ydym yn ymgysylltu ac ymgynghori'n effeithiol â staff gan arwain at ymwrthedd i newid

### 2.2.5 Prosiectau Cyd-ddibynnol

Mae'r prosiectau canlynol yn amlwg yn cael eu hadnabod fel rhai sy'n gyd-ddibynnol ar y Prosiect Gweithio'n Ddoethach, ac o ganlyniad, mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng y Rheolwyr Prosiect i sicrhau aliniad â chyflawni gweithgareddau:

- *Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer* – yn cyfrannu at y nod o sefydlu ffocws rhagorol ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned.
- *Rheoli Gwybodaeth* – Cryfhau Rheoli Gwybodaeth i sicrhau bod y sefydliad cyfan yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ac yn cydymffurfio â hi.
- *Northgate (Oedi ac Adolygu)* – I weithredu system gyflogres ac Adnoddau Dynol ddwyieithog integredig ac sy'n gweithio'n iawn.

### 2.2.6 Amcanion Buddsoddi

Mae 5 amcan buddsoddi wedi eu hadnabod ar gyfer y Prosiect Gweithio'n Ddoethach i fesur llwyddiant y prosiect hwn yn eu herbyn.

EITHRIEDIG

**ATODIAD 1**

*Amcan Buddsoddi 1: Optimeiddio mynediad at wasanaeth*

Mae angen i'r Awdurdod ganolbwyntio mwy ar y 'cwsmer, y dinesydd a'r gymuned', gan ddangos hyblygrwydd y gwasanaethau a ddarperir ganddo yn ôl angen a chyfleustra'r cwsmer.

Dylid rhoi'r dewis i gwsmeriaid fedru un ai gael mynediad at wasanaethau yn bersonol neu drwy fodd hunan-wasanaethu, gan dderbyn y gwasanaeth sydd eu hangen arnynt yn gyflymach ac mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n hwylus iddyn nhw.

*Amcan Buddsoddi 2: Moderneiddio, dod yn gynaliadwy ac yn barod i newid*

Mae datblygiadau mewn technoleg dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn chwyldroadol yn y modd y mae'r cyhoedd yn cael mynediad at ystod o wasanaethau ac yn cyfathrebu â'i gilydd. Mae sefydliadau wedi cydio yn y gwelliannau hyn mewn technoleg a'r defnydd eang o dechnoleg symudol i gynnig gwasanaeth 24/7 i'r cwsmer; a alluogwyd drwy systemau'r rhyngrwyd a'r ffôn. Mae natur Awdurdodau Lleol yn golygu bod llawer o'r gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu wyneb yn wyneb, ond gellir gwella ar y ddarpariaeth hon o wasanaeth drwy ddefnyddio technoleg er mwyn cynnig gwybodaeth amser real a gwasanaethau rhyngweithiol.

Mae Adroddiad y Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Ionawr 2014) yn argymell creu 12 o awdurdodau unedol yng Nghymru a fyddai'n arwain at uno Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd. Rhaid i'r Awdurdod sicrhau ei fod yn barod fel sefydliad am unrhyw newid a all ddigwydd a bod y staff yn barod am y newid; ac yn bwysicach fyth yr ymdrechir i gynllunio ar gyfer y newid ac ymgysylltu ag o yn hytrach nag ymateb iddo.

*Amcan Buddsoddi 3: Symleiddio ein portffolio asedau*

Yr hyn a sbardunodd creu'r prosiect yn wreiddiol oedd yr angen i'r Awdurdod i symleiddio ei bortffolio o asedau am amryw o resymau, yn cynnwys costau cynnal a chadw parhaus ac addasrwydd adeiladau fel swyddfeydd. Mae costau cynyddol cynnal a chadw adeiladau sy'n heneiddio ynghyd â chostau tanwydd wedi golygu bod yn rhaid ystyried a ydym yn parhau i wneud y defnydd gorau o'n hasedau h.y. Prif Adeilad Swyddfeydd y Cyngor, Ysgolion, Llyfrgelloedd ac ati.

Bydd gostyngiadau yn y gost o deithio a darparu swyddfeydd yn llwyddo i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Mae costau cynyddol mewn sicrhau lle a'r angen i weithredu'n effeithlon wedi arwain at yr angen i symleiddio'r defnydd o adnoddau drud a meddwl eilwaith ynglŷn â'r modd y darperir adnoddau swyddfa. Yn genedlaethol cydnabyddir bod hyd at 50% o swyddfeydd yn wag ar unrhyw adeg benodol a bod gweithfan ddynodedig ar gyfer pob cyflogai bellach yn foethusrwydd drud.

Rhaid i'r Awdurdod symleiddio ei bortffolio o asedau drwy wagio a gwerthu/dymchwel ei swyddfeydd allanol yn Llangefni h.y. Parc Mount, y Caban, Tŷ Penyrorsedd, Ysgol y Graig, Hyfforddiant Môn, adeilad Cynnal ac adeilad Genesis.

*Amcan Buddsoddi 4: Cyflawni Arbedion Effeithlonrwydd*

Gan fod awdurdodau lleol yn wynebu toriadau mawr i'w cyllidebau hyd y gellir rhagweld mae'r Pwyllgor Gwaith yn dymuno sicrhau y gwneir arbedion, ble bynnag y gellir gwneud hynny, drwy adnabod meysydd o effeithlonrwydd a chael gwared ag unrhyw beth gwastraffus. Rhaid i'r Awdurdod leihau ei wariant yn sylweddol, a gyda chap ariannu oddeutu £16 miliwn angen ei fodloni

EITHRIEDIG

dros y 3 blynedd nesaf, rhaid i'r Cyngor wynebu newid er mwyn wynebu heriau'r dyfodol a pharhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf yn y dyfodol.

Rhaid cydnabod cymhlethdod y Prosiect Gweithio'n Ddoethach o'r cychwyn cyntaf a dod i'r ddealltwriaeth y bydd unrhyw arbedion a wneir o'r prosiect yn cael eu gwireddu dros gyfnod byr i ganolig ac efallai'r hirdymor.

Dylid cydnabod hefyd, oherwydd natur y prosiect dylid disgwyl buddsoddiad sylweddol yn y tymor byr er mwyn gwireddu'r elfennau o effeithlonrwydd hirdymor.

*Amcan Buddsoddi 5: Gwella ein Henw Da a Datblygu ein Diwylliant*

Mae'r elfen hon angen newid sylweddol yn niwylliant y sefydliad gan gymryd amser i'w weithredu a'i sefydlu'n llwyr. Mae rhoi rheolaeth i gyflogeion ynghylch sut, pa bryd neu ymhle y gwneir unrhyw waith angen agwedd agored a hyblyg gan reolwyr ar bob lefel.

Mae llawer iawn o dystiolaeth o fanteision busnes y dulliau newydd o weithio mewn cyfnodau economaidd distaw a chythryblus. Gall trefniadau gweithio hyblyg gwtogi costau, hybu cynhyrchiant, ysgogi pobl ac annog rhagor o bosibiliadau. Mae nifer o gwmnïau wedi defnyddio hyblygrwydd yn greadigol fel modd o ymateb i ddirwasgiad, sy'n eu galluogi i gwtogi costau wrth barhau i gadw staff medrus. Er mwyn sicrhau hirhoedledd gwasanaethau'r Awdurdod, rhaid adolygu'r arferion gweithio a fabwysiadir ac a weithredir ar hyn o bryd, a chydnabod y gwaith sydd angen ei wneud i atgyfnerthu'r newid mewn diwylliant ac i sicrhau bod y newid hwnnw'n ddidrafferth.

Mae sefydliadau nad ydynt yn rheoli newid yn dda bedair gwaith yn fwy tebygol o golli pobl ddawnus. Mae ymchwil a gwblhawyd gan Right Management[5] yn amlygu'r ffaith y dywedodd 20% o gyflogeion a oedd o'r farn na lwyddwyd i ddelio â newid yn effeithiol eu bod yn bwriadu gadael o fewn blwyddyn o'i gymharu â 5% o gyflogeion yn unig a oedd â barn fwy cadarnhaol.

### 2.2.7 Barn Staff CSYM

Cynhaliodd y *Prosiect Gweithio'n Ddoethach* ymgynghoriad gyda staff yn ystod y pythefnos 24 Mawrth – 4 Ebrill 2014 i geisio'u barn ar y cysyniadau o Weithio'n Ddoethach.

Roedd y cysyniadau hyn yn cynnwys:

- ailddylunio derbynfa prif adeilad swyddfeydd y Cyngor i gynnwys mynedfa sengl newydd (gyda phrif dderbynfa ganolog), tair gweithfan TGCh ar gyfer y cyhoedd a chaffi newydd gyda seddau cyfforddus;
- ailddylunio prif adeilad swyddfeydd y Cyngor i ymgorffori amryw o swyddfeydd â dyluniad agored; cynyddu'r nifer o ystafelloedd cyfarfod, sicrhau bod blaen yr adeilad (llawr gwaelod) yn canolbwyntio ar y cwsmer gan gynnwys nifer o ystafelloedd cyfweld diogel, seddau cyfforddus a lle i gynnal cyfarfodydd tîm ym mhob adran o wasanaeth ac ati;
- nifer o gynigion i newid yr arferion gweithio a ymgymerir o fewn yr Awdurdod yn cynnwys terfynu/lleihau'r nifer o arferion yn cynnwys cofnodi cyfarfodydd mewnol.

Ymatebodd dros 220 o staff i'r ymgynghoriad gyda nifer ohonynt yn cyflwyno ymatebion ar y cyd ar ran eu timau. Mae crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad ar gael i'w ddarllen ar MonITor.

[5] Right Management: A Manpower Company (2010) Ready, Get Set…Change: The Impact of Change on Workforce Productivity and Engagement

**ATODIAD 1**

Daeth yn amlwg bod cefnogaeth gref i fabwysiadu egwyddorion gweithio'n ddoethach o fewn yr Awdurdod gyda staff yn sylweddoli'r angen i foderneiddio.

***Y cynigion a gafodd y gefnogaeth fwyaf oedd:***

*Y Brif Dderbynfa*

- Bydd y brif dderbynfa'n delio â'r ymholiadau 'syml' oll drwy rif canolog
- Bydd lle anffurfiol i gyfarfod gyda sgrîn breifatrwydd ar gael ar gyfer cysylltiadau ar hap gyda chwsmeriaid sy'n mynnu ychydig o breifatrwydd
- Bydd lle anffurfiol a chyfforddus i gyfarfod ar gael ar gyfer cysylltiadau ar hap gyda lle i ddisgwyl
- Bydd ystafelloedd cyfarfod/cyfweld ar gael drwy'r brif dderbynfa, gyda'r brif dderbynfa'n gadael i'r gwasanaeth wybod bod y cleient wedi cyrraedd

*Prif Adeilad/Arferion Gweithio Hyblyg*

- Bydd yr UDA (Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr a'r tri Chyfarwyddwr Corfforaethol) wedi eu lleoli yn ganolog o fewn y prif adeilad
- Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cadw'u swyddfeydd personol o fewn eu gwasanaethau priodol
- Bydd 'Ystafelloedd Cyfarfod yn Benodol i'r Gwasanaeth' ar gael o fewn y gwasanaethau ar gyfer cyfarfodydd mwy preifat e.e. cyfarfodydd 1:1
- Bydd 'Ystafelloedd Cyfarfod i'w Llogi' (yn cynnwys fideo gynadledda a thaflunydd PC) ar gael drwy'r prif adeilad, oll i'w llogi drwy'r system Outlook
- Bydd cyfleusterau/ystafelloedd hyfforddi ar gael o fewn prif adeilad y Cyngor

*Arferion Gweithio Mwy Modern*

- Dylai pob gwybodaeth am wasanaeth a chwestiynau cyffredin fod ar gael ar wefan y Cyngor
- Yn ôl yr angen, dylid defnyddio offer taflunio i rannu dogfennau cyffredin mewn cyfarfodydd
- Dylai grwpiau calendr ar gyfer ystafelloedd cyfarfod fod ar gael i holl staff i'w llogi lle nad oes angen taliad i wneud hynny
- Dylai ffurflenni ar-lein ar gyfer ceisiadau fod ar gael os yn bosibl, yn cynnwys ffurflenni am swyddi, hawliadau budd-daliadau, Tai, cael bin ysbwriel newydd, trwyddedau ac ati
- Dylid cadw dogfennau, eu cofnodi, eu rheoli a'u harchifo'n electronig
- Fel rhan o ailddylunio'r prif adeilad dylid sicrhau bod cyfleusterau cynadledda fideo ar gael

***Y cynigion a gafodd y gefnogaeth leiaf oedd:***

*Y Brif Dderbynfa*

- Bydd holl fannau mewnol y dderbynfa fewnol yn cau (Prif adeilad y Cyngor yn unig)
- Bydd Caffi gyda chadeiriau ar gael yn y dderbynfa i'r cyhoedd a staff i'w ddefnyddio

*Prif Adeilad/Arferion Gweithio Hyblyg*

- Bydd 'Mannau Eistedd Cyfforddus' ar gael mewn lleoliadau neilltuol i gynnig dewis gwahanol i'r mannau cyfarfodydd staff
- Bydd desgiau (gweithfannau) yn cael eu gweithredu ar sail polisi 'desg glir' lle bydd hynny'n briodol, ac ar gael i unrhyw aelod o staff i'w defnyddio fel desg boeth



EITHRIEDIG

- I gefnogi'r polisi desg glir: - loceri, cypyrddau ffeilio, ystafelloedd cadw cofnodion dan glo

*Arferion Gweithio Mwy Modern*

- Dylem beidio cofnodi cyfarfodydd mewnol

EITHRIEDIG

# 3. Yr Achos Economaidd

Mae'r achos economaidd yn ystyried a all Gweithio'n Ddoethach sicrhau gwell canlyniadau i staff a dinasyddion ynghyd â gwerth am arian.

Mae'r achos am newid yn un cryf, a bu i'r Achos Busnes Amlinellol gynnig hoff ddewis gyda thri argymhelliad bras a gytunwyd gan Fwrdd y Prosiect Gweithio'n Ddoethach:

*Argymhelliad 1* - Ailddylunir derbynfa prif adeilad swyddfeydd y cyngor i greu un brif dderbynfa ar gyfer y sefydliad gyda gwasanaeth pwynt cyswllt rhagorol ar gyfer ein cwsmeriaid.

*Argymhelliad 2* - Y bydd prif adeilad swyddfeydd y cyngor yn cael ei ailddylunio er mwyn rhoi cymorth i'r Awdurdod fedru symleiddio'i asedau a mabwysiadu arferion gweithio doethach.

*Argymhelliad 3* - Y bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu arferion gweithio mwy modern er mwyn lleihau'r amser a dreulir ar ddyletswyddau gweinyddol.

***Mae angen i'r tri argymhelliad sicrhau eu bod yn cyfrannu at sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau mewn perthynas â Rheoli Gwybodaeth***

Rhoddwyd ystyriaeth i newid dim byd o gwbl ond gan na fyddai hynny'n cyflawni amcanion corfforaethol y sefydliad ni chafodd ei ddewis fel opsiwn gwirioneddol.

Mae nifer o ragdybiaethau ynghlwm â phob argymhelliad a ddatblygwyd drwy ymchwil, dadansoddi ac ymgynghori â staff ac Aelodau, ac o ganlyniad bydd costau gweithredu i'w hwynebu er mwyn cyflawni'r buddion ariannol ac fel arall.

## 3.1 Dangos Tystiolaeth Canlyniadau Gwelliant a Gwerth am Arian

Mae *Tabl 2* yn gosod pob argymhelliad yn erbyn *Amcanion Buddsoddi* y prosiect sy'n tystiolaethu; gallu'r argymhellion i wella canlyniadau ar gyfer ein cwsmeriaid, staff a'r sefydliad cyfan, a sut fydd yr argymhellion yn cyfrannu at gyflawni'n buddion heb fod yn ariannol.

Mae *Adran 4* yn rhoi manylion am yr 'Achos Ariannol' yn nhermau'r arbedion a ragwelir yn erbyn y buddsoddiad sydd ei angen.

EITHRIEDIG

*Tabl 2 – Gwelliant ar Ganlyniadau*

| Yr Hoff Opsiwn a Argymhellir | Cyfraniad at Amcan Buddsoddi | Gwelliant ar Ganlyniadau ar gyfer ein Cwsmeriaid, Staff a'r Sefydliad | Buddion heb fod yn Ariannol |
|---|---|---|---|
| **R1**<br>Ailddylunir derbynfa prif adeilad swyddfeydd y cyngor i greu un brif dderbynfa ar gyfer y sefydliad gyda gwasanaeth pwynt cyswllt rhagorol ar gyfer ein cwsmeriaid. | **Amcan 1**<br>Optimeiddio mynediad at wasanaeth | ▪ Bydd cwsmeriaid yn cael cyfarchiad cyson CSYM gan y staff yn yr unig brif dderbynfa<br>▪ Bydd cwsmeriaid yn cael ateb i'w ymholiad (syml) yn y pwynt cyswllt cyntaf – ymateb cyflymach a fydd yn eu bodloni'n well<br>▪ Bydd gan gwsmeriaid fynediad at wasanaethau drwy'r cyfrifiaduron cyhoeddus, gan annog y newid at hunan-wasanaethu a datblygu sgiliau i gael mynediad at wasanaethau o leoliadau sy'n gyfleus iddyn nhw<br>▪ Bydd cwsmeriaid yn cael cymorth gan swyddogion ar y pryd pan fydd angen cwblhau ffurflenni, hawliadau budd-daliadau a llogi cyfleusterau<br>▪ Bydd cwsmeriaid yn cael ymateb gwell a mwy cyson i'w galwadau ffôn | **Defnyddwyr y gwasanaeth:**<br>▪ Byddant yn cael y gwasanaeth angenrheidiol, yn rhywle cyfleus iddyn nhw<br>▪ Byddant yn cael y gwasanaethau'n gyflymach<br>▪ Byddant yn medru cael mynediad at fwy o'r gwasanaethau angenrheidiol o un lleoliad |
| | **Amcan 4**<br>Cyflawni arbedion effeithlonrwydd | ▪ Bydd y sefydliad yn gwneud gwell defnydd o staff gweinyddol o fewn yr Awdurdod gan gael gwared â rhai a adnabuwyd nad oes eu hangen yn y strwythur | **Y Sefydliad**<br>▪ Bydd yn sefydliad mwy pwrpasol, ymatebol ac effeithlon |
| **R2**<br>Y bydd prif adeilad swyddfeydd y cyngor yn cael ei ailddylunio er mwyn rhoi cymorth i'r Awdurdod fedru symleiddio'i asedau a mabwysiadu arferion gweithio doethach. | **Amcan 2**<br>Moderneiddio, dod yn gynaliadwy ac yn barod i newid | ▪ Bydd y sefydliad yn gwneud gwell defnydd o'r lle sydd ar gael o fewn y prif adeilad gan alluogi gwell cydweithrediad rhwng gwasanaethau<br>▪ Lles staff h.y. bydd hapusrwydd yn cynyddu yn sgil y teimlad o well hyblygrwydd yn y modd maent yn rheoli llwyth gwaith a'r sefydliad yn ymddiried ynddynt i wneud hynny'n effeithiol<br>▪ Bydd gwasanaethau'n fwy pwrpasol o ran strwythur ac yn dysgu darparu eu gwaith i'r eithaf ond gyda llai o adnoddau<br>▪ Bydd cwsmeriaid yn medru cael mynediad at wasanaeth yn rhwydd<br>▪ Bydd cwsmeriaid yn ymddiried yn yr Awdurdod i gadw data cwsmeriaid yn ddiogel | **Defnyddwyr y gwasanaeth:**<br>▪ Byddant yn cael y gwasanaeth angenrheidiol, yn rhywle cyfleus iddyn nhw<br>▪ Byddant yn cael y gwasanaethau'n gyflymach<br>▪ Byddant yn medru cael mynediad at fwy o'r gwasanaethau angenrheidiol o un lleoliad<br>**Staff:**<br>▪ Byddant yn medru gweithio'u horiau, ac o leoliadau sy'n fwy cyfleus ar gyfer eu bywyd personol<br>▪ Byddant yn teimlo'n falch o weithio i sefydliad modern llawn cynnydd<br>**Aelodau Etholedig:**<br>▪ Gallant gysylltu â swyddogion yn ôl yr angen a gweithio o amryw o leoliadau<br>▪ Byddant ar gael yn fwy parod i'w hetholwyr<br>**Y Sefydliad:**<br>▪ Bydd yn sefydliad mwy pwrpasol, ymatebol ac effeithlon |

EITHRIEDIG

*Tabl 2 – Gwelliant ar Ganlyniadau*

| Yr Hoff Opsiwn a Argymhellir | Cyfraniad at Amcan Buddsoddi | Gwelliant ar Ganlyniadau ar gyfer ein Cwsmeriaid, Staff a'r Sefydliad | Buddion heb fod yn Ariannol |
|---|---|---|---|
| | | | ▪ Bydd yn medru cydnabod cyfraniadau'r staff yn well i nodau'r sefydliad |
| | **Amcan 3**<br>Symleiddio ein portffolio asedau | ▪ Bydd y sefydliad yn medru cau adeiladau allanol anaddas<br>▪ Bydd staff wedi eu lleoli mewn adeiladau sy'n fodern ac yn addas/ yn ddigonol iddynt fedru cwblhau eu dyletswyddau i'r eithaf<br>▪ Bydd gwell cefnogaeth i'r rhaglen ehangach o symleiddio asedau ar gyfer yr Awdurdod e.e. Moderneiddio Ysgolion drwy ryddhau Ysgol y Graig<br>▪ Bydd gwasanaethau'n dod ynghyd i alluogi gwell cydweithio ar draws gwasanaethau, gan wella mynediad cyfannol i wasanaethau gan gwsmeriaid | **Defnyddwyr y gwasanaeth:**<br>▪ Byddant yn medru cael mynediad at fwy o'r gwasanaethau angenrheidiol o un lleoliad |
| | **Amcan 4**<br>Cyflawni arbedion effeithlonrwydd | ▪ Bydd gan y sefydliad bortffolio asedau llai a fydd yn golygu llai o faich ar gyllidebau refeniw bob blwyddyn<br>▪ Bydd y sefydliad yn elwa wrth osgoi costau mewn perthynas â chostau rhedeg refeniw parhaus ar gyfer adeiladau lle tynnwyd y gyllideb hanesyddol o gyllidebau cyfredol y gwasanaethau | **Y Sefydliad:**<br>▪ Bydd yn sefydliad mwy pwrpasol, ymatebol ac effeithlon |
| **R3**<br>Y bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu arferion gweithio mwy modern er mwyn lleihau'r amser a dreulir ar ddyletswyddau gweinyddol | **Amcan 4**<br>Cyflawni arbedion effeithlonrwydd | ▪ Bydd y sefydliad yn gwneud gwell defnydd o staff gweinyddol o fewn yr Awdurdod gan gael gwared â rhai a adnabuwyd nad oes eu hangen yn y strwythur | **Y Sefydliad:**<br>▪ Bydd yn sefydliad mwy pwrpasol, ymatebol ac effeithlon |
| | **Amcan 5**<br>Gwella ein henw da a datblygu ein diwylliant | ▪ Bydd gan y sefydliad enw gwell ymysg llywodraethau lleol a chydnabyddir hynny ar lefel Genedlaethol<br>▪ Bydd y sefydliad yn denu ac yn cadw staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda<br>▪ Bydd y sefydliad a'r staff yn gweithio mewn diwylliant o ymddiriedaeth<br>▪ Bydd Gwasanaethau Cefnogol yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r agenda effeithlonrwydd<br>▪ Bydd y sefydliad yn cael ei gydnabod gan yr ICO fel un sy'n cydymffurfio mewn perthynas â data | **Y Sefydliad:**<br>▪ Bydd yn denu mwy o bobl i weithio i Gyngor Sir Ynys Môn ac aros yno<br>▪ Bydd ganddo enw gwell ymysg llywodraethau lleol a Llywodraeth Cymru<br>**Staff:**<br>▪ Byddant yn teimlo'n falch o weithio i sefydliad modern llawn cynnydd<br>▪ Byddant yn teimlo bod rheolwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn ymddiried ynddynt |

EITHRIEDIG

## 3.2 Crynodeb o'r Hoff Opsiwn – Argymhelliad 1

**Argymhelliad 1:** Ailddylunir derbynfa prif adeilad swyddfeydd y cyngor i greu un brif dderbynfa ar gyfer y sefydliad gyda gwasanaeth pwynt cyswllt rhagorol ar gyfer ein cwsmeriaid.

Ar gyfer ailddylunio lleoliad y brif dderbynfa, mae'r derbynfeydd canlynol yn cael eu cynnwys / ddim yn cael eu cynnwys:

*I'w Cynnwys:*

- Pob derbynfa fewnol yn y prif adeilad (9 ar hyn o bryd)
- Derbynfa Parc Mount
- Derbynfa'r Caban

*Ddim i'w Cynnwys:*

- Canolfan Fusnes Ynys Môn
- Llyfrgelloedd
- Archifau
- Canolfannau Hamdden
- Sefydliadau Addysgiadol

### 3.2.1 Cynigion Allweddol ar gyfer Argymhelliad 1 – Un Brif Dderbynfa

Y dderbynfa yw un o'r cyfleoedd cyntaf i'r Awdurdod wneud argraff ar y cwsmer/ymwelydd, ac felly mae angen ei dylunio mewn modd sy'n groesawgar ac yn ymarferol, gan roi argraff gadarnhaol, gyson a pharhaol.

*Y cynigion allweddol ar gyfer yr argymhelliad hwn yw*:

- Bydd prif ddesg y dderbynfa'n gweithio fel y brif dderbynfa ar gyfer pob Gwasanaeth a leolir o fewn y prif adeilad, gan greu un pwynt mynediad.
- Bydd pob derbynfa fewnol arall (o fewn y sgôp cynnwys) yn cael eu cau
- Bydd y brif dderbynfa'n delio â phob ymholiad cyswllt 'syml'
- Bydd swyddfeydd ar gael y tu ôl i leoliad desg y dderbynfa
- Bydd tri phwynt TGCh cyhoeddus ar gael i gwsmeriaid o fewn rhan y brif dderbynfa
- Bydd Wi-Fi cyhoeddus am ddim ar gael o fewn rhan y brif dderbynfa
- Bydd mynediad at ystafelloedd cyfweld o'r dderbynfa gyda; cyfrifiaduron a ffonau ar y rhwydwaith, llwybr dianc i staff, ystafelloedd sy'n cadw sŵn i mewn a larymau panig
- Bydd lle anffurfiol i gyfarfod gyda sgrîn breifatrwydd wrth y brif dderbynfa ar gyfer sgyrsiau ar hap gyda chwsmeriaid sydd angen ychydig o breifatrwydd
- Bydd lle anffurfiol i gyfarfod gyda seddau cyfforddus ar gyfer sgyrsiau ar hap gyda chwsmeriaid ynghyd â lle i ddisgwyl
- Newid y drysau mynediad gyda drysau newydd a lobi atal drafft
- Gosod Rhwystr Diogelwch i atal mynediad i'r Prif Adeilad

*Mae'r cynlluniau llawn i'w gweld yn Atodiad 2.*

*I gefnogi'r newidiadau hyn:*



EITHRIEDIG

- Cynyddir y staffio yn yr unig dderbynfa i 4 amser llawn a 2 rhan-amser (2 staff amser llawn ar hyn o bryd)
- Bydd gwybodaeth am y gwasanaethau a chwestiynau cyffredin ar gael ar wefan y Cyngor
- Bydd ffurflenni ar gyfer cael mynediad at wasanaethau ar gael i'w cwblhau ar-lein (bydd cymorth ar gael i gwblhau'r ffurflenni hyn wrth y pwyntiau TGCh cyhoeddus ar gyfer cwsmeriaid yn y brif dderbynfa)
- Yn ôl yr angen, bydd ffurflenni papur ar gael ac i'w cyflwyno heb gyswllt uniongyrchol â swyddogion h.y. pwynt casglu a gadael
- Bydd angen i ni wella'r defnydd a chysondeb y gwaith o ddelio â galwadau o fewn ein system ffôn fewnol, a rhoi'r gorau i gyhoeddi rhifau ar wahân ar gyfer gwasanaethau bach (gan ddefnyddio prif rif y dderbynfa yn unig)

### 3.2.2 Ailddylunio'r Brif Dderbynfa

*Pethau 'Hanfodol' yn y Dderbynfa*

Yn 2004, bu i'r GIG ganfod yn eu Hadroddiad *'Gwella Profiad y Claf: Mynedfeydd a derbynfeydd croesawgar'*, mai'r *"fynedfa a'r dderbynfa yw'r rhan gyntaf o adeilad (ysbyty) y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei brofi ac yma hefyd mae canolbwynt naturiol yr adeilad (ysbyty)"* Maent o'r farn bod hyn yn ei gwneud hi'n bwysig sicrhau bod y rhan hon yn ymarferol ac yn apelgar a thaclus. Nododd yr adroddiad *"tra bydd dyluniad y rhan hon yn hanfodol wrth sicrhau bod pobl (cleifion) yn teimlo'u bod yn derbyn croeso, mae cael staff proffesiynol a chyfeillgar wrth law i gyfarfod, cyfarch a chynorthwyo ymwelwyr yn bwysicach fyth"*.

Ar gyfer y GIG, mae cyswllt rhwng y fynedfa a'r dderbynfa â'r elfennau canlynol:

- Pobl sy'n cyrraedd ac yn gadael (ar gyfer amryw o adrannau0;
- disgwyl;
- cyfarfod a chymdeithasu;
- cael gwybodaeth a chymorth.

Mae'r pedair elfen hon yn berthnasol hefyd i ofynion y dderbynfa mewn adeilad Awdurdod Lleol. Gall ein dull o ymdrin â'r elfennau hyn amrywio o un sefydliad i'r llall; serch hynny, mae nifer o sefydliadau allanol yn cynnwys '*Staples*' a '*Sulekha.com*' yn adnabod amryw o bethau sy'n 'hanfodol' mewn derbynfa. Gellir gosod y rhain yn fras yn y categorïau canlynol:

- desg y dderbynfa a derbynnydd;
- seddau a byrddau;
- ffôn a chyfrifiadur;
- byrbrydau a diodydd.

Estynnwyd prif dderbynfa Awdurdod CSYM tua 2008 er mwyn lleddfu problemau yn ymwneud â llifogydd. O ganlyniad i'r estyniad hwn cafwyd cyntedd newydd gydag arwynebedd o 236m$^2$.

Ar hyn o bryd desg dderbynfa ac ystafell seibiant i staff a lolfa gyda seddau o amgylch yr ochrau yn unig sydd yma gyda lle mawr agored yn y canol. Mewn ymateb i argymhelliad yr ICO mewn perthynas ag atal mynediad cyhoeddus i'r gwasanaethau, gosodwyd rhwystrau yn y canol i gyfeirio ymwelwyr heibio'r ddesg er mwyn iddynt arwyddo i mewn ac allan o'r adeilad.

Prin iawn yw'r defnydd a wneir o'r lle mawr hwn a'r her nawr yw gwneud defnydd gwell a hyblyg ohono, sy'n cefnogi'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid yn well. Cyflawnir hyn drwy greu



EITHRIEDIG

perthynas fwy rhyngweithiol rhwng staff y dderbynfa a chwsmeriaid, gyda mynediad at dechnoleg a gwybodaeth, a lle i wasanaethau fedru cyfarfod â'u cwsmeriaid mewn amgylchedd diogel a chynhyrchiol.

### 3.2.3 Cynyddu'r Capasiti yn y Brif Dderbynfa

Ar draws y derbynfeydd sy'n rhan o'r sgôp, casglwyd data dros gyfnod o bythefnos 30 Mehefin – 11 Gorffennaf i gyfrif faint o bobl oedd yn ymweld a'u rheswm dros wneud hynny. O'r dadansoddiad gwelwyd, o gofio am y bwriad i ymgorffori nifer o dderbynfeydd i mewn i dderbynfa prif adeilad Swyddfeydd y Cyngor, y byddai hyn yn cynyddu gwaith y brif dderbynfa fel a ganlyn:

*Galwadau ffôn*

- **Cynnydd posib o 71% mewn galwadau ffôn** a dderbynnir;
- Os na fuasem yn cynyddu'r capasiti, byddai hyn yn golygu y byddai angen i ddau FTE ateb y ffôn unwaith bob munud

*Ymwelwyr*

- **Cynnydd posib o 74% o ymwelwyr** i mewn i'r prif adeilad
- Yn seiliedig ar gadw dau aelod o FTE yn unig byddai'r naill aelod o staff yn gorfod delio ag ymwelydd bob 3 munud

Yn seiliedig ar y codiadau canrannol, mae hyn bron yn dyblu llwyth gwaith staff presennol y brif dderbynfa ar hyn o bryd (2 FTE). Mae'n bwysig nodi hefyd bod y nifer o alwadau a gollir ar draws y derbynfeydd yn y sgôp eisoes yn uchel (*collir cyfartaledd o 855 o alwadau bob wythnos*) a byddai hyn yn cynyddu mae'n debyg petaem yn ymestyn y capasiti ymhellach.

**Felly, cynnig yr adroddiad hwn yw y dylid cynyddu'r nifer o staff i <u>isafswm</u> o 4 FTE (cynnydd o 2 FTE) gyda dau 0.5 FTE i helpu yn ystod cyfnodau o wyliau – sef cyfanswm o 3 FTE ychwanegol.** Rhagwelir y daw'r staff hyn o'r gronfa o staff sydd yn sgôp yr adolygiad gweinyddol – eu hadleoli i weithio yn y brif dderbynfa. Tynnir y 3 FTE felly o'r proffil arbedion i sicrhau nad ydynt yn cyfrif hyn ddwywaith.

Mae gwybodaeth o Wynedd yn cefnogi'r cynnig hwn gyda 4 FTE yn gweithio yn y brif dderbynfa yno ar unrhyw adeg; a dau 0.5 FTE ychwanegol i weithio os bydd eraill ar eu gwyliau. Dylid nodi nad yw staff Gwynedd yn ateb galwadau ffôn gan fod hyn yn cael ei wneud gan ganolfan alwadau allanol. I gymharu'n deg felly, rhoddwn ystyriaeth i'r ffaith y bydd cynnydd mewn ymwelwyr mewn un brif dderbynfa yn golygu y bydd cynnydd hefyd yn y ceisiadau am ffurflenni a'r nifer a ddanfonir gan y bobl hynny (tua 473 dros y cyfnod a brofwyd sef 53 bob diwrnod ar gyfartaledd). Dylai'r gwaith a wneir i sicrhau bod ffurflenni ar gael i'w casglu, eu cwblhau a'u gadael drwy hunan-wasanaeth ar-lein ac ar gael ar bwynt casglu, leihau'r baich hwn yn sylweddol.

*Mae'r adroddiad llawn ar 'Weithlu'r Dderbynfa' ar gael yn Atodiad 3*

### 3.2.4 Galwadau Ffôn a Delio â nhw

Gosodwyd y system ffôn gorfforaethol bresennol yn 2009 ac mae'n System "Troslais IP" sy'n defnyddio'r rhwydwaith TGCh, yn hytrach na cheblu traddodiadol ac mae 884 o estyniadau ffôn yn perthyn iddi, wedi eu gwasgaru ar draws adeiladau'r Cyngor.

Mae prosesau presennol ar gyfer delio â galwadau yn amrywio ar draws y sefydliad gyda chwsmeriaid yn cael ymatebion gwahanol yn ddibynnol ar y gwasanaeth a alwyd h.y. mae gan Rheoli Gwastraff ganolfan alwadau mewn grym sy'n cynnig datrysiad a'r gallu i siarad yn Gymraeg neu Saesneg, recordio'r rheswm am yr alwad a rhoi galwadau mewn ciw a chyflwyno neges ddwyieithog



ETHRIEDIG

sy'n dweud wrth y galwr "ei fod mewn ciw". Mewn rhai Gwasanaethau mae'r alwad yn cael ei therfynu os nad yw'r derbynnydd bwriededig ar gael.

*Mae Atodiad 4 yn rhoi manylion y prosesau presennol ar gyfer delio â galwadau ar draws y gwasanaethau.*

Mae gan y system bresennol y gallu i:

- greu grwpiau estynedig i mewn i grŵp "Hela" – sydd yn cylchu galwad ymhlith y grŵp hyd nes i'r alwad gael ei hateb (wedi ei mabwysiadu ar hyn o bryd ar lefel gwasanaeth i wasanaeth);
- greu grwpiau estynedig i mewn i "Grŵp Pigo i Fyny" er mwyn i ddefnyddwyr fedru ateb ffôn cydweithiwr drwy bwyso F1 ar eu ffôn nhw;
- ddarparu cyfrifon Neges Llais ar gais (179 o rifau estynedig yn defnyddio hyn ar y funud) a
- rhoi dewislen tôn gyffwrdd i alwyr er mwyn cyfeirio eu galwadau. Ar hyn o bryd y Gwasanaeth Gwastraff yn unig sy'n defnyddio hyn ynghyd â'r Switsfwrdd y tu allan i oriau gwaith.

Mae dau opsiwn ar gael i CSYM ar gyfer y dyfodol:

*Opsiwn 1* defnyddio ein system bresennol yn well ac yn fwy cyson, gan sicrhau bod y rhifau ar y wefan yn gyfredol ac yn cael eu cynnal a rhoi'r gorau i gyhoeddi rhifau ar wahân ar gyfer gwasanaethau llai gan ddefnyddio rhif y brif dderbynfa yn hytrach.

*Opsiwn 2* prynu system ganolog newydd a symud holl rifau'r gwasanaethau drosodd

Yn seiliedig ar y gwerthusiad o'r opsiynau (Atodiad 4) yr hoff opsiwn yw Opsiwn 1.

Nid oes tystiolaeth gref dros symud i un rhif canolog ac mae cost ynghlwm â gwneud hynny yn ogystal ag ymyrraeth, ond mae'n amlwg y gallwn ac y dylem ddefnyddio'n system bresennol yn well ac yn fwy cyson. Golyga hyn:

- y bydd y rhifau ar ein gwefan yn gyfredol ac yn cael eu cynnal
- beidio â chyhoeddi rhifau ar wahân ar gyfer gwasanaethau llai a defnyddio rhif y brif dderbynfa yn hytrach

## 3.3 Crynodeb o'r Hoff Opsiwn – Argymhelliad 2

**Argymhelliad 2** - Y bydd prif adeilad swyddfeydd y cyngor yn cael ei ailddylunio er mwyn rhoi cymorth i'r Awdurdod fedru symleiddio'i asedau a mabwysiadu arferion gweithio doethach.

Y nod yw gweddnewid yr amgylchedd gweithio er mwyn galluogi mwy o staff i ddefnyddio prif Swyddfeydd y Cyngor a/neu leoliadau cymunedol fel eu prif leoliad gwaith. Bydd hyn angen dull mwy modern o ddarparu gwasanaeth, gan gwmpasu egwyddorion ehangach o weithio hyblyg a doethach.

Effeithir ar y gwasanaethau canlynol gan symud swyddfeydd o fewn yr adeilad er mwyn gwneud lle i'r gwasanaethau hynny sy'n adleoli o'r adeiladau a restrwyd uchod (*mae'r cynigion hyn yn seiliedig*

EITHRIEDIG

*ar adolygiad o'r nifer o staff sydd yn y sgôp a'r amser a dreuliant wrth eu desg, a'u bwydo gan adborth mewn cyfarfodydd gyda gwasanaethau ac ymgynghori â staff*):

*Mae'r manylion yn llawn ar gael yn Atodiad 2.*

| | |
|---|---|
| *Llawr Gwaelod* | ▪ Adnoddau Dynol i'w symud i'r ail lawr i wneud lle ar gyfer Incwm a Buddsoddiadau<br>▪ Incwm a Buddsoddiadau<br>▪ I'w symud i le oedd Adnoddau Dynol er mwyn i'r Adran Dai fod gyda'i gilydd i gyd a gwneud lle i'r Adran Gynllunio<br>▪ Iechyd Amgylcheddol i'w symud o'r llawr cyntaf i'r llawr gwaelod gyda Safonau Masnach<br>▪ Gwasanaethau Oedolion i aros gyda mân addasiadau swyddfa ac adleoli Partneriaethau o'r lleoliad hwn i'r llawer cyntaf. |
| *Llawr Cyntaf* | ▪ UDA, Cyfathrebu, Partneriaethau a Gweddnewid i symud i hen leoliad Iechyd Amgylcheddol i greu'r "Ganolfan Gorfforaethol".<br>▪ Gwasanaethau Democrataidd i symud o'u lleoliad presennol i leoliad presennol y Prif Weithredwr / Dirprwy Prif Weithredwr er mwyn gwneud lle i Addysg, Ieuenctid a Chefnogi Teuluoedd<br>▪ Gwasanaethau Plant i aros yn eu lleoliad presennol ond cwblheir addasiadau er mwyn gwneud lle i Addysg. |
| *Ail Lawr* | ▪ Gwasanaethau Cyfreithiol i aros gyda mân symudiadau swyddfa er mwyn gwneud lle i Adnoddau Dynol<br>▪ Adnoddau Dynol i'w lleoli lle y gadawodd Gweddnewid Corfforaethol a Pholisi<br>▪ Eiddo i aros gyda mân addasiadau er mwyn gwneud lle i'r tîm Ystadau o'r Caban<br>▪ Priffyrdd i aros gyda mân addasiadau i wneud lle i Drafnidiaeth o'r llawr cyntaf a Rheoli Gwastraff o'r Caban<br>▪ Cyllid a TG i aros gyda mân newidiadau er mwyn gwneud lle i staff TG ychwanegol a staff o Hyfforddiant Môn. |
| *Lefel Mezzanine* | *Dim newid ar y gweill* |
| *Arall* | ▪ Cyfleusterau/ystafelloedd hyfforddi i'w hadleoli o Neuadd y Sir |

O safbwynt Siambr y Cyngor a mannau cysylltiedig, cydnabyddir y byddai'n ddelfrydol iddynt gael eu lleoli ar y Llawr Gwaelod. Fodd bynnag, bu i'r archwiliad o'r opsiynau ar gyfer adleoli'r siambr adnabod nifer o gyfyngiadau gyda dyluniad yr adeilad, y costau a'r ymyrraeth sy'n gysylltiedig â symud gan achosi i hynny fod yn amhosib. *Mae copi o'r gwerthusiad opsiwn heb fod yn ariannol ar gael yn Atodiad 5.*

*I ategu'r newidiadau hyn:*

- Bydd gwasanaethau'n gweithio gyda'r Tîm Prosiect, Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol (mewn perthynas â amddiffyn data) a'r Swyddog Iechyd a Diogelwch i ddylunio'u lle eu hunain a all gynnwys:
  - *'Ystafelloedd Cyfarfod yn Benodol i'r Gwasanaeth' a fydd ar gael mewn mannau ar gyfer cyfarfodydd mwy preifat e.e. cyfarfodydd 1:1*

EITHRIEDIG

- *'Ystafelloedd Distaw' a fydd ar gael o fewn pob rhan i alluogi staff i ganolbwyntio ar dasgau y rhydd o unrhyw ymyrraeth*
- *'Mannau Cyfarfod Staff Bach ac Anffurfiol (Agored)' a fydd ar gael o fewn y rhannau i annog staff i drafod agweddau o'u gwaith mewn ffordd anffurfiol ac ar hap*
- *'Mannau gyda Seddau Cyfforddus'allai fod ar gael i gynnig mannau cyfarfod amgenach na'r rhai bach anffurfiol*
- *I ategu'r polisi desg glir: - loceri, cypyrddau ffeilio, ystafelloedd cadw cofnodion yn ddiogel*
- *Mewn mannau lle defnyddir gliniaduron yn bennaf, bydd gan bob gweithfan fonitor, bysellfwrdd a llygoden ar gyfer y dull hyblyg o weithio gan staff*

- Bydd staff yn medru cael mynediad at y gweinydd (drwy ddefnyddio dyfais gan y cyflogwr) o leoliadau eraill o bell (e.e. mewn ysgolion, llyfrgelloedd, cartrefi gofal, cartrefi cyflogeion)
- Bydd dogfennau'n cael eu cadw, eu cofnodi, eu rheoli a'u harchifo'n electronig h.y. datrysiad rheoli cofnodion
- Gweithredu datrysiad cyfathrebu unedig (e.e. MS Lync), a fydd yn galluogi cysylltu â staff drwy eu rhifau ffôn ar eu gliniadur a bydd rheolwyr yn gwybod pa bryd y bydd eu staff ar-lein

*Mae drafft gychwynnol o'r 'Cynllun Gweithredu' ar gael yn Atodiad 6*

***Mae'n bwysig nodi unwaith y bydd y gweithredu cychwynnol ar waith, bydd y cam nesaf yn ystyried camau i osod staff priodol yn nes at y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Mae'r gallu yma i ategu ymhellach y gwaith o wireddu'n buddion a chefnogi blaenoriaethau corfforaethol eraill megis lleihau'r nifer o leoedd gwag sydd yn ein hysgolion.***

### 3.3.1 Sgôp Gweithio'n Ddoethach yng Nghyngor Sir Ynys Môn

Mae gwir angen i ni adael swyddfeydd allanol a rhoi'r staff oddi yno yn ein prif adeilad ac allan yn y gymuned. Dyma gyfle gwych i edrych ar ein dull o ymdrin â'n diwylliant o weithio i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o le, ac yn bwysicach fyth darparu'n cwsmeriaid ag amcanion safonol y gellir eu hasesu ac sy'n cynnig gwerth am arian.
Nod gweithio'n ddoethach yn Ynys Môn yw defnyddio dull cyfansawdd a strategol wrth foderneiddio arferion gweithio er mwyn cyflawni'n hamcanion corfforaethol.

Mae hyn, yn ei hun, yn cynnwys nifer o ffactorau sydd angen eu hystyried, e.e. lle mae pobl yn gweithio a chwestiynu ai hyn yw'r lleoedd gorau i wasanaethu'n cwsmeriaid, annog staff i gael cydbwysedd rhwng bywyd gwaith a bywyd personol, sut mae hyn yn effeithio'r dull rheoli sy'n gyfarwydd i ni, ac yw'r offer (TGCh) a'r prosesau cywir gennym ni (gan gwmpasu technolegau presennol a newydd) i'n galluogi i fod yn fwy hyblyg.
Er diben yr argymhelliad hwn, mae'r canlynol i mewn neu allan o'r sgôp:

*Yn y Sgôp:*

- Holl staff swyddfa CSYM

*Y tu allan i'r Sgôp:*

- Holl staff sydd mewn ysgolion;
- Staff DLO;
- Staff gofal cartref
- Staff Hamdden a Diwylliant (nad ydynt yn staff swyddfa)



ETIFEDDIG

- Staff morol sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau arfordirol
- Staff mewn safleoedd amwynder dinesig
- Staff eraill nad ydynt mewn swyddfa yn gweithio mewn safleoedd y tu hwnt i Langefni e.e. Atyniadau Treftadaeth a Chefn Gwlad.

### 3.3.2 Beth a ddatgelir gan ein hymchwil?

Mae cwsmeriaid yn awr yn mynnu ac yn disgwyl mwy o'r gwasanaeth maent yn eu cael, ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw – heb gostio rhagor! Mae Ynys Môn yn cydnabod bod angen iddi fod yn fwy modern, hyblyg a chynaliadwy – a gellir cyflawni hynny drwy weddnewid ein diwylliant, arferion gweithio a'n gwasanaethau, gyda'r dinesydd wrth wraidd y newid hwnnw.

Bu i ddau ddatganiad allweddol a ganfuwyd yn ystod ein hymchwil cychwynnol gynnig cyfeiriad wrth ddatblygu Gweithio'n Ddoethach ar gyfer Ynys Môn:

*"gweithgaredd yw gwaith, nid lle"*[6]

*"[*mae gweithio'n hyblyg*] yn ddull o gyflawni gwaith gyda'r hyblygrwydd mwyaf posib a chyn lleied o gyfyngiadau â phosib – mae'n mynd ymhellach na dim ond gweithio'n hyblyg neu delegymudo ac mae'n canolbwyntio ar gael gwared â'r rhwystrau wrth geisio cyflawni gwaith yn effeithlon"*[7]

Diben y dulliau hyn yw grymuso cyflogeion (yn briodol) os ydynt yn dymuno hynny ynghylch eu lleoliad gwaith a'u horiau gweithio, gyda gwasanaeth rhagorol i'r cwsmer wrth wraidd hyn – diwylliant sydd wedi golygu cael gwared â'r mesurau artiffisial o lwyddiant, megis amser a phresenoldeb, gan ganolbwyntio yn hytrach ar ganlyniadau a pherfformiad.

Mae nifer o enghreifftiau mewn llywodraeth leol lle llwyddwyd i gyflwyno gweithio'n hyblyg yn llwyddiannus neu mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd. Fel rhan o'n hymchwil cychwynnol, bu i aelodau o'r *Bwrdd Prosiect* ymweld â dau Awdurdod lleol sydd wedi cyrraedd camau gwahanol o'r gweithredu; mae Cyngor Sir Fynwy yn enghraifft gyflawn lle cwblhaodd yr Awdurdod cyfan y newid diwylliant gyda'i gilydd, a Chyngor Sir Ddinbych a benderfynodd beilota un maes gyda'r bwriad o adolygu'r gwersi a ddysgwyd cyn gweithredu'n gyfan gwbl.

Yr hyn sy'n gyffredin i'r ddau awdurdod yw'r negeseuon allweddol a'r hyn a ddysgwyd, a dyma rai ohonynt:

- Pan gyrhaeddwch bwynt penodol – dechreuwch weithredu
- Peidiwch â disgwyl rhagweld neu baratoi i liniaru unrhyw risgiau – byddwch yn ddigon dewr i weithredu gan wybod y bydd risgiau'n datblygu, y bydd anawsterau'n codi ac y byddwn yn dysgu ohonynt wrth fynd yn ein blaenau
- Rhaid cynnwys y timau staff wrth ddiffinio sut fyddai gweithio'n hyblyg yn cael ei weithredu iddyn nhw a'u cwsmeriaid
- Mae gweithio'n hyblyg yn un rhan yn unig o newid mawr mewn ethos gweithio sy'n cwmpasu gwell tryloywder ac atebolrwydd
- Roedd anogaeth ac arweiniad o'r brig yn un o'r rhesymau allweddol dros lwyddo (os nad y prif reswm)

EITHRIEDIG

[6] *Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig* (RICS) papur 2009 *'Eiddo yn yr Economi'*
[7] *'Unilever'*

- Peidiwch â *gorfodi* pobl i weithio o adref
- Cadwch bethau'n syml!

Roedd yna elfennau cyffredin hefyd o safbwynt cael yr adnoddau yn eu lle er mwyn hwyluso'r newid diwylliant, yn cynnwys:

- Rhannu desgiau
- Holl staff yn cael gliniaduron
- Loceri personol ar gyfer eiddo personol
- Cyfleusterau fideo gynadledda mewn ystafelloedd cyfarfod
- Datrysiad rheoli cofnodion electronig
- Mynediad o bell i weinyddion
- Ffonau desg 'logio i mewn', a thechnoleg ffôn meddal ar liniaduron


### 3.3.3 Y Presennol o'r Weithfan

Mae cynllun y swyddfa ar hyn o bryd yn golygu bod lle wedi ei ddylunio o amgylch strwythur hierarchiaeth y sefydliad yn hytrach nag anghenion gwaith. Mae gan Reolwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr eu swyddfeydd personol eu hunain yn agos at y gwasanaethau maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae gan y rhan helaeth o gyflogeion eu desgiau eu hunain, hyd yn oed pan maent yn gweithio i ffwrdd oddi yno am y rhan fwyaf o'r amser. Mae hyn yn ddiddorol wrth i ni ystyried y dengys ymchwil mewnol bod 153 (21%) o'n 718 aelod o staff i ffwrdd o'u desgiau am hyd at 50% o'u hamser gwaith, gweler Graff 3.

EITHRIEDIG

*Graff 3 – Nifer o Staff sydd yn gweithio wrth eu desgiau drwy'r adeg (llai na 50% a mwy na 50% o amser gwaith)*




Dyluniwyd prif adeilad Swyddfeydd y Cyngor o amgylch y syniad o swyddfeydd agored gyda'r bwriad o weithredu fel amgylchedd swyddfa heb bapur. Am amryw o resymau hanesyddol nid yw'r adeilad, fel swyddfa, yn cael ei ddefnyddio fel hyn. Yn gyffredinol mae'r adeilad wedi ei rannu yn ôl gwasanaeth ac nid yw staff yn medru cael mynediad at rai rhannau o'r adeilad lle lleolir gwasanaethau sensitif, gan annog dull seilo o weithio o ganlyniad.

Y brif swyddfa yn Llangefni yw'r un fwyaf sy'n perthyn i'r Cyngor ar yr ynys gydag arwynebedd llawr o ryw 7753m$^2$. Bu i arolwg diweddar gofnodi tua 600 o weithfannau. O arolygon blaenorol o'r adeilad, mae hi'n amlwg nad yw'r dyraniad o le fesul gweithfan yn gyson ar gyfer pob gwasanaeth ac mae'n amlwg hefyd, fel mewn amryw o adeiladau swyddfa, bod rhai gwasanaethau'n rhoi mwy o le i bob gweithfan ac eraill yn rhoi llai. Awgryma hyn ei bod hi'n bosib addasu gosodiad yr adeilad er mwyn medru cyflwyno arferion gwaith hyblyg. Un opsiwn yn yr argymhelliad yw ailddylunio gosodiad y prif adeilad i ymgorffori swyddfeydd mwy agored tra'n ail ffitio gwasanaethau sydd yno'n barod a'r rhai sy'n dod i mewn, i'r lle newydd a fydd ar gael yn sgil y gosodiad newydd – wrth ragweld ac annog yn bwrpasol cynnydd yn y nifer o staff sy'n gweithio o leoliadau eraill.

### 3.3.4 Anghenion TGCh ymlaen llaw

I gyflawni *Argymhelliad 2* a gyrru'r sefydliad ymlaen yn gynaliadwy, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith a Systemau TGCh fel blaenoriaeth:

- rhaid galluogi staff i gael mynediad at y systemau TGCh angenrheidiol yn ddiogel o unrhyw leoliad
- rhaid galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu â gwasanaethau'r Cyngor maent yn eu dymuno, drwy'r rhyngrwyd ar adeg ac o leoliad sy'n gyfleus iddyn nhw; a
- rhaid cefnogi gwasanaethau wrth fabwysiadu'r defnydd ehangach o dechnoleg er mwyn galluogi darpariaeth fwy effeithiol ac effeithlon o'u gwasanaethau.

I wneud hyn mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi yn y datrysiadau TGCh canlynol.

**Rhagwelir y bydd angen buddsoddiad tymor byr ar gyfer 1 Swyddog TGCh FTE i gydgordio a chynghori i sicrhau bod y datrysiadau allweddol hyn yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.** Nid yw'r capasiti hwn ar gael o fewn y tîm TGCh presennol.

- **Mynediad o Bell**
  I alluogi staff i weithio'n hyblyg o nifer o leoliadau drwy ddefnyddio amryw o offer, rhaid iddynt gael mynediad at weinyddion yr Awdurdod drwy allwedd mynediad o bell. Ym Môn rydym yn defnyddio [redacted] ar hyn o bryd sydd wedi derbyn rhai adolygiadau negyddol o ran ei llwyddiant fel ateb [redacted]

  Dengys ymchwil a gwblhawyd ar draws yr Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru bod y rhan fwyaf o Awdurdodau Gogledd Cymru yn defnyddio Citrix gan fel eu hamgylchedd mynediad o bell. Os ydym am fod yn gallu gweithio ar y cyd ar draws y rhanbarth lle y bydd systemau yn cael eu gosod gydag awdurdodau lletyol, yna byddai angen i ni fuddsoddi mewn system Citrix h.y. system rheoli achosion a dogfennau electronig Cyfreithiol (Iken) yn dibynnu ar Citrix i weithio yn lleol ac ar draws awdurdodau.

  Wrth i ni ddatblygu dull mwy hyblyg at ein gwaith, cydnabyddir y bydd mwy o staff yn edrych i gael mynediad at eu gwybodaeth o bell. Er mwyn canfod y costau llawn o hyn byddai angen i adolygiad gael ei wneud gan arbenigwr i edrych ar yr hyn y byddai'n ei gymryd i CSYM i weithio o fewn amgylchedd Citrix.

  Fodd bynnag, gallwn adeiladu amcangyfrif yn seiliedig ar ein ateb presennol gyda costau disgwyliedig yn y rhanbarth o £54,000 tuag at gostau bysellau cyrchu, ymgynghori, porth a gweinyddwr ychwanegol.

- **Rheoli Cofnodion (RM)**
  Nid yn unig y mae'r gofyniad i fuddsoddi mewn datrysiad Rheoli Cofnodion ar draws yr awdurdod yn bodloni'r angen i atgyfnerthu Gweithio'n Ddoethach, ond bydd hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni'n dyletswyddau mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth (a amlygwyd fel argymhelliad yn dilyn archwiliad yr ICO ym mis Hydref 2013.)

  Rydym wedi proffilio; lle mae gennym Wasanaethau sydd â datrysiad RM o fewn eu meddalwedd benodol ac yn ei defnyddio, lle mae hyn ganddynt ond ddim yn ei defnyddio a lle nad oes datrysiadau RM o fewn Gwasanaethau. Drwy waith y *Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth*, mae 'Cofrestr o Asedau Gwybodaeth' yn cael ei datblygu, a fydd yn cael ei

EITHRIEDIG

defnyddio i fwydo gwybodaeth i'r system ddewisol (h.y. pa fath o gofnodion a gedwir gennym, natur y ddyletswydd i wneud hynny, am ba hyd, ac yn ddelfrydol y capasiti disgwyliedig).

Y nod yw cryfhau'r defnydd o RM o fewn y gwasanaethau hynny sydd â mynediad, ac yna edrych i weld lle mae'r gallu gennym i ddarparu datrysiadau presennol i'r Gwasanaethau hynny sydd hebddynt. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy sefydlu fforwm ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd heb fynediad at system RM a gosod arddangosiad o'r opsiynau mewnol sydd ar gael.

Rhai o fanteision allweddol gweithredu datrysiad mewnol presennol yn hytrach na phrynu datrysiad 'corfforaethol' yw:

- Bydd gwasanaethau sy'n defnyddio RM yn effeithiol fel arfer yn atodi'r ddogfen i gofnod y cleient, a bydd hyn yn parhau
- Gostyngiad sylweddol yn y costau buddsoddi ymlaen llaw gan fod y feddalwedd yn berchen gennym eisoes (cynnydd mewn costau trwydded a lle ar ddisg wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrifon ariannol)
- Mae arbenigedd yn bodoli o fewn y Gwasanaethau sydd ar gael i'w rannu wrth weithredu ar gyfer gwasanaethau eraill
- Gwell perchnogaeth o'r system gan y bydd yn seiliedig ar argymhelliad mewnol

Gyda'r eithriad y byddwn yn medru gweithredu datrysiad presennol o fewn yr Awdurdod, amcangyfrifwn y costau oddeutu £73,800 bob blwyddyn, Mae hyn yn seiliedig ar y system Gynllunio gyfredol gyda EDRMS llawn am [redacted] ar gyfer [redacted] o ddefnyddwyr ([redacted] fesul defnyddiwr), gyda thua 600 o drwyddedau ychwanegol eu hangen yn raddol dros y tair blynedd. Bydd disgwyl i'r cofnodion priodol gael eu rhoi yn y system o Flwyddyn 1 ymlaen.

Er mwyn sicrhau bod digon o le disg i gadw'r cofnodion, argymhellir ein bod yn buddsoddi £29,300 o arian cyfalaf.

Unwaith y bydd y system wedi ei sefydlu, rhagwelwn fedru gwneud arbedion gweinyddol oddeutu £98,400 o Flwyddyn 3 ymlaen.

*Mae'n bwysig nodi y bydd y gwaith tuag at gyflawni datrysiad RM angen ystyried cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer cadw'r cofnodion hynny a amlygwyd drwy'r Gofrestr o Asedau Gwybodaeth fel rhai sydd angen eu cadw ar bapur. Mae costau posib heb eu hadnabod sy'n gysylltiedig â hyn a ddaw'n fwy eglur wrth i'r Gofrestr o Asedau Gwybodaeth gael ei datblygu.*

- **Cyfathrebu Unedig (e.e. MS Lync)**

  Mae Cyfathrebu Unedig yn darparu cyfathrebu llyfn i staff o'u gliniadur, er mwyn iddyn nhw a chithau ddod o hyd i'r unigolyn cywir a chyfathrebu ag ef. Waeth ymhle y gwneir y gwaith, gellir cysylltu â'r aelod o staff drwy ei liniadur drwy ddefnyddio rhif ffôn llinell dir ei waith a mynychu cyfarfodydd o bell drwy'r gwe-gamera. Fel rheolwr, gallwch weld pa bryd fydd aelodau o'ch tîm ar-lein ac ar gael i gysylltu â nhw.

  Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r datrysiad hwn yn ymwneud â:

- thrwyddedu, a fyddai'n costio oddeutu £[redacted](yn seiliedig ar [redacted] fesul defnyddiwr x [redacted] sydd yn 50% o'r holl [redacted] o staff a fydd yn yr adeilad), a
- chostau meddalwedd a gweinydd oddeutu £7,500

Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhoi ystyriaeth i staff mewn lleoliadau eraill i ffwrdd o'r safle sydd angen y datrysiad er mwyn medru gweithio o bell.

- **Gliniaduron**

  Cydnabyddir y bydd staff angen gliniaduron o'r gwaith er mwyn medru gweithio o bell. Gellir rheoli hyn mewn dwy ffordd:

  i. Bydd angen i bob gwasanaeth adnabod a blaenoriaethu pa staff fydd angen gliniadur a chynllunio ar gyfer hyn o fewn cyllideb y gwasanaeth hwnnw
  ii. Polisi'r awdurdod yw newid hen PCs XP gyda Gliniaduron – pan ddaw PC i ben ac nid yw'r aelod o staff hwnnw'n gweithio o bell, a ellid rhoi'r Gliniadur i aelod o staff sy'n disgwyl am un, gan ei gyfnewid am PC ei ddesg i'w ddefnyddio'n hytrach (yn ddibynnol ar anghenion y naill ddefnyddiwr)?

- **Defnyddio Dyfeisiau Symudol Personol**

Er mwyn cefnogi dull mwy ystwyth i ymgymryd â'n gwaith, cydnabyddir bydd staff mewn rhai achosion angen cael mynediad at eu negeseuon e-bost a chalendr o ffonau symudol.

Mae'r polisi TGCh presennol yn datgan "Ni all offer sy'n eiddo personol cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes y Cyngor".

Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaharddiad yn y polisi, mae'n bwysig bod Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn cydnabod bod yr arfer o ddefnyddio dyfeisiau personol (ffonau symudol) gan staff yn dal i ddigwydd am nifer o resymau ymarferol.

Mae'r arweiniad gan y SIRO yn datgan *"os ydych wedi cymryd y penderfyniad i ganiatáu'r arfer yn eich gwasanaeth, yna gofynnwn i chi sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dilyn, a thrwy hynny liniaru'r risg. Bydd y mater yn cael ei adolygu eto fel rhan o gylch gorchwyl y Prosiect Gweithio'n Ddoethach".*

Wrth symud ymlaen i weithredu, bydd yr arfer hwn yn cael ei ystyried gan y Tîm Prosiect a'i adrodd i'w ystyried i'r Byrddau Gweithio'n Ddeothach a Llywodraethu Gwybodaeth.

*Mae'n bwysig nodi, er mwyn i aelod o staff gael gweithio o adref, byddai angen iddo gydymffurfio â pholisi 'Gweithio o Adref' yr Awdurdod. Cyfrifoldeb pob rheolwr a'i staff yw sicrhau bod y polisi hwn yn eu meddiant, yn cael ei ddeall a'i arwyddo.*

### 3.3.5 Pwysigrwydd Rheoli Newid

Mae llawer iawn o dystiolaeth o fanteision i'r busnes wrth weithio mewn ffyrdd newydd, mewn cyfnodau o galedi economaidd ac fel arall. Gall trefniadau gweithio'n ddoethach leihau costau, hybu cynhyrchiant, ysgogi pobl a chreu mwy o bosibiliadau. Mae nifer o gwmnïau wedi defnyddio hyblygrwydd yn greadigol er mwyn ymateb i ddirwasgiad, a'u galluogi felly i leihau costau wrth ddal eu gafael ar staff medrus. Er mwyn sicrhau parhad hirdymor gwasanaethau'r Awdurdod, mae angen

EITHRIEDIG

adolygu'r arferion gweithio a fabwysiadir ac a weithredir ar hyn o bryd, a rhaid cydnabod y gwaith sydd ei angen i atgyfnerthu'r newid mewn diwylliant gan lwyddo i wneud y newid hwnnw'n llyfn.

Mae sefydliadau nad ydynt yn rheoli newid yn dda bedair gwaith yn fwy tebygol o golli pobl ddawnus. Mae ymchwil a gwblhawyd gan Right Management[8] yn amlygu y dywedodd 20% o gyflogeion a oedd
o'r farn na lwyddwyd i ddelio â newid yn effeithiol eu bod yn bwriadu gadael cyn pen blwyddyn, o'i gymharu â 5% o gyflogeion a oedd â barn ffafriol am y newid. Adroddodd y rhai a oedd â barn ffafriol eu bod yn bwriadu aros gyda'r sefydliad am bum mlynedd o leiaf.

Mae'r dull o reoli'r newid hwn yn effeithiol ym Môn wedi ei osod yn yr '*Achos Rheoli*' yn Rhan 6 o'r ddogfen hon.
**Er mwyn rhyddhau'r arbedion a amlygwyd ar draws y tri argymhelliad mewn perthynas â lleihau'r dyletswyddau gweinyddol cysylltiedig, bydd angen buddsoddi mewn 1 Swyddog Datblygu Gweithlu FTE.** Bydd y swydd hon yn cydweithio â gwasanaethau i ailstrwythuro'r gwaith a wnânt ar ddyletswyddau gweinyddol er mwyn rhyddhau'r arbedion. Nid yw'r capasiti ar gael yn y Tîm Datblygu Gweithlu presennol.

## 3.4 Crynodeb o'r Hoff Opsiwn – Argymhelliad 3

**Argymhelliad 3** - Y bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu arferion gweithio mwy modern er mwyn lleihau'r amser a dreulir ar ddyletswyddau gweinyddol.

### 3.4.1 Cynigion Allweddol ar gyfer Moderneiddio Arferion Gweithio

Ble bynnag mae hi'n briodol gwneud hynny a'u hystyried yn ddibynnol, priodolwyd rhai o'r cynigion arbedion a buddsoddi wrth foderneiddio arferion gweithio i Argymhellion 2 a 3. Mae'r gweddill ynghlwm ag Argymhelliad 3.

*Y cynigion allweddol ar gyfer yr argymhelliad hwn yw*:

- I gynnig cymorth ar effeithiolrwydd ac arfer dda
- Lleihau'r nifer a'r swmp o adroddiadau
- Dylai pob gwybodaeth gwasanaeth a chwestiynau cyffredin fod ar gael ar wefan y Cyngor
- Dylai pob calendr Outlook fod ar agor i staff i'w gweld fel 'prysur/ar gael' waeth beth yw statws unrhyw aelod o staff
- Rhaid i bob aelod o staff sydd â mynediad i Outlook sicrhau bod ei galendr wedi ei ddiweddaru'n rheolaidd
- Dylai grwpiau calendr ar gyfer ystafelloedd cyfarfod fod ar gael i unrhyw staff i'w llogi lle nad oes angen taliad
- Galluogi staff i ddefnyddio'u cyfrif e-bost ar eu ffonau symudol
- I ganfod ffordd i alluogi'r cyhoedd/staff i gyflwyno gwahanol ffurflenni heb orfod cysylltu â swyddogion yn uniongyrchol
- Ble bynnag y bydd o fudd i'r unigolyn ac yn gwella darpariaeth y gwasanaeth, dylid sicrhau bod meddalwedd adnabod llais ar gael
- Dylai staff gynnal y system Fflecsi ar sail hunan-wasanaeth gydag adroddiadau monitro ar gael i reolwyr

Er mwyn gwireddu hyn bydd angen i ni:

[8] Right Management: A Manpower Company (2010) Ready, Get Set…Change: The Impact of Change on Workforce Productivity and Engagement



EITHRIEDIG

- **Terfynu, lleihau a/neu ganoli tasgau a phrosesau** sy'n 'wastraffus' neu'n 'ychwanegu dim gwerth' i gwsmeriaid a chreu dulliau mwy effeithlon a chost effeithiol o gynnal a gwella, os yn bosibl, y tasgau a'r prosesau hynny sy'n 'ychwanegu gwerth';
- **Newid ymddygiad a diwylliant staff** i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud gan yr unigolyn os yn bosibl yn hytrach na dirprwyo i rywun arall h.y. prosesu geiriau/teipio;
- **Gweithredu nifer o ddatrysiadau TGCh** a fydd yn sicrhau y bydd y ddarpariaeth o rai tasgau yn fwy effeithlon h.y. newid y system Fflecsi bresennol, meddalwedd adnabod llais
- **Lleihau costau cyflenwi a gwasanaethau** yr elfennau sydd ynghlwm yn agos iawn â gweinyddiaeth

### 3.4.2 Adolygiad Gweinyddol

Er mwyn moderneiddio a dod yn fwy hyblyg fel sefydliad mae gofyn i staff gael eu grymuso i fod yn llawer mwy hunangynhaliol. Mae datblygiadau technegol yn darparu'r offer y mae ar fusnesau eu hangen i gyflawni eu gwaith wrth fynd o un lle i'r llall, yn aml y tasgau hynny a ystyrir yn draddodiadol yn waith swyddfa. Bydd yr offer TGCh hyn nid yn unig yn caniatau i'r gweithlu ddod yn fwy ystwyth, ond cânt effaith hefyd ar effeithlonrwydd drwy ganiatau cwblhau gwaith yn gyflymach ac yn y pwynt cyswllt. Yr hyn sydd wedi dod yn glir, trwy groesawu technoleg newydd a gweithio'n ddoethach, yw y gall gael effaith o ran lleihau'r tasgau gweinyddol a gyflawnir yn yr Awdurdod.

Mae dyletswyddau gweinyddol yn disgrifio llawer o dasgau a phrosesau sy'n cefnogi swyddogion eraill ynghyd â gwasanaethau a dinasyddion wrth gyflenwi a derbyn gwasanaethau.

Y tasgau o fewn cwmpas y prosiect hwn yw:

- Post Allanol (papur yn unig) – *ffrancio, logio, cydnabod a danfon yr holl bost papur*
- Gweinyddu Taliadau Arian Parod – *derbyn a gweinyddu taliadau arian parod gan gwsmeriaid*
- Prosesu ceisiadau allanol, hawliadau, trwyddedau ac ati (gan cwsmeriaid) – *mae hyn yn cyfeirio'n benodol at asesu cymhwyster a gwneud penderfyniadau*
- Mewnbynnu Data – *yn enwedig mewnbynnu a dilysu gwybodaeth o ffurflenni papur neu rai a anfonwyd yn electronig i mewn i system(au) gwasanaethau (ni chynhwysir asesu cymhwyster a gwneud penderfyniadau)*
- Archebu a phrosesu anfonebau mewnol – *mae hyn yn cynnwys e.e. deunydd papur, dodrefn, offer TGCh*
- Yn arbennig, ffeilio, adalw, archifo neu rwygo gwybodaeth lle ceir prosesau gweinyddol y mae'n rhaid eu dilyn
- Prosesu Geiriau/ Teipio – *gohebiaeth ac adroddiadau ar gyfer staff/swyddogion/rheolwyr/uwch arweinyddion o e.e. adroddiadau 'mewn llawysgrif', dictaffonau*
- System Oriau Fflecsi a Rheoli Absenoldeb *(e.e. cofnodi oriau flecsi ar gyfer staff o daflenni cofnodi amser papur/electronig, cofnodi addasiadau i oriau fflecsi (gan gynnwys cael cymeradwyaeth rheolwyr lle y bo'n briodol), cofnodi absenoldeb a ffotogopïo/ffeilio taflenni absenoldeb)*
- Hawlio Costau Teithio a Threuliau – *gweinyddu a chyflwyno hawliadau costau teithio a threuliau*



EITHRIEDIG

- Rheoli Cyfarfodydd/Dyddiadur – *cydlynu a bwcio cyfarfodydd ar gyfer staff eraill/swyddogion/rheolwyr/uwch arweinyddion (gan gynnwys rheolaeth gyffredinol o ystafelloedd cyfarfod e.e. Ystafell Bwyllgor 1)*
- Ffotogopïo ac argraffu deunyddiau - *e.e. ar gyfer eu defnyddio mewn cyfarfodydd, copïau ar gyfer ffeiliau papur, rhannu deunydd cyfathrebu cyffredinol*
- Cyngor a Gwybodaeth Arbenigol/bod yn Arbenigwr – *lle mae'r ymateb sydd ei angen yn dibynnu ar wybodaeth drylwyr o'r gwasanaeth sy'n cael ei ddefnyddio/ a/neu wasanaethau cysylltiedig eraill*
- Cyngor a Gwybodaeth Cyffredinol dros y Ffôn neu drwy E-bost – *e.e. ceisiadau sylfaenol am wybodaeth cyfeirio cyffredinol*
- Derbynfa / Blaen y tŷ – *Cyngor cyffredinol wyneb yn wyneb e.e. ceisiadau sylfaenol am wybodaeth cyfeirio cyffredinol, ceisiadau ar gyfer neu gyflwyno ffurflenni cais, gollwng/casglu post neu offer (e.e. Allweddi, bagiau baw cŵn), delio â chesiadau i drefnu cyfarfodydd neu dderbyn rhai sy'n cyrraedd cyfarfodydd*
- Gweinyddu Rhaglenni / Prosiectau – *darparu pob agwedd ar gefnogaeth weinyddol ar gyfer rhaglenni a phrosiectau byw*
- Cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd mewnol *(cyfarfodydd gweithredol lle bo dyletswydd ddeddfwriaethol i gofnodi cofnodion ffurfiol)*
- Cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd allanol *(cyfarfodydd gweithredol lle bo dyletswydd ddeddfwriaethol i gofnodi cofnodion ffurfiol)*
- Cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol lle bo dyletswydd i gofnodi cofnodion ffurfiol

Yn Hydref 2013, gofynnwyd i bob gwasanaeth ystyried canran yr amser a dreuliwyd gan bob un o'u staff gweinyddol yn cyflawni'r tasgau uchod. Fe gafodd y casgliad hwn ei ddilysu wedyn yng Ngorffennaf 2014 gan bob Pennaeth Gwasanaeth.

Mae niferoedd y staff sy'n ymgymryd â chefnogaeth weinyddol a'r tasgau mwyaf llafurus yn amrywio rhwng adrannau. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn swyddogaethau a gyflawnir ac yng ngraddfa a math y galwadau a wneir arnynt gan gwsmeriaid mewnol ac allanol, ac yn bwysig, yn y graddau y grymusir staff nad ydynt yn rhai gweinyddol i fod yn hunangynhaliol yn y gweithgareddau hyn.

Gan ystyried goblygiadau Argymhellion 1 a 2 uchod a'r newidiadau a orfodir ar yr amgylchedd gweithio o ganlyniad iddynt, mae'n gwneud synnwyr bod rhaid i gefnogaeth weinyddol ffitio i mewn i'r strwythur newydd hwn yn hytrach na chreu strwythur o amgylch ein harferion presennol, cyfyngol.

Mae'r arolwg hwn yn darparu'r wybodaeth ar ein cyfer i ganfod meysydd lle gallem fod yn gwneud defnydd mwy effeithlon o'n hadnoddau, ac yn awgrymu os gweithredwn y cynigion o fewn pob un o'r 3 argymhelliad, gallem leihau'r FTE 20% dros 3 blynedd - sy'n arwain i arbediad a ragwelir o £622k dros yr un cyfnod.

Y meysydd allweddol y gellir mynd i'r afael â hwy drwy weithredu'r 3 argymhelliad yw:

- 4.28 FTE – Yn enwedig, ffeilio, adalw, archifo neu rwygo gwybodaeth
- 9.41 FTE – Prosesu Geiriau/Teipio
- 1.52 FTE – Y System Oriau Hyblyg a Rheoli Absenoldebau



ETHRIEDIG

- 3.87 FTE – Ffotogopïo ac argraffu
- 5.16 FTE – Derbynfa / Blaen y tŷ
- 2.84 FTE – Cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd mewnol

Cyflawnir y gostyngiad hwn lle bo'n bosibl drwy staff yn ymadael yn naturiol a diswyddo gwirfoddol. Bydd yn gofyn am gefnogaeth Swyddog Datblygu Gweithlu am 1 flwyddyn i weithio gyda gwasanaethau i ailstrwythuro eu dulliau o gyflawni gweddill y dyletswyddau gweinyddol er mwyn rhyddhau'r arbedion (a nodwyd yn 3.3.5).

**Ffactorau Hollbwysig ar gyfer Rhyddhau'r Arbediad**
Er mwyn rhyddhau'r arbedion drwy'r gostyngiad hwn mewn staff, rhaid mynd i'r afael â dau ffactor hollbwysig:

- Mae'r arbediad yn ddibynnol arnom yn cyflawni'r cynigion a nodir yn Argymhellion 1, 2 a 3. Os na chaiff rhai elfennau eu gyrru yn eu blaenau bydd hyn yn cael effaith ar nifer yr FTEs y gellir eu lleihau.
- Mae'r cyfanswm ar gyfer lleihau FTEs yn cynnwys rhannau bach o rolau llawer o bobl. Bydd angen gwneud gwaith sylweddol drwy gyfnod ychwanegol yn y prosiect (ochr yn ochr â'r cyfnod gweithredu) a fydd yn gofyn am weithio gyda phob gwasanaeth i ailstrwythuro eu trefniadau presennol er mwyn rhyddhau'r FTE gofynnol. Yn ddieithriad, bydd angen gwneud llawer o waith er mwyn llunio proffiliau o'r staff sydd o fewn cwmpas y prosiect, ynghyd â rheoli'r gostyngiad mewn modd teg a chyfiawn, dyna pam mae angen Swyddog Datblygu Gweithlu am gyfnod o 1 flwyddyn.

### 3.4.3 Potensial am Arbedion Pellach ar Dasgau Gweinyddol

Wrth adolygu canfyddiadau'r archwiliad gweinyddol, bu'r prosiect hwn yn ofalus trwy dybio gwneud arbedion dim ond lle bo hyder y gall menter o fewn un o'r 3 argymhelliad ryddhau'r arbediad hwnnw.

Fodd bynnag, mae'n glir o'r canfyddiadau bod cyfleoedd i wneud rhagor o arbedion y gellir eu gwireddu drwy waith y tu allan i'r prosiect hwn, lle bo tystiolaeth o niferoedd sylweddol o staff yn ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol mewn perthynas â (a gynhwysir yn y dyraniad FTE):

- 10.33 FTE – Post Allanol (papur yn unig)
- 2.02 FTE – Gweinyddu Taliadau Arian Parod
- 7.56 FTE – Prosesu ceisiadau allanol, hawliadau, trwyddedau ac ati (gan gwsmeriaid)
- 23.22 FTE – Mewnbynnu data
- 10.62 FTE – Archebu a phrosesu anfonebau mewnol
- 0.49 FTE – Hawliadau Costau Teithio a Threuliau

*Archwilir hyn ymhellach yn adran 4.3.1.*

### 3.4.4 Y System Fflecsi

At ei gilydd, ystyrir fod y system Oriau Fflecsi bresennol yn hen ac yn aneffeithlon. Ar y cyfan, mae oriau hyblyg gweithiwr yn cael ei logio yn defnyddio cerdyn ym man mynediad a gadael y prif adeilad. Os yw gweithwyr yn gweithio o leoliad arall, ar hyn o bryd mae gofyn iddynt geisio caniatâd gan eu rheolwr ac yna fynd drwy weinyddwr i wneud yr addasiad ar y system.

EITHRIEDIG

Ceir enghreifftiau o fewn awdurdodau eraill lle mae gweithwyr yn cael eu grymuso ac ymddiriedir ynddynt i wneud eu haddasiadau eu hunain, gydag adroddiadau monitro ar gael i'w rheolwyr yn amserol.

Os ydym am groesawu diwylliant o ymddiriedaeth ym Môn, mae'n gwneud synnwyr i symud i drefniant tebyg gyda'n staff, lleihau'r baich gweinyddol. Y prif gyfyngiad ar y cynnig hwn yw nad yw'n system gyfredol yn gallu ymdopi â chynnydd mewn defnyddwyr, ac nid yw'r systemau cardiau'n cael eu cefnogi mwyach.

Cynnig y prosiect hwn yw ein bod yn buddsoddi mewn system oriau fflecsi newydd sy'n ddigon cynaliadwy i rymuso gweithwyr i reoli eu horiau hyblyg eu hunain (gydag adroddiadau i Reolwyr). Mae amcangyfrifon cychwynnol yn awgrymu y byddai system newydd yn costio tua £21,000 gan gynnwys costau'r gweinydd. Yn seiliedig ar gostau cynnal blynyddol cyfredol o [redacted] a gyda chardiau HFX yn [redacted] y cerdyn am [redacted] y llynedd, rydym yn talu tua £14,000 y flwyddyn – cost sydd eisoes o fewn cyllidebau presennol ar gyfer unrhyw system newydd.

### 3.4.5 Canllawiau ar Arbedion Effeithlonrwydd ac Arfer Dda

Trwy ddatblygiad y prosiect, nodwyd nifer o agweddau ar arfer oedd yn dda, ynghyd â rhai nad ydynt mor dda. Mae cyfle i ddod â sawl maes gwelliant allweddol at ei gilydd y gellir mynd i'r afael â hwy'n rhannol drwy gynnig yr arweiniad iawn a chyfeirio ymlaen fel y bo'n briodol.

Argymhelliad yr achos hwn yw y dylid datblygu polisi ar gyfer staff ar gyfer arferion gweithio effeithiol, a fydd yn cynnwys darparu ar gyfer y rhagdybiaethau a ganlyn (ond ni fydd wedi'i gyfyngu iddynt o bell ffordd):

- Rhoi terfyn ar gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd mewnol lle nad oes dyletswydd i wneud hynny
- Lle bo'n briodol, dylid defnyddio offer taflunio i rannu dogfennau cyffredin mewn cyfarfodydd (yn hytrach nag argraffu copïau)
- Lle bo'n ymarferol, dylid defnyddio'r e-bost yn hytrach nag anfon llythyrau
- Dylid cael pwyntiau canolog ar gyfer deunyddiau papur ac ati ar gyfer bob gwasanaeth/tîm i annog staff i rannu'r defnydd o adnoddau yn hytrach na bob un ohonynt yn cadw bob eitem eu hunain
- Pan fo'n gwbl angenrheidiol i argraffu dogfennau, dylid eu hargraffu mewn graddlwyd
- Defnyddio'r peiriant ffrancio canolog
- Dylai'r holl wybodaeth am wasanaethau a chwestiynau cyffredin fod ar gael ar dudalennau Rhyngrwyd y Cyngor
- Dylai pob calendr Outlook fod ar gael i bob aelod staff eu gweld o ran cael gwybod a ydyw rhywun yn 'brysur/rhydd' waeth be fo'u lefel
- Rhaid i bob aelod staff sy'n defnyddio Outlook ddiweddaru eu calendrau
- Lle nad oes angen talu, dylai grwpiau calendr fod ar gael ar gyfer ystafelloedd cyfarfod er mwyn i staff eu bwcio

**Bydd rhaid i'r canllawiau hyn gael eu cymeradwyo gan y UDA i sicrhau bod pob gwasanaeth, rheolwr ac aelod staff yn dilyn yr un ymagweddau tuag at yr arferion gweithio doethach hyn.**

I gefnogi polisi o'r fath, mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni'r camau gweithredu a'r canlyniadau a ganlyn:



EITHRIEDIG

- Mae Tîm Corfforaethol y We yn cynllunio i ail-lansio eu gwasanaethau ynghyd â rôl 'Hyrwyddwr y We y Gwasanaeth' i sicrhau bod holl dudalennau allanol a mewnol y Gwasanaeth yn cael eu diweddaru â'r wybodaeth a'r rhifau cyswllt cywir
- Mae TGCh yn paratoi canllawiau i staff ar galendrau Outlook, gan gynnwys defnyddio a rheoli calendrau cyfarfodydd
- Bydd Tîm y Prosiect yn gweithio â Gwasanaethau yn ystod y cyfnod gweithredu i annog y defnydd gorau a mwyaf hyblyg o'r lle sydd ar gael ganddynt, gan gynnwys y syniad o bwyntiau canolog ar gyfer nwyddau papur ac ati
- Bydd yr ystafelloedd cyfarfod mawr arfaethedig yn cynnwys offer fideo a sain wedi'u gosod ynddynt

EITHRIEDIG

# 4. Yr Achos Ariannol

Pwrpas yr achos hwn yw nodi'r cyd-destun ariannol ehangach ac mae'n dangos y bydd argymhellion yr opsiwn a ffefrir yn arwain i gynnig y gellir ei ariannu ac sy'n fforddiadwy, gyda model ariannol ac arbedion arfaethedig cadarn.

## 4.1 Datganiad Cryno

*(Amcangyfrif costau uchaf gyda'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 500 agosaf)*

| | Cyfnod Gweithredu | | |
|---|---|---|---|
| | Bl 1 | Bl 2 | |
| **Cost o Newid nad ydynt yn ailddigwydd (Costau Trosiannol)** | | | |
| ***Refeniw*** *(hariannu o gronfeydd wrth gefn)* | | | **576,000** |
| Costau Dileu Swydd a Diffyg Pensiwn | 371,000 | 101,500 | |
| Staff Cefnogaeth TGCh | 34,500 | 34,500 | |
| Cefnogaeth Datblygu Gweithlu | 34,500 | 0 | |
| *Cyfanswm Costau Refeniw Trosiannol* | **440,000** | **136,000** | |
| ***Cyfalaf*** *(hariannu o ddyraniad cyfalaf)* | | | **1,125,000** |
| Derbynfa | 77,000 | | |
| Costau TGCh Cysylltiedig - Derbynfa | 9,000 | | |
| Cefnogaeth Proffesiynol | 102,500 | | |
| Prif Adeilad | 588,500 | | |
| Neuadd y Sir | 33,000 | | |
| Costau TGCh Cysylltiedig - Prif Adeilad | 34,000 | | |
| Costau TGCh Cysylltiedig - Neuadd y Sir | 11,000 | | |
| Ateb Cyfathrebu Unedig (MS Lync) | 7,500 | | |
| Mynediad o bell | [redacted] | | |
| Storfa ychwanegol ar gyfer Rheoli Cofnodion | 29,500 | | |
| Offer Audio/Gweledol ar gyfer Ystafelloedd Cyfar | 5,000 | | |
| Effeithlonrwydd Ynni: Ffitiadau Golau LED | 151,000 | | |
| System Fflecsi Newydd | [redacted] | | |
| Meddalwedd Adnabod Llais | 2,000 | | |
| *Cyfanswm Costau Cyfalaf Trosiannol* | **1,125,000** | | |
| **Costau/Arbedion Cylchol** | | | |
| ***Costau/Arbedion Refeniw Cylchol*** | | | **-728,600** |
| Derbynyddion Ychwanegol | 0 | 0 | |
| TGCh: Costau BT | 400 | 0 | |
| Ateb Cyfathrebu Unedig (MS Lync) | [redacted] | 0 | |
| Rheoli Cofnodion | 37,000 | 37,000 | |
| Arbedion Effeithlonrwydd Ynni | -21,500 | 0 | |
| Costau Rhedeg Adeiladu | -171,000 | 0 | |
| Costau Cynnal a Chadw System Fflecsi Newydd | 0 | 0 | |
| Gostyngiad mewn staffio | -488,000 | -133,500 | |
| *Cyfanswm Costau/Arbedion Refeniw Cylchol* | **-632,100** | **-96,500** | |
| **Derbyniadau Cyfalaf a amcangyfrifir** | | | |
| ***Derbyniadau Cyfalaf a amcangyfrifir*** | | | **-563,000** |
| Derbyniadau Asedau Cyfalaf | **-563,000** | | |

*Mae Atodiad 7 yn rhoi dadansoddiad manwl fesul argymhelliad gyda'r holl ragdybiaethau.*

**4.1.1 Mae'r crynodeb yn dangos, dros y cyfnod 2 blynedd, y bydd y prosiect yn rhyddhau arbedion net o tua £743k fydd yn cyfrannu at y targedau effeithlonrwydd** ac fe'u priodolir i:

- ostyngiad mewn staff (£621,500)
- effeithlonrwydd ynni (£21,500)
- costau rhedeg adeiladau (£171,000)

**4.1.2 Mae'r gost refeniw o newid anghylchol tua £440k yn y flwyddyn gyntaf a £136k yn yr ail flwyddyn, a fydd yn cael ei sicrhau o'r cronfeydd wrth gefn** i gwmpasu:

- costau dileu swyddi a diffygion pensiwn (£472,500)
- cefnogaeth TGCh am 2 flynedd i gefnogi datblygu a gweithredu (£69,000)
- cefnogaeth Datblygu Gweithlu am 1 flwyddyn i gynorthwyo gwasanaethau yn y gostyngiad deg a chyfartal o'u cyflenwad gweinyddol (£34,500)

*Problem:* Oherwydd cyfyngiadau cael costau diffyg pensiwn ar hyn o bryd, a'r gwerthfawrogiad, o fewn y sefyllfa waethaf, y ceir staff na fydd yn dewis diswyddo gwirfoddol, dylai'r sefyllfa waethaf ddarparu'r goddefiant ar gyfer cynnwys y costau diffyg pensiwn anhysbys hyn (hyd nes y bydd yn briodol i'r prosiect lunio proffil llawn o'r staff sydd o fewn cwmpas y prosiect).

**4.1.3 Disgwylir derbyniadau cyfalaf yn seiliedig ar werth marchnad agored yr adeiladau o fewn cwmpas y prosiect hwn o** [redacted] *(ac eithrio Hen Ysgol Y Graig a safleoedd cysylltiedig lle mae'r derbyniadau cyfalaf yn cael eu priodoli i Ysgol y Bont).* Er y dangosir ym mlwyddyn 1, ni ellir rhagweld pryd y bydd yr asedau yn gwerthu a felly bydd derbynebau yn cael eu cyflwyno i'r 'pot' cyfalaf corfforaethol fel y'i derbyniwyd.

**4.1.4 Mae angen buddsoddiad cyfalaf o tua £1.1m i gyflenwi'r cynigion allweddol ar draws y 3 argymhellion i'w sicrhau drwy'r dyraniad cyfalaf corfforaethol**, a fydd yn darparu:

- ymgymryd ag ailddatblygu'r brif dderbynfa (£77,000)
- ymgymryd ag ailddatblygu'r prif adeilad (£588,500)
- cymorth proffesiynol ar gyfer dylunio (£102,500)
- symud yr ystafelloedd hyfforddi i Neuadd y Sir (£33,000)
- goleuadau ynni effeithlon drwy'r adeilad (£151,000)
- costau TGCh cysylltiedig i: gryfhau'r rhwydwaith, darparu'r caledwedd, ynghyd â phwyntiau diwifr (£54,000)
- prynu datrysiad cyfathrebu unedig (e.e. [redacted] (£7,500)
- Mynediad o bell (e.e. [redacted] (£54,000)
- Lle i storio cofnodion electronig ychwanegol (£29,500)
- Cyfarpar clyweledol ar gyfer ystafelloedd cyfarfod (£5,000)
- System oriau hyblyg newydd (£21,000)
- Prynu meddalwedd adnabod llais (£2,000)

## 4.2 Potensial ar gyfer Arbedion i'r Dyfodol

### 4.2.1 Tasgau Gweinyddol

Wrth adolygu canfyddiadau'r archwiliad gweinyddol, bu'r prosiect hwn yn ofalus i ddim ond tybio arbedion lle bo hyder y gall menter o fewn un o'r 3 argymhelliad gefnogi rhyddhau'r arbediad hwnnw.

Fodd bynnag, mae'n glir o'r canfyddiadau nad oes cyfleoedd i wneud arbedion pellach y gellir eu gwireddu drwy waith y tu allan i'r prosiect hwn, lle bo tystiolaeth o niferoedd sylweddol o staff yn ymgymryd â thasgau gweinyddol mewn perthynas â (a gynhwysir yn y dyraniad FTE):

- 10.33 FTE – Post Allanol (papur yn unig)

EITHRIEDIG

- 2.02 FTE – Gweinyddu Taliadau ag Arian Parod
- 7.59 FTE – Prosesu ceisiadau, hawliadau, trwyddedau allanol (gan gwsmeriaid)
- 23.22 FTE – Mewnbynnu data
- 10.62 FTE – Archebu a phrosesu anfonebau mewnol
- 0.49 FTE – Hawliadau Teithio a Threuliau

Cyfanswm: 54.27FTE

Nid yw lefel y buddsoddiad y byddai ei angen i ryddhau'r arbedion hyn wedi'i archwilio fel rhan o'r prosiect hwn, fodd bynnag gallwn ddefnyddio'r un fformiwlau (gan gynnwys goddefiant o 30% fel cyfartaledd) i awgrymu bod arbedion a amcangyfrifir o tua £870k i'w cyflawni eto yn y maes hwn.

### 4.3.2 Effeithlonrwydd Ynni

Mae'r ABLl yn cynnwys arbedion o ran adnewyddu ffitiadau golau cyfredol yn y prif adeilad gyda ffitiadau golau LED a allai arwain at arbedion trydanol rhwng £13,465 a £17,954 y flwyddyn, am fuddsoddiad o tua £151,000 ar gyfer gwneud y gwaith hwn (gan arwain at ei dalu'n ôl mewn cyfnod o 8 i 11 mlywdd)

Yn ogystal, mae nifer o fentrau arbed ynni y gellid eu harchwilio a fyddai'n darparu arbedion refeniw yn gyfnewid am fuddsoddiad cyfalaf. Dylid nodi y byddai angen arbenigwyr i adolygu dichonoldeb ac addasrwydd rhai o'r cynlluniau hyn ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

**Tyrbin Gwynt**

Mae pedwar deg y cant o'r holl ynni gwynt yn Ewrop yn chwythu dros y DU, gan ei wneud yn wlad delfrydol ar gyfer tyrbinau domestig e.e.:

- System 1kW wedi'i osod ar y to
- System 2.5kW wedi'i osod ar bolyn
- System 6kW wedi'i osod ar bolyn

Gall y costau cyfalaf a gosod ar gyfer system tyrbin gwynt fod yn eithaf uchel o'i gymharu â thechnolegau eraill (e.e. gall system wedi'i osod ar y to gostio tua £2k, gyda system wedi'i osod ar bolyn yn costio tua £15 - £30k). Bydd tyrbinau a osodir ar dŵr neu polyn â chostau gosod arwyddocaol ond yn gallu dal tyrbinau mwy nag system wedi'w folltio i adeilad presennol, ac yn cynhyrchu mwy o drydan.

Bydd arbedion yn dibynnu ar faint a math o dyrbin, amodau gwynt lleol, arbedion maint a chost y trydan sy'n cael ei ddisodli gan ddefnyddio'r tyrbin gwynt. Gall anheddau gwledig neu arfordirol elwa'n fwy o ynni gwynt gan i amodau gwynt lleol yn aml fod yn dda. Gall tyrbin 6kW sydd wedi'i lleoli'n dda ennill ac arbed tua £3,200 y flwyddyn, gan gynnwys tariff cynhyrchu, taliadau allforio ac arbedion ar eich biliau trydan.

**Goleuadau Synhwyrydd Symudiad**

Maent yn cael eu defnyddio'n fwyaf effeithiol mewn mannau sydd yn aml yn wag, gan gynnwys rhai swyddfeydd, warysau, stordai, toiledau, dociau llwytho, coridorau, grisiau, lolfeydd swyddfeydd, ac ystafelloedd cynadledda. Nid yw mannau swyddfa cynllun agored, lle y gall bod un neu fwy o bobl yn



EITHRIEDIG

symud i mewn ac allan drwy gydol y diwrnod gwaith, yn ymgeiswyr da ar gyfer synwyryddion deiliadaeth.

Y ddau fath o synhwyrydd mwyaf cyffredin yw is-goch goddefol (PIR), sy'n gofyn am linell golwg uniongyrchol i symudiad gan ffynhonnell is-goch (gwres); ag ultrasonig, sy'n canfod unrhyw symudiad, pobl neu fel arall (er enghraifft, llenni).

Gellir prynu switshis deiliadaeth ystafell yn fasnachol o £37 y synhwyrydd.

Amcangyfrifir bod 70% o ddefnydd goleuo y DU yn cael ei ddefnyddio mewn cymwysiadau masnachol. Mae astudiaethau o nifer o ystafelloedd mewn amgylcheddau masnachol gwahanol wedi'w gosod gyda synwyryddion deiliadaeth, yn dangos bod ar gyfartaledd, gallai arbed 41% o gostau goleuo.

**Ynni Solar i Fusnesau**

Ynni'r haul yw'r math glanaf o ynni sy'n hysbys i ddyn gan ei fod yn ddi-lygredd ac felly yn helpu i leihau allyriadau carbon. Ar wahân i fod yn ffynhonnell ynni adnewyddadwy, nid oes costau cynnal a chadw i ynni solar gan nad oes angen unrhyw fath o waith cynnal a chadw rheolaidd ar y paneli iddynt weithio'n effeithlon.

Gall defnyddio ynni solar ar gyfer swyddfeydd a busnesau fod yn weithgaredd sy'n cynhyrchu incwm yn ei hun gan y gall yr ynni dros ben cael ei werthu i'r Grid Cenedlaethol, fel y digwyddodd yn 2005 pan ddechreuodd CIS Tower werthu ei ynni dros ben i'r Grid Cenedlaethol a thrwy hynny ennill incwm ychwanegol.

Fodd bynnag, efallai y bydd cost cychwynol gosod paneli solar yn profi'n uchel gan fod y broses yn cynnwys ac yn ofynnol ar arwyneb mawr i osod y paneli. Mae gweithgarwch priodol paneli solar yn cael ei lesteirio gan y dirwedd o'u hamgylch, llygryddion amgylcheddol, gorchudd cwmwl a'r tywyllwch sy'n rhwystro pelydrau'r haul a thrwy hynny yn gorfodi defnydd batri i storio'r ynni ar gyfer achlysuron o'r fath.

Mae system solar PV domestig, ar gyfartaledd yn 4kW, ac yn gyfartalog yn costio rhwng £6,000 a £7,400 (yn cynnwys TAW o 5%).

Gall system 4kW gynhyrchu tua 3,700 awr cilowat o drydan y flwyddyn - sy'n cyfateb yn fras i anghenion trydan cartref nodweddiadol. Bydd yn arbed bron i ddwy dunnell o garbon deuocsid bob blwyddyn. Mae gan arbedion y flwyddyn y potensial i gyrraedd £695 yn seiliedig ar un panel solar 3.5kw.



EITHRIEDIG

# 5. Yr Achos Masnachol

## 5.1 Caffael

Er mwyn rhoi Gweithio Ystwyth ar waith rhaid ymgymryd â gwariant sylweddol ar offer, addasu adeiladau, systemau gwybodaeth a seilwaith TG.

Bu'r Swyddog Caffael yn chwarae rhan drwy'r prosiect yn darparu cyngor ac arweiniad ar yr amryw faterion caffael, yn archwilio fframweithiau presennol ynghyd â chontractau sydd ar gael i gefnogi'r broses brynu.

Wrth symud ymlaen, bydd y Swyddog Caffael yn cynorthwyo i ganfod bylchau lle bo angen cynnal cylch llawn y broses gaffael, ac amcangyfrif amserlen y broses hon, a fydd yn llywio'r Cynllun Prosiect ar gyfer rhoi meddalwedd newydd a newidiadau strwythurol ar waith.

Bydd yr amserlenni a'r union fanylion yn newid yn ôl argaeledd y cynnyrch sy'n cael ei gaffael ynghyd â gwerth y pryniad yn unol â pholisi CSYM a deddfwriaeth yr UE.

Bydd *Rheolwr y Rhaglen Gweithio'n Ddoethach* yn parhau i weithio â'r Swyddog Caffael i sicrhau bod uniondeb ac arfer dda yn cael eu dangos yn glir a'u bod yn cael gwerth am arian.

EITHRIEDIG

# 6. Yr Achos Rheoli


## 6.1 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen (Gweithredu)

Er mwyn sicrhau bod yr amryw gynigion o fewn yr argymhellion yn cael eu cyflenwi'n llwyddiannus, bydd y prosiect yn parhau i gael ei gyflenwi drwy amgylchedd PRINCE2. At ei gilydd, bydd gweithredu'r prosiect yn cynnwys tri maes gwaith:

- ailstrwythuro adeiladau a symud gwasanaethau
- meddalwedd TGCh newydd
- rheoli'r newid a datblygu'r gweithlu (gweler 6.4)

Bydd hyn yn gofyn i ni barhau fel *Rhaglen (Gweithio'n Ddoethach)*, gyda phob maes yn cael eu sefydlu fel 'Prosiectau Gweithredu' cyd-ddibynnol. Rheolir y prosiect o fewn capasiti'r CPMO, gyda phob prosiect yn cael ei reoli gan y *Rheolwr Asedau Corfforaethol*, y *Swyddog TGCh* (swydd newydd dros dro) a'r *Swyddog Datblygu Gweithlu* (swydd newydd dros dro) yn y drefn honno. Bydd pob prosiect yn manteisio ar gefnogaeth ac arbenigedd Tîm Prosiect(au) craidd.

Bydd y Rhaglen yn adrodd i fyny i Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid Busnes i sicrhau y cyflawnir cynnydd yn ôl cerrig milltir.




ETHOLEDIG

## 6.2 Gwerthuso ar ôl y Prosiect a Gwireddu'r Buddion

Fel rhan o ddull rheoli'r rhaglen, bydd pob prosiect yn cael ei gau drwy ddatblygu ac 'arwyddo' dogfen Cau'r Prosiect. Un o nodweddion allweddol y ddogfen hon yw cipio'r gwersi a ddysgwyd fel y gellir manteision arnynt mewn prosiectau eraill o fewn y sefydliad.

Cyflawnir diwedd y rhaglen pan fo'r cynigion allweddol a nodir o dan bob un o'r argymhellion yn eu lle i alluogi Gweithio'n Ddoethach. Fodd bynnag, gwireddir llawer o'r buddion nad ydynt yn rhai ariannol ar ôl i'r rhaglen ddod i ben yn ffurfiol. Ar ôl diwedd y rhaglen bydd angen monitro ac adolygu Gweithio'n Ddoethach yn barhaus i sicrhau ei bod yn dal i ddiwallu anghenion a disgwyliadau'r sefydliad. I alluogi'r cyflawni'r adolygiad hwn llunnir Cynllun Adolygu Buddion. Bydd hwn yn cynnwys:

- Cynllun i fonitro ac adolygu cynnydd Gweithio'n Ddoethach dros gyfnod o 5 mlynedd
- Rhoi mecanweithiau perfformiad yn eu lle i sicrhau cynnal ansawdd a bod buddiannau'n dal i gael eu cyflawni
- Rhoi prosesau yn eu lle i adrodd a datrys unrhyw broblemau mewn perthynas â pherfformiad neu gydymffurfiaeth

## 6.3 Rheoli Risg a Datrys Problemau

Mae'r prosiect presennol wedi mabwysiadu methodoleg rheoli risg, gan nodi'r prif risgiau a manylu ynghylch camau lliniaru i leihau'r lefel risg. Adolygir risgiau gan y Tîm Prosiect cyn cyflwyno adroddiad at ddibenion monitro ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Rhaglen er mwyn nodi unrhyw newidiadau ac ychwanegu unrhyw risgiau newydd all godi.

Er mwyn lleihau'r risgiau, ymgymerir â'r canlynol:

- Cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar risgiau i Fwrdd Rhaglen Gweithio'n Ddoethach
- Neilltuo cyfrifoldeb clir am nodi a datrys risgiau
- Monitro i sicrhau y ceir rhybudd buan o risgiau sy'n codi ac felly ar gyfer cymryd camau lliniarol
- Integreiddio camau i reoli risg o fewn prosesau rheoli mewnol y rhaglen

*Gellir gweld y gofrestr risg bresennol yn Atodiad 1.*

Yn ogystal â risgiau, gall materion godi sydd angen eu datrys. Materion fel:

- Risgiau a nodwyd sydd bellach wedi codi
- Newidiadau i ran o'r rhaglen
- Problem neu gwestiwn sy'n effeithio'r gallu i gyflenwi'r rhaglen mewn rhyw fodd.

Bydd proses o fewn pob prosiect ar gyfer cipio a chofnodi materion fel y maent yn codi, ac ar gyfer dynodi cyfrifoldeb am eu datrys.

Wrth symud i'r cyfnod geithredu, cydnabyddir y bydd y tri risg uchel yn dod i'r amlwg mewn perthynas â:

- *TGCh* - Nid yw'r datblygiad sy'n ofynnol mewn TGCh yn cael ei wireddu i'r graddau sy'n ofynnol i fod yn sail ar y gwaith sylweddol a thrawsnewid diwylliannol hyn
- *Cyllid* - Nid yw'r arbedion yn cael eu rhyddhau ar amser neu at y swm a ddisgwylir
- *Morâl Staff* - Y risg nad ydym yn ymgysylltu ac ymgynghori'n effeithiol â staff gan arwain at ymwrthedd i newid

EITHRIEDIG

## 6.4 Rheoli Newid

### 6.4.1 Arddull Rheoli

Mae rheoli Gweithwyr Ystwyth/Hyblyg yn gofyn am arddull rheoli sy'n canolbwyntio ar allbynnau yn hytrach na mewnbynnau. Felly, mae'n rhaid i reolwyr a'u gweithwyr hoelio sylw ar berfformiad, gan gynnwys cynhyrchiant ac ansawdd y gwasanaeth yn hytrach nag ar amser a phresenoldeb.

NId yw hyn yn golygu ymwrthod â chyfrifoldeb. Mae mwy o angen fyth am gyfarfodydd unigol a/neu gyfarfodydd tîm lle mae targedau perfformiad ac amcanion gwaith yn cael eu cytuno, eu monitro, eu hadolygu a'u diwygio.

Yn y cyfnodau rhwng cyfarfodydd a dulliau cyfathrebu eraill, bydd gan weithwyr fwy o ymreolaeth na fyddai ganddynt fel arfer yn achos staff swyddfa. O ganlyniad, mae ymddiriedaeth rhwng y rheolwr a'r gweithiwr o'r pwys mwyaf. Mae angen i reolwyr ymddiried mewn gweithwyr i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau wrth sicrhau y darperir cefnogaeth a chymorth wrth gefn yn nhermau llif gwaith, systemau, gweithdrefnau, cyfarpar, gweinyddiaeth a chefnogaeth cymheiriaid/timau.

Mae rheoli Gweithwyr Ystwyth/Hyblyg yn dibynnu ar gyfathrebu a systemau gwybodaeth da sy'n briodol i'r tîm a'i dasgau. Mae hefyd yn gofyn am well ymwybyddiaeth o ddynameg timau a gallu unigolion i weithredu y tu allan i weithle sefydlog, yn ogystal â rheoli perfformiad yn gadarn.

### 6.4.2 Rheoli Perfformiad

Mae Gweithio'n Ystwyth/Hyblyg yn amlygu'r angen i reolwyr fod yn fedrus - ac yn hyderus - yn eu gallu i reoli perfformiad eu tîm. Mae gosod amcanion neu dargedau ar gyfer unigolion, fel y gellir mesur perfformiad yn erbyn allbynnau, yn elfen bwysig o sicrhau bod rheolwyr yn dal i deimlo eu bod wrth y llyw o ran eu bod yn rheoli perfformiad eu tîm - hyd yn oed os nad yw aelodau o'r tîm bob amser yn yr un lle yn gorfforol ac ar yr un amser.

Mae rhai swyddi ac allbynnau gwasanaeth yn haws i'w mesur oherwydd bod data o ran allbynnau cynhyrchiant ar gyfer gwasanaethau, timau ac unigolion yn ddangosydd perfformiad allweddol. Lle na ellir mesur cynhyrchiant gan system, bydd rhaid i reolwyr sicrhau bod amcanion yn ddigon heriol a bod digon ynddynt i "ymestyn" pethau a sicrhau'r lefelau cynhyrchiant gorau bosib. Yn ogystal, gall rheolwyr drafod gydag unigolion yr hyn fydd yn fesur ystyrlon o gynhyrchiant yng nghyd-destun rôl swydd. Gellir hefyd ystyried adborth gan gydweithwyr eraill o ran darparu mesur "cymharol" mewn cymhariaeth â chydweithwyr eraill.

Dylid defnyddio system rheoli perfformiad fel offeryn i sicrhau bod gweithwyr a'u rheolwr yn cytuno ar amcanion. Mae angen i reolwyr felly fod yn fedrus mewn rheoli perfformiad a gosod targedau. Dylent allu gwerthuso llwyddiant drwy'r hyn a gyflawnwyd ac, yn hanfodol, gwerthuso pwy sydd wedi cyfrannu at yr hyn a gyflawnwyd. Mae canfod anawsterau a delio â hwy yn gynnar yn hanfodol, fel y mae sicrhau bod Gweithwyr Ystwyth/Hyblyg yn cael yr un cyfleoedd i gael dyrchafiad ac i ddatblygu â'u cydweithwyr a leolir mewn swyddfa.

Ymgymerir â Chynllun Gwerthuso presennol CSYM yn flynyddol ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gyfleoedd i ddatblygu yn hytrach na mewnbynnau a chanlyniadau o ran perfformiad. Mae hefyd yn mesur nodweddion a chymwyseddau yn erbyn fframwaith cymwyseddau'r Awdurdod. Yn amlwg, os yw'r Awdurdod am fabwysiadu dulliau Gweithio Ystwyth neu Ddoethach yn rhaid diwygio'r cynllun fel bod rheolwyr yn cyfarfod â'u gweithwyr yn amlach a bod targedau sy'n canolbwyntio ar

ganlyniadau ac amcanion yn cael eu gosod yn aml fel bod gweithwyr sy'n gweithio i ffwrdd o'u lleoliad gwaith arferol yn ymwybodol o'u targedau a'u llwyth gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng cyfathrebu.

Mae'n arbennig o bwysig felly bod gan Weithwyr Ystwyth/Hyblyg flaengynllun neu restr gwaith. Bydd hwn yn darparu fframwaith i'r rheolwr a'r gweithiwr gyflawni dealltwriaeth gyffredin a gallu i fonitro pa waith a gaiff ei gyflawni a'i gynhyrchu'n ddyddiol/yn wythnosol/yn fisol/yn chwarterol (dylid monitro ansawdd a maint y gwaith a gyflawnir). Gallai systemau monitro gynnwys cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd, cyfarfodydd i drafod cynnydd swyddi presennol neu ddim ond cadw cysylltiad yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion neu broblemau nad ydynt wedi'u datrys.

### 6.4.3 Amser gwaith

Mae natur gweithio'n ystwyth/hyblyg yn golygu, o safbwynt rheoli, bod presenoldeb a'r amser a weithir gan weithwyr yn llai pwysig na chyflawni amcanion perfformiad, gan gynnwys cynhyrchiant a chanlyniadau o safon.

Gweithwyr sy'n gyfrifol am reoli eu hamser a'u presenoldeb eu hunain. Fodd bynnag, gan fod gofyniad iechyd a diogelwch, o dan y Rheoliadau Amser Gwaith, i roi cyfrif am amser gweithio, mae'r angen am gofnodion presenoldeb yn parhau. Felly rhaid i reolwyr sicrhau bod rhyw fath o gofnodion presenoldeb yn cael eu cwblhau gan y gweithiwr a'u bod yn cael eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Yn ogystal, os oes gofyn i weithwyr weithio y tu hwnt i led band diwrnod gwaith y Cyngor neu weithio goramser, mae angen y wybodaeth hon er mwyn talu'r cyflog cywir.

Bydd Gweithwyr Ystwyth/Hyblyg yn gymwys i ymgeisio am geisiadau gweithio hyblyg 'traddodiadol' ar yr un sail ag unrhyw weithiwr arall ac yn amodol ar yr ystyriaethau arferol o ran gweithio hyblyg (e.e. gweithio oriau cywasgedig, gweithio rhan-amser ac ati). Am resymau busnes efallai na fydd yn bosibl cytuno i geisiadau penodol.

### 6.4.4 Sgiliau Rheoli Allweddol

Cynhwysir y sgiliau allweddol a ganlyn yn fframwaith cymhwysedd yr Awdurdod a bydd angen eu harddangos wrth reoli gweithwyr ystwyth:-

*Sgiliau Cyfathrebu*

Rhaid i reolwyr siarad â phobl yn gyson, p'un a ydynt yn y gweithle drwy'r amser ai peidio. Mae holi sut mae pethau'n mynd a cheisio eu barnau ar heriau o ran busnes yn dangos bod eu cyfraniad yn dal yn werthfawr. Mae angen cyfathrebu da ar gyfer negodi newid, adolygu trefniadau gweithio ac awgrymu gwelliannau.

*Cynllunio a Threfnu i Sicrhau Gweithio fel Tîm ac Mewn Partneriaeth*

Mae rheolwyr yn gyfrifol am gyflawni nodau busnes a chyflawni canlyniadau, gyda chyfrifoldeb uniongyrchol a rheolaeth dros drefnu adnoddau. Gyda thîm sy'n gweithio yn ôl gwahanol amserlenni, rhaid cynllunio cyfarfodydd yn ofalus ar adegau pan all pawb fod yn bresennol. Gallai fideo-gynadledda fod yn bosibl os yw'n anodd cael pawb at ei gilydd. Gall bod angen cytuno ar oriau dyddiol eraill, neu amser penodol bob wythnos pan ddisgwylir i bawb fod yn bresennol ar gyfer cyfarfodydd ac adegau trosglwyddo.

EITHRIEDIG

**ATODIAD 1**

*Arddangos Effeithiolrwydd mewn Rôl*

Mae'n bwysig gosod disgwyliadau ac amcanion clir a gwirio cynnydd pobl yn rheolaidd trwy eu cyfarfod, ond nidmtrwy eu "microreoli". Dylid mesur eu perfformiad yn ôl canlyniadau yn hytrach na'r oriau a dreulir ganddynt yn eu gwaith. Dylid osgoi eu barnu am eu rhesymau am weithio'n hyblyg, os ydynt yn gyflawni'r dasg. Mae adroddiad diweddar o Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y DU yn dweud "presence does not equal performance".

Er mwyn goruchwylio staff sy'n gweithio'n hyblyg mae angen i reolwyr hoelio sylw'n benodol ar amcanion, canlyniadau ac allbynnau, yn hytrach na gweithgareddau neu fewnbynnau. Er enghraifft, gan ystyried yr amcanion a nodwyd ar gyfer y sefydliad yn ei gyfanrwydd, gall y rheolwr nodi amcanion penodol i bob aelod staff eu cyflawni o fewn amserlenni a gytunwyd. Gall y rheolwr osod amcanion manylach ar gyfer gweithwyr sy'n dilyn trefniadau gweithio hyblyg i gynorthwyo i fonitro cynnydd, neu gall sefydlu diweddariadau ffurfiol yn amlach, gan gydnabod bod llai o gyfle i ymgymryd â goruchwylio a gwerthuso anffurfiol.

*Arwain a Rheoli*

Mae rhai rheolwyr yn teimlo eu bod yn colli rheolaeth os nad ydynt yn cael cadw llygad barcud ar weithwyr. Mae hyblygrwydd yn golygu rhoi cyfrifoldeb i unigolion ac ymddiried ynddynt i wneud eu gwaith. Gellir dadalau y dylid mynd ati yn yr un modd i fonitro perfformiad gweithwyr llawn-amser a leolir mewn swyddfa.

*'Managing people who work flexibly or remotely means that you just have to do more of what you should be doing anyway. You have to be more focused on outcomes, better at communication, more explicit about your expectations, more regular about checking that work is going the right way. You might have to schedule short, but more frequent, calls to chat with somebody working for you in another place. Team communication won't happen by accident when you walk by someone's desk, so you have to create that time deliberately.'*
***Alison Gregory,** Uwch Ymgynghorydd Rheoli, IBM*

*Mae Atodiad 8 yn rhoi rhywfaint o gyngor ynghylch rheoli gweithwyr a thimau sy'n gweithio'n ystwyth.*

EITHRIEDIG

Tudalen 64

# Atodiad 1: Cofrestr Risg Prosiect Gweithio'n Ddoethach

| Cyfeirnod Risg | Risg a Amlygwyd | | Lefel Risg Briodol | | | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth Angenrheidiol | | | Lefel Risg sy'n Weddill | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disgrifiad o'r Risg | Goblygiadau | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Adolygu Risg | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr |
| **R1** (01/10/13) | Staff yn gyndyn o newid | ▪ Diffyg ymrwymiad a staff yn gyndyn o ymgysylltu a chyfrannu at y newid<br>▪ Nid yw staff yn mabwysiadu'r newidiadau i mewn i'w harferion gweithio yn unol â'r diwylliant newydd<br>▪ Effeithio ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ **Anallu i wireddu manteision y prosiect yn llawn** | 4 | 4 | 16 | - Sefydlu Grŵp Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i Staff i gynnwys trawsdoriad o staff wrth ddatblygu'r prosiect o'r cychwyn cyntaf;<br>- Sicrhau bod y negeseuon allweddol yn cael eu cyfathrebu'n rheolaidd a'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'r staff yn yr amgylchedd newydd er mwyn dangos cynnydd a chael cefnogaeth gynyddrannol;<br>- Cyflwyniad/arddangosiad TGCh yng nghyntedd prif adeilad y Cyngor i alluogi staff i ragweld y datrysiadau technolegol ar gyfer gweithio'n symudol;<br>- Ymgysylltu â'r Rheolwyr rheng ganol drwy gynhadledd y rheolwyr rheng ganol i egluro manteision y prosiect a chael eu cefnogaeth ar gyfer ei weithredu<br>- Ymgysylltu â staff drwy ymgynghoriad gan eu galluogi i rannu eu barn ar syniadau'r cynigion; | - | 22/10<br>13/2/14<br>11/06/14 | ~~3~~<br>~~2~~<br>2 | 4<br>4<br>4 | ~~12~~<br>~~8~~<br>8 |
| **R2** (01/10/13) | Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn gyndyn o newid | ▪ Diffyg ymrwymiad a Phenaethiaid Gwasanaeth yn gyndyn o ymgysylltu a chyfrannu at y newid<br>▪ Diffyg cefnogaeth gan Reolwyr i newid y dull o reoli, ac ar gyfer staff sy'n newid eu harferion gweithio yn unol â'r diwylliant newydd<br>▪ Effaith ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da | 4 | 4 | 16 | - Sicrhau bod Penaethiaid Gwasanaeth yn cael rhybudd o 48 awr cyn unrhyw gyfathrebu â staff i ddangos cynnydd a chael cefnogaeth gynyddrannol;<br>- Darparu diweddariadau yng nghyfarfodydd y Penaethiaid yn ôl yr angen gan roi enghreifftiau | - | 22/10<br>13/2/14 | ~~3~~<br>2 | 4<br>4 | ~~12~~<br>8 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | bryd<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ **Anallu i wireddu manteision y prosiect yn llawn** | | | | 'gwirioneddol' iddynt o Awdurdodau eraill sydd wedi gweithredu gweithio hyblyg ac a ystyrir fel arfer orau | | | | | |
| **R3**<br>(01/10/13) | Blaenoriaethau corfforaethol yn gwrthdaro gyda chefnogaeth wleidyddol isel o ganlyniad | ▪ Dim cefnogaeth ar gyfer yr opsiwn dewisol<br>▪ Nid yw'r prosiect yn llwyddo i gyrraedd y pwynt gweithredu<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ **Amcanion y prosiect heb eu cwblhau**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib**<br>▪ **Anallu i wireddu manteision y prosiect** | 3 | 5 | 15 | - Ymgysylltu/cyfathrebu negeseuon allweddol yn rheolaidd a rhoi enghreifftiau 'gwirioneddol' iddynt o Awdurdodau eraill sydd wedi gweithredu gweithio hyblyg ac a ystyrir fel arfer orau er mwyn dangos y manteision posib;<br>- Ymgysylltu â'r Cyngor cyfan i egluro manteision y prosiect, ymateb i unrhyw bryderon a cheisio cefnogaeth;<br>- Sicrhau bod Aelodau etholedig yn cael rhybudd o 48 awr cyn unrhyw gyfathrebu â staff i ddangos cynnydd a chael cefnogaeth gynyddrannol | - | | 2 | 5 | 10 |
| **R4**<br>(01/10/13) | Nid yw'r Achos Busnes Llawn yn cael ei gyflawni mewn da bryd (~~Chwef 2014~~) (Dyddiad wedi'i newid – Hydref 2014) | ▪ Nid yw'r prosiect yn llwyddo i gyrraedd y pwynt gweithredu<br>▪ Effeithio ar allu'r prosiect hwn i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Hyder corfforaethol mewn capasiti i wireddu'r prosiect wedi ei golli<br>▪ **Y dull corfforaethol o ddyrannu a rheoli asedau wedi ei gyfyngu**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib yn y flwyddyn ariannol nesaf** | 3 | 4 | 12 | - Defnyddio Taflen Fonitro i sicrhau bod y pecynnau gwaith sy'n bwydo i mewn i'r achos busnes llawn ar y trywydd cywir ac yn cael eu cwblhau yn brydlon;<br>- Aroddiadau rheolaidd o uchafbwyntiau i'r Bwrdd Prosiect i ddangos cynnydd<br>- Pecyn gwaith terfynol wedi ei ddatblygu gyda chamau gweithredu penodol wedi eu rhannu â'r swyddogion/gwasanaethau perthnasol | - | 4/08/14 | ~~2~~<br>1 | 4<br>4 | ~~8~~<br>4 |
| **R5**<br>(01/10/13) | Mae arafwch y prosiect yn atal unrhyw arloesedd a gwelliant parhaus ar lefel Gwasanaeth | ▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ Cyfleoedd i gynyddu gweddnewidiad ar lefel gwasanaeth wedi ei golli<br>▪ Diffyg parodrwydd ac ymrwymiad gan staff a rheolwyr i ymgysylltu â'r newid a chyfrannu ato<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff | 2 | 2 | 4 | - Pryderon lefel gwasanaeth yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Prosiect i argymell i'r UDA y dylid gwneud penderfyniad y tu allan i amserlen y Prosiect;<br>- Sicrhau bod y sgôp yn ddigon cryno er mwyn atal unrhyw lithriant yn y sgôp a mygu penderfyniadau lefel gwasanaeth | - | | 1 | 2 | 2 |

**ATODIAD 1**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **R6**<br>(01/10/13) | – Mae arloesedd a gwelliant parhaus ar lefel Gwasanaeth yn gwrthdaro â chyfeiriad/nodau strategol y prosiect | ▪ Mae'r Awdurdod yn canfod ei hun mewn sefyllfa o ddiffyg buddsoddiad yn dilyn gweithredu newidiadau ar hap ar lefel gwasanaeth<br>▪ Yn effeithio ar allu'r prosiect hwn i gyflawni mewn da bryd oherwydd yr angen i adfer materion o ddiffyg buddsoddiad | 2 | 2 | 4 | - Ceisiadau lefel gwasanaeth i gynnal gwaith gweddnewidiol i'w hystyried gan y Bwrdd Prosiect yn ôl yr angen – bydd angen cyfarwyddyd Corfforaethol ar gyfer unrhyw gais o'r fath i'w cymeradwyo drwy Reolwr Prosiect Gweithio'n Ddoethach | - | | 1 | 2 | 2 |
| **R7**<br>(01/10/13) | Mae'r prosiectau cyd-ddibynnol yn mynd y tu hwnt i'w hamserlenni mwn meysydd sy'n angenrheidiol er mwyn gwireddu'r prosiect hwn | ▪ Yn effeithio ar allu'r prosiect hwn i gyflawni'r Achos Busnes Llawn mewn da bryd<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ **Y dull corfforaethol o ddyrannu a rheoli asedau wedi ei gyfyngu**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib yn y flwyddyn ariannol nesaf** | 3 | 4 | 12 | - Cyfarfodydd rheolaidd i'w sefydlu rhwng y Rheolwyr Prosiect yr holl brosiectau cyd-ddibynnol er mwyn adolygu cynnydd;<br>- Codi unrhyw faterion a gyfyd mewn cyfarfodydd rhwng rheolwyr prosiect gyda noddwr y prosiect i gael cymorth ac i liniaru yn ôl yr angen | - | | 2 | 4 | 8 |
| **R8**<br>(01/10/13) | Mae diffyg cynllunio ac ymgynghori effeithiol mewn perthynas â newid amodau gwaith neu ddiswyddiadau/adleoli (o ganlyniad i newid mewn arferion gweithio) | ▪ Diffyg parodrwydd ac ymrwymiad gan staff a rheolwyr i ymgysylltu â'r newid a chyfrannu ato<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Pwysau ychwanegol ar gyllidebau oherwydd costau trosiannol ynghlwm â diswyddo/adleoli<br>▪ Arbenigedd a phrofiad wedi ei golli o'r gweithlu yn sgil ofn yr anhysbys<br>▪ Materion o ddiogelwch personol lle ni ystyriwyd Iechyd a Diogelwch yn gywir | 4 | 3 | 12 | - Ymgysylltiad cynnar gydag Undebau Llafur;<br>- Ymgysylltiad cynnar gydag Adnoddau Dynol;<br>- Ymgysylltiad cynnar gydag Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | - | | 3 | 3 | 9 |
| **R9**<br>(01/10/13) | Mae'r diffyg capasiti, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cefnogol, yn effeithio ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd | ▪ Nid yw'r prosiect yn llwyddo i gyrraedd y pwynt gweithredu<br>▪ Yn effeithio ar allu'r prosiect hwn i gyflawni'r Achos Busnes Llawn mewn da bryd<br>▪ **Y dull corfforaethol o ddyrannu a rheoli asedau wedi ei gyfyngu**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib yn y flwyddyn ariannol nesaf** | 3 | 4 | 12 | - Bwrdd Prosiect (gan gydweithredu â'r Penaethiaid Gwasanaeth) i flaenoriaethu gwaith angenrheidiol unwaith y bydd yr hoff opsiwn wedi ei adnabod;<br>- R9 i'w adolygu unwaith y bydd y cyfeiriad o safbwynt yr hoff opsiwn yn fwy eglur;<br>- Cynnal cyfarfod gyda TGCh i gytuno ar amerlen cyflawni'r pecyn gwaith terfynol | - | 22/08/14 | ~~3~~<br>2 | 4<br>4 | ~~12~~<br>8 |
| **R10**<br>(01/10/13) | Nid oes digon o adnoddau ar gael i gefnogi'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â'r gweddnewidiad hwn | ▪ Nid yw'r prosiect yn llwyddo i gyrraedd y pwynt gweithredu<br>▪ Effaith ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Hyder corfforaethol mewn capasiti i wireddu'r prosiect wedi ei golli | 4 | 5 | 20 | - Bwrdd Prosiect (gan gydweithredu â'r Penaethiaid Gwasanaeth) i flaenoriaethu gwaith angenrheidiol unwaith y bydd yr hoff opsiwn wedi ei adnabod; | - | | 4 | 5 | 20 |

EITHRIED

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ▪ Ni ellir bodloni materion o effeithlonrwydd yn llawn<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ **Amcanion y prosiect heb eu cwblhau**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib Anallu i wireddu manteision y prosiect yn llawn** | | | | - Rhagdybiaeth ariannol o'r hoff opsiwn i'w chynnal gyda'r Swyddog adran 151<br>- R10 i'w adolygu unwaith y bydd y cyfeiriad o safbwynt yr hoff opsiwn yn fwy eglur; | | | | | |
| **R11** (01/10/13) | Mae gormod o flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd o fewn yr Awdurdod | ▪ Adnoddau annigonol i gefnogi gweithredu'r opsiwn dewisol<br>▪ Effeithio ar allu'r prosiect i gyflawni mewn da bryd<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu<br>▪ **Y dull corfforaethol o ddyrannu a rheoli asedau wedi ei gyfyngu**<br>▪ **Ni ellir gwireddu'r elfennau effeithlonrwydd posib yn y flwyddyn ariannol nesaf** | 3 | 3 | 9 | - Bwrdd Prosiect (gan gydweithredu â'r Penaethiaid Gwasanaeth) i flaenoriaethu gwaith angenrheidiol unwaith y bydd yr hoff opsiwn wedi ei adnabod;<br>- R11 i'w adolygu unwaith y bydd y cyfeiriad o safbwynt yr hoff opsiwn yn fwy eglur;<br>- Prosiect wedi ei adnabod fel un o flaenoriaeth UCHEL o fewn swît prosiectau Bwrdd Prosiect BT | - | *22/08/14* | ~~3~~<br>2 | ~~3~~<br>3 | ~~9~~<br>6 |
| **R12** (01/10/13) | Mae'n effeithio ar safon a darparu'r Gwasanaeth yn ystod ac ar ôl gweithredu'r opsiwn dewisol | ▪ Argraff negyddol am yr Awdurdod gan y cyhoedd – niwed i enw da<br>▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Ysgogiad gan reolwyr yn lleihau wrth gefnogi'r agenda o weddnewid – gwrthwynebiad yn cynyddu | 2 | 4 | 8 | - R12 i'w adolygu unwaith y bydd y cyfeiriad o safbwynt yr hoff opsiwn yn fwy eglur; | - | | 2 | 4 | 8 |
| **R13** (01/10/13) | Nid yw'r prosiect yn ymgysylltu'n llwyr â'i randdeiliaid allweddol | ▪ Effaith negyddol ar ysbryd staff<br>▪ Diffyg parodrwydd ac ymrwymiad gan staff a rheolwyr i ymgysylltu â'r newid a chyfrannu ato<br>▪ Diffyg cefnogaeth gan Reolwyr i newid y dull o reoli, ac ar gyfer staff sy'n newid eu harferion gweithio yn unol â'r diwylliant newydd<br>▪ Rheoleiddwyr - ?! | 3 | 3 | 9 | - Sicrhau bod Cynllun Cyfathrebu cadarn yn ei le ac yn cael ei ddilyn yn ôl yr angen;<br>- Defnyddio Matrics Cyfathrebu o fewn Dogfennaeth y Prosiect er mwyn adnabod gyda phwy y dylid cyfathrebu â nhw, am ba reswm a pha bryd;<br>- Sefydlu Grŵp Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i Staff i gynnwys trawsdoriad o staff wrth ddatblygu'r prosiect o'r cychwyn cyntaf;<br>- Sicrhau cyfathrebu'n rheolaidd â staff er mwyn dangos cynnydd a chael cefnogaeth gynyddrannol;<br>- Ymgysylltu â'r Rheolwyr rheng ganol drwy gynhadledd y | - | | 2 | 3 | 6 |

**ATODIAD 1**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | rheolwyr rheng ganol i egluro manteision y prosiect a chael eu cefnogaeth ar gyfer ei weithredu | | | | | |

Tebygolrwydd:
1 = Prin
2 = Annhebygol
3 = Posibl / Cymedrol
4 = Tebygol
5 = Bron yn Bendant/ Yndigwydd eisoes


Difrifoldeb:
1 = Ddim yn arwyddocaol
2 = Isel
3 = Cymedrol
4 = Sylweddol
5 = Trychinebus

Sgôr = Tebygolrwydd x Difrifoldeb

EITHRIEDIG

## ATODIAD 2: Dyluniadau

**Prif Dderbynfa**





Cyntedd drafft newydd, o leiaf 4m o ddyfnder gyda drysau mynediad llithrol pŵeredig

## Llawr Gwaelod

Swyddfa Cynllunio   Arwynebedd=238m$^2$
Cyfaint=642m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=44
=5.4m$^2$/person
=15m$^3$/person

Swyddfa Gwasanaeth Oedolion
Arwynebedd=490m$^2$  Cyfaint=1323m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=85
=5.7m$^2$/person

Swyddfa Tai   Arwynebedd=294m$^2$  Cyfaint=753m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=48
=6.1m$^2$/person
=15m$^3$/person





Swyddfa Gwarchod y Cyhoedd
Arwynebedd=179m$^2$  Cyfaint=483m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=41
=4.4m$^2$/person
=12m$^3$/person
Iechyd yr Amgylchedd i'w symud o'r llawr cyntaf i alluogi Addysg cael eu symud i fewn

Swyddfa Refeniw & Budd-daliadau
Arwynebedd=140m$^2$  Cyfaint=378m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=32
=4.4m$^2$/person
=12m$^3$/person
Refeniw & Budd-daliadau i'w symud i alluogi Tai i fod gyda'i gilydd a creu lle i CYnllunio

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
GWASANAETHAU EIDDO
PROPERTY SERVICES

| CYNLLUN/JOB | RHIF CYNLLUN/JOB No | DYLUNIAD/DRAWING | GRADDFA/SCALE | DYDDIAD/DATE |
|---|---|---|---|---|
| COUNCIL OFFICES LLANGEFNI | | GROUND FLOOR PLAN<br>For relocating staff from Park Mount,,Mon Training,Y Graig, Cynnal, Genesis & Rovacabin building. | 1:250 | |
| | | | DYLUNIWYD/DRAWN | RHIF DYLUNIAD/DRAWING No |

**Llawr Cyntaf**




## Ail Lawr



Swyddfa Eiddo
Arwynebedd=183m$^2$ Cyfaint=494m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=28
*Yn cynnwys 7 staff ystâd o'r Rovacabin*
=6.5m$^2$/person
=18m$^3$/person

Dim newid i'r swyddfeydd Gyfreithiol

Priffyrdd & Trafnidiaeth
Arwynebedd=226m$^2$
Cyfaint=610m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=32
=7m$^2$/person




Swyddfa Cyllid (Cynnwys 11 R&B & 12 TGCh Hyfforddiant Môn)
Arwynebedd=461m$^2$ Cyfaint=1245m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=58
=7.9m$^2$/person
=21m$^3$/person

Swyddfa Priffyrdd, Cefnogaeth & Rheoli Gwastraff
Arwynebedd=338m$^2$ Cyfaint=912m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=40
=8.5m$^2$/person
=22m$^3$/person

Swyddfa Adnoddau Dynol
Arwynebedd=94m$^2$ Cyfaint=253m$^3$
Gweithfannau Gofynnol=18
=5.2m$^2$/person
=14m$^3$/person

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy / Director of Sustainable Development<br>Swyddfa'r Sir, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW<br>GWASANAETHAU EIDDO<br>PROPERTY SERVICES | CYNLLUN/JOB<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI<br>RHIF CYNLLUN/JOB No | DYLUNIAD/DRAWING<br>SECOND FLOOR PLAN<br>For relocating staff from Park Mount, Mon Training, Y Graig, Cynnal, Genesis&Rovacabin building. | GRADDFA/SCALE<br>1:250<br>DYLUNIWYD/DRAWN | DYDDIAD/DATE<br>RHIF DYLUNIAD/DRAWING No |

# ATODIAD 3: Adroddiad Gweithlu'r Dderbynfa

*Er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol drwy'r un dderbynfa fwriededig, mae'r adroddiad hwn yn cynnig y dylid cynyddu'r nifer o staff yn y brif dderbynfa i leiafswm o 4 FTE (cynnydd o 2 FTE), gyda 0.5 FTE ychwanegol o bosib i weithio pan fydd eraill ar wyliau.*

**1. Strwythur y dderbynfa bresennol**

- O fewn pob un o'r tair derbynfa a ddadansoddwyd h.y. Prif adeilad Swyddfeydd y Cyngor, y Caban a Pharc Mount, mae pob un yn cael ei staffio gan 2 FTE aelod o staff.
- Ar draws pob un arall o'r derbynfeydd mewnol sydd yn y sgôp[9] (yn cynnwys trefniadau delio â galwadau) mae tua 19 FTE (mae angen sylweddoli mai rhannau o swyddogaethau pobl yw hyn ac nid 19 o bobl) yn rhoi cygor a gwybodaeth yn gyffredinol dros y ffôn ac e-bost neu wyneb yn wyneb.

**2. Ymwelwyr i'r Awdurdod Lleol**

Bu i ddata a gasglwyd o dderbynfa Prif adeilad Swyddfeydd y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 30 Mehefin – 11 Gorffennaf ddangos:

- Cafodd 1,671 o ymwelwyr eu delio â nhw gan staff y brif dderbynfa;
- Cyfartaledd o 186 bob dydd (23 yr awr yn seiliedig ar gyfnod o 8 awr rhwng 9am – 5pm)
- Mae hyn yn cyfateb ag 1 ymwelydd i'r dderbynfa bob dau funud a hanner

Bu i ddata a gasglwyd o ddwy dderbynfa allanol o fewn sgôp y prosiect yn ystod yr un cyfnod o adrodd, sef derbynfeydd sydd i'w hadleoli o fewn prif Swyddfeydd y Cyngor ddangos:

- Ymwelodd 1,252 o ymwelwyr ychwanegol ag un o'r adeiladau allanol yn ystod y pythefnos;
- Mae hyn yn 139 o ymwelwyr bob dydd (17 yr awr yn seiliedig ar gyfnod o 8 awr rhwng 9am – 5pm)
- Mae hyn yn cyfateb ag 1 ymwelydd i'r dderbynfa bob tri munud a hanner

*Felly, petaem yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd drwy un brif dderbynfa byddai hyn yn cyfateb ag 1 ymwelydd bob munud a hanner.*

**3. Galwadau ffôn i'r Awdurdod Lleol**

Yn ystod yr un cyfnod o adrodd casglwyd data ar gyfer y nifer o alwadau ffôn a dderbyniwyd gan y Brif Dderbynfa; a gwelwyd:

- I'r brif dderbynfa dderbyn 5,682 o alwadau ffôn yn ystod y pythefnos – cyfartaledd o 631 bob dydd a 79 bob awr (yn seiliedig ar gyfnod o 8 awr rhwng 9am – 5pm);
- I'r staff ateb 4,695 o'r galwadau hyn (83%) – 58 bob awr (yn seiliedig ar gyfnod o 8 awr rhwng 9am – 5pm) sy'n cyfateb ag 1 alwad yn cael ei hateb gan bob aelod o staff bob 2 funud;
- I 832 o alwadau gael eu colli – sef 92 bob dydd ar gyfartaledd

Bu i ddata a gasglwyd ar gyfer y dau rif ffôn arall a gyhoeddwyd o fewn yr Awdurdod Lleol (o fewn sgôp y prosiect i'w hymgorffori i greu un rhif cyswllt) ddangos:

EITHRIEDIG

[9] Gweler atodiad pedwar am restr o wasanaethau

- Y derbyniwyd 4,053 o alwadau ychwanegol yn ystod y cyfnod o adrodd (450 bob dydd ar gyfartaledd – sef 56 bob awr);
- Y derbyniwyd 2,769 o alwadau ychwanegol yn ystod yr un cyfnod tra chollwyd 878 o alwadau

**4. Cynnig i Gynyddu Staff y Prif Dderbynfa**

Gyda'r bwriad o uno nifer o dderbynfeydd i mewn i dderbynfa prif adeilad Swyddfeydd y Cyngor, byddai hyn o bosib yn cynyddu[10] llwyth gwaith yr unig brif dderbynfa newydd fel a ganlyn:

*Galwadau ffôn*
- **Cynnydd o 71%** o bosib mewn galwadau ffôn a dderbynnir;
- Yn seiliedig ar gadw dau aelod o staff FTE byddai'r naill aelod o staff yn gorfod derbyn **galwad ffôn bob 1 munud**

*Ymwelwyr*
- **Cynnydd o 74%** mewn ymwelwyr i'r prif adeilad
- Yn seiliedig ar gadw dau aelod o staff FTE byddai'r naill aelod o staff yn delio ag ymwelydd **bob 3 munud**

Yn seiliedig ar y codiadau canrannol, mae hyn bron yn dyblu llwyth gwaith staff presennol y brif dderbynfa ar hyn o bryd (2 FTE). Mae'n bwysig nodi hefyd bod y nifer o alwadau a gollir ar draws y derbynfeydd yn y sgôp eisoes yn uchel (*collir cyfartaledd o 855 o alwadau bob wythnos*) a byddai hyn yn cynyddu mae'n debyg petaem yn ymestyn y capasiti ymhellach.

**Felly, cynnig yr adroddiad hwn yw y dylid cynyddu'r nifer o staff i <u>isafswm</u> o 4 FTE (cynnydd o 2 FTE) gyda dau 0.5 FTE i helpu yn ystod cyfnodau o wyliau.** Mae gwybodaeth o Wynedd yn cefnogi'r cynnig hwn gyda 4 FTE yn gweithio yn y brif dderbynfa yno ar unrhyw adeg; a dau 0.5 FTE ychwanegol i weithio os bydd eraill ar eu gwyliau. Dylid nodi nad yw staff Gwynedd yn ateb galwadau ffôn gan fod hyn yn cael ei wneud gan ganolfan alwadau allanol. I gymharu'n deg felly, rhoddwn ystyriaeth i'r ffaith y bydd cynnydd mewn ymwelwyr mewn un brif dderbynfa yn golygu y bydd cynnydd hefyd yn y ceisiadau am ffurflenni a'r nifer a ddanfonir gan y bobl hynny (tua 473 dros y cyfnod a brofwyd sef 53 bob diwrnod ar gyfartaledd). Dylai'r gwaith a wneir i sicrhau bod ffurflenni ar gael i'w casglu, eu cwblhau a'u gadael drwy hunan-wasanaeth ar-lein ac ar gael ar bwynt casglu, leihau'r baich hwn yn sylweddol.

**5. Goblygiadau Ymarferol**

Byddai gofyn i staff sy'n gweithio ar yr unig brif dderbynfa newydd:

- gynnig cyngor a gwybodaeth yn gyffredinol dros y ffôn – e.e. ceisiadau cyffredinol am wybodaeth cyfeiriol cyffredinol, ceisiadau am ffurflenni cais neu ar gyfer eu cyflwyno, danfon/casglu post neu offer (e.e. Allweddau, bagiau baw cŵn), ceisiadau i logi ystafelloedd cyfarfodydd neu i ddelio â rhywun sy'n datgan ei fod wedi cyrraedd cyfarfod; a
- staffio'r dderbynfa – rhoi cyngor cyffredinol wyneb yn wyneb e.e. ceisiadau cyffredinol am wybodaeth cyfeiriol cyffredinol, ceisiadau am ffurflenni cais neu ar gyfer eu cyflwyno, danfon/casglu post neu offer (e.e. Allweddau, bagiau baw cŵn), ceisiadau i logi ystafelloedd cyfarfodydd neu i ddelio â rhywun sy'n datgan ei fod wedi cyrraedd cyfarfod.

EITHRIEDIG

---

[10] *Cynnydd yn seiliedig ar y data a ddarparwyd yn Atodiad 4 yn manylu ar y galwadau i bob maes gwasanaeth unigol (rhifau a gyhoeddwyd)*

I ddechrau, os bydd cwsmer angen cyngor neu wybodaeth arbenigol neu gan arbenigwr (lle bydd yr ymateb sydd ei angen yn dibynnu ar wybodaeth drylwyr o'r gwasanaeth a ddefnyddir a/neu wasanaethau cysylltiedig eraill), byddai'r dderbynfa'n cysylltu â'r Gwasanaeth a gofyn i aelod o staff ddelio â'r ymholiad (un ai dros y ffôn neu drwy fynd i'r dderbynfa). Yng Ngwynedd, maent wedi hyfforddi staff i gael dealltwriaeth fwy manwl o bob Gwasanaeth, sydd yn ddull y gellid ei ystyried ym Môn i'r dyfodol.

### 5.1. Paratoi ar gyfer Un Brif Dderbynfa

- Un o'r ffrydiau gwaith o fewn y prosiect yw sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir gan Wasanaethau ar MonITor yn gyfredol ac yn cael ei chynnal. Bydd hyn yn rhoi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar staff y dderbynfa i gwblhau eu dyletswyddau.
- Bydd yn bwysig hefyd gweithio gyda chynrychiolaeth o staff rheng flaen i ddeall y goblygiadau ymarferol a sut y gellir datblygu prosesau i gefnogi staff a darparu gwasanaeth effeithiol ar y dderbynfa.
- Gall fod angen hyfforddiant os penderfynir defnyddio un rhif ffôn canolog yn unig[11].

## 6. Data i Gefnogi'r Canlyniadau

Mae'r setiau data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r adroddiad hwn ar gael fel yr atodiadau canlynol:
*1. Cyfanswm Ymwelwyr i'r Awdurdod Lleol (Prif Adeilad Swyddfeydd y Cyngor, Parc Mount, Y Caban)*
*2. Data Ymwelwyr – Rheswm am ymweld (Parc Mownt a'r Caban)*
*3. Data Galwadau Ffôn ar gyfer holl rifau a gyhoeddwyd yn gyhoeddus yn y sgôp (Awdurdod Lleol cyfan)*

EITHRIEDIG

[11] Adroddiad Teleffoni Corfforaethl

| | 30/06/2014 | 01/07/2014 | 02/07/2014 | 03/07/2014 | 04/07/2014 | 07/07/2014 | 08/07/2014 | 09/07/2014 | 10/07/2014 | 11/07/2014 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwas. Cymdeithasol | 8 | 26 | 22 | 44 | 29 | 33 | 23 | 35 | 0 | 26 | 246 |
| Refeniw a Budd-daliadau | 12 | 20 | 26 | 25 | 22 | 21 | 17 | 15 | 0 | 35 | 193 |
| Safonau Masnach | 2 | 5 | 2 | 9 | 10 | 5 | 7 | 5 | 0 | 7 | 52 |
| Tai | 7 | 32 | 20 | 24 | 26 | 23 | 47 | 32 | 0 | 21 | 232 |
| Priffyrdd | 1 | 3 | 1 | 4 | 5 | 2 | 3 | 8 | 0 | 5 | 32 |
| Anhysbys | 0 | 18 | 27 | 36 | 25 | 24 | 21 | 19 | 0 | 27 | 197 |
| Cyfarfod | 0 | 21 | 13 | 6 | 7 | 0 | 3 | 5 | 0 | 2 | 57 |
| Cyfreithiol | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Aelodau | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 5 |
| Eiddo | 0 | 3 | 3 | 3 | 2 | 0 | 5 | 5 | 0 | 4 | 25 |
| Cyllid | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 3 | 1 | 0 | 2 | 10 |
